

# Cyflwr Mamaliaid yng Nghymru

Adroddiad gan Gymdeithas  
y Mamaliaid ar gyfer  
Cyfoeth Naturiol Cymru

## *The State of Mammals in Wales*

*A report by the Mammal Society  
for Natural Resources Wales*

### **Awduron Authors**

Fiona Mathews  
Bethany Smith  
Colin Harrower  
Frazer Coomber



**THE  
Mammal  
SOCIETY**

Cynhyrchwyd ar y cyd â Ffowr Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru  
*Produced in association with Wales Mammal Biodiversity Action Forum*

## Gair am Gymdeithas y Mamaliaid

Mae Gymdeithas y Mamaliaid yn sefydliad elusennol sy'n gweithio ar ryngwyneb gwyddoniaeth, llunio polisiau ac ymarfer. Ein cenhadaeth yw darparu'r dystiolaeth wyddonol ar gyfer cadwraeth a rheolaeth effeithiol. Er mwyn cael gwybod mwy am ein gwaith, cynorthwyo cadwraeth mamaliaid, a chael gafael ar wybodaeth ac adnoddau, ewch i [mammal.org.uk](https://mammal.org.uk).

## About the Mammal Society

The Mammal Society is a charitable organisation working at the interface of science, policy making and practice. Our mission is to provide the scientific evidence for effective conservation and management. To find out more about our work, support mammal conservation, and access information and resources, visit [mammal.org.uk](https://mammal.org.uk).



Dylid cyfeirio at y ddogfen hon fel • This document should be cited as:

Mathews F, Smith B, Harrower C, Coomber F in association with the Wales Mammal Biodiversity Action Forum. (2020). *The State of Mammals in Wales*. A report by the Mammal Society for Natural Resources Wales, produced in association with Wales Mammal Biodiversity Action Forum. The Mammal Society, London. ISBN: 978-0-9935673-6-0

# Cyflwr Mamaliaid yng Nghymru

Adroddiad gan Gymdeithas  
y Mamaliaid ar gyfer  
Cyfoeth Naturiol Cymru

## *The State of Mammals in Wales*

*A report by the Mammal Society  
for Natural Resources Wales*



## Draenog

Amcangyfrifir bod poblogaethau wedi gostwng hyd at 61% ers adolygiad 1995. Fodd bynnag, mae ansicrwydd mawr yn yr amcangyfrifon ac mae draenogiaid ymhliith ein mamaliaid a astudiyd lleiaf.

## Hedgehog

*Populations are estimated to have declined by up to 61% since the 1995 review. However, there are great uncertainties in the estimates, and hedgehogs are among our least studied mammals.*



## Cynnwys Contents

<b>Cyflwyniad</b> <i>Introduction</i>	<b>06</b> <b>07</b>
<b>Cynefinoedd</b> <i>Habitats</i>	<b>14</b> <b>15</b>
<b>Canfyddiadau allweddol</b> <i>Key findings</i>	<b>18</b> <b>21</b>
<b>Cyfrifon rhywogaethau</b> <i>Species accounts</i>	<b>32</b> <b>33</b>
<b>Blaenoriaethau ymchwil</b> <i>Research priorities</i>	<b>88</b> <b>89</b>
<b>Heriau a chyfleoedd ar gyfer cadwraeth mamaliaid yng Nghymru</b> <i>Challenges and opportunities for mammal conservation in Wales</i>	<b>96</b> <b>97</b>
<b>Atodiad</b> <i>Appendix</i>	<b>124</b> <b>125</b>
<b>Darparwyr data</b> <i>Data providers</i>	<b>130</b> <b>131</b>



## Cyflwyniad

Cafwyd yr asesiad cynhwysfawr diwethaf o statws y 49 rhywogaeth o famaliaid a ganfyddir yng Nghymru yn 1995. Mae *Cyflwr Mamaliaid yng Nghymru* yn crynhoi ein gwybodaeth bresennol, gan adrodd ar feintiau poblogaethau, gwasgariadau daearyddol, tueddiadau ac, ar gyfer rhywogaethau cynhenid, eu statws Rhestr Goch Ranbarthol yn ôl safonau'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur.

Mae'r adroddiad yn defnyddio *Review of the Conservation and Population Status of British Mammals* Cymdeithas y Mamaliaid, a gomisiynwyd gan Natural England, Cyfoeth Naturol Cymru a Scottish Natural Heritage. Wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin 2018, roedd yr adolygiad yn seiliedig ar fwy na 1.5 miliwn o gofnodion biologol, dystiolaeth sy'n deillio o gynlluniau monitro rhywogaethau penodol, ac adolygiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth.

Ar hyn o bryd, mae nifer o gyfleoedd ar gyfer gwarchod mamaliaid yng Nghymru. Parhaodd Cymru i fod yn gadarnle ar gyfer y ffwl bart pan wnaeth bron â diflannu'n llwyr o weddill y DU, mae ymdrechion cyfredol i atgyfnherthu poblogaethau'r bele wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac mae Ynys Môn yn parhau i fod yn ardal allweddol ar gyfer gwiwerod coch. Ceir poblogaethau sylwedol o ystlumod pedol mwyaf ac ystlumod pedol lleiaf hefyd, gyda dystiolaeth o ledaeniad cynyddol tua'r gogledd, sydd o bosibl yn adlewyrchu amodau hinsoddol newidiol. Fodd bynnag, mae bywyd gwylt yng Nghymru hefyd yn wynebu heriau o ganlyniad i anghenion poblogaethau dynol sy'n lledaenu, gofynion ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth, a phresenoldeb rhywogaethau estron goresgynnol. Trwy gyfres o astudiaethau achos, mae *Cyflwr Mamaliaid yng Nghymru* yn gosod asesiadau o gyflwr cadwraeth yn eu cyd-destun.



## Introduction

The status of the 49 mammal species found in Wales was last comprehensively assessed in 1995. *The State of Mammals in Wales* summarises our current knowledge, reporting population sizes, geographical ranges, trends and, for native species, their Regional Red List status according to International Union for the Conservation of Nature (IUCN) standards.

The report draws on the Mammal Society's *Review of the Conservation and Population Status of British Mammals*, commissioned by Natural England, Natural Resources Wales, and Scottish Natural Heritage. Published in June 2018, the review was based on more than 1.5 million biological records, evidence derived from species-specific monitoring schemes, and a comprehensive review of the literature.

There are currently many opportunities for the conservation of mammals in Wales. The country remained a stronghold for polecats when they all but disappeared from the rest of the UK; current efforts to reinforce pine marten populations have been extremely successful; and Anglesey retains a key area for red squirrels. There are also significant populations of greater and lesser horseshoe bats, with evidence of an increasing northward spread, possibly reflecting changing climatic conditions. However, wildlife in Wales also faces challenges from the needs of expanding human populations, requirements for agriculture and forestry, and the presence of invasive non-native species. Through a series of case studies, *The State of Mammals in Wales* places the assessments of conservation status in context.



## Trosolwg

Mae mamaliaid, heb os, yn garismataidd: mae ymgyrchoedd i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd neu i godi arian ar gyfer cadwraeth yn cynnwys mamaliaid yn amlach na pheidio. Maent yn ffurfio cydrannau pwysig o bron bob ecosystem ddaearol yng Nghymru. Mae mamaliaid bach yn darparu ysglyfaeth ar gyfer mamaliaid ac adar ysglyfaethus, mae ceirw yn ffurfi'r dirwedd wrth bori, ac mae ystlumod yn chwarae'r rôl bwysig wrth reoli poblogaethau o bryfed. Ar y llaw arall, gall mamaliaid hefyd ddifrodi cnydau amaethyddol a choedwigaeth, ac mae rhai, megis y wiwer lwyd a'r minc Americanaidd, yn fygythiadau pwysig i fywyd gwylt arall.

Efallai ei fod yn syndod felly nad yw mamaliaid wedi'u hastudio lawer; mae ansicrwydd mawr o ran tueddiadau poblogaethau yn parhau hyd yn oed ar gyfer rhywogaethau sydd mor boblogaidd â'r draenog neu mor niferus â'r gwningen. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod nifer fawr o rywogaethau yn anodd eu gweld – gan eu bod yn nosol neu'n gyfrinachol – ac yn rhannol am ei bod yn anodd cynnwys y cyhoedd yn y gwaith o gofnodi rhywogaethau estron neu rai sy'n eang eu gwasgariad.

Mae mwy nag 20 mlynedd ers i boblogaethau mamaliaid y tir yng Nghymru gael eu hadolygu'n gynhwysfawr.<sup>1,2</sup> Ers hynny, cafwyd pryder mawr ynglŷn â statws cadwraeth llawer o rywogaethau, sydd wedi arwain at greu cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau megis y wiwer goch a llygoden y dŵr. Mewn cyferbyniad, mae'r ffwl bart wedi gweld adferiad rhyfeddol, gan ledu o Gymru – ei gadarnle olaf – er mwyn ailgytrefu'r rhan fwyaf o Brydain. Ar yr un pryd, cafwyd newidiadau mawr i'r dirwedd wleidyddol – gyda datganoli a Brexit yn fwyaf nodedig – yn ystod y cyfnod hwn, ac mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r buddion y gall ecosystemau iach eu darparu ar gyfer pobl. Mae trafodaethau ynglŷn â'r ffyrdd y mae anghenion tai, seilwaith, amaethyddiaeth a choedwigaeth yn gallu cael eu cydbwyso ag anghenion bywyd gwylt yn uchel ar yr agenda felly.

Yn 2018, cyhoeddodd Cymdeithas y Mamaliaid *A Review of the Population and Conservation Status of British Mammals ('Adolygiad 2018')*. Wedi'i gomisiynu gan dri Sefydliad Cadwraeth Natur Statudol Prydain, mae'n cyflwyno'r amcangyfrifon gorau sydd ar gael ar gyfer meintiau poblogaethau, gwasgariad daearyddol, statws cadwraeth, tueddiadau amserol a bygythiadau ar gyfer mamaliaid ym Mhrydain.

.....

1 Arnold HR. (1993). *Atlas of Mammals in Britain*. HMSO, Llundain.

2 Harris S ac eraill (1995). *A review of British mammals: population estimates and conservation status of British mammals other than cetaceans*. JNCC, Peterborough.

3 Mathews F ac eraill (2018). *A Review of the Population and Conservation Status of British Mammals. A report by the Mammal Society under contract to Natural England, Natural Resources Wales and Scottish Natural Heritage*. Natural England, Peterborough. ISBN 978-1-78354-469-1.

4 Mathews F ac eraill (2018). *A Review of the Population and Conservation Status of British Mammals: Technical Summary. A report by the Mammal Society under contract to Natural England, Natural Resources Wales and Scottish Natural Heritage*. Natural England, Peterborough. ISBN 978-1-78354-485-1.

Mae'n defnyddio cannoedd o broiectau ymchwil, nifer fawr o gynlluniau monitro rhywogaethau penodol, a mwy na 1.5 miliwn o gofnodion biolegol a gasglwyd ers 1995.

Nodwedd ddiffiniol o'r prosiect yw ei fod yn defnyddio, cymaint ag y bo modd, methodolegau cyson ar draws rhywogaethau er mwyn gallu gwneud cymriaethau rhyngddynt. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio'r canfyddiadau er mwyn blaenoriaethu camau gweithredu cadwraeth. Mae'r adolygiad hefyd yn dryloyw ynglŷn â'r dulliau a ddefnyddir ac ynglŷn â'r ansicrwydd posibl o ran y canfyddiadau. Ar gyfer rhai rhywogaethau, nid oes dystiolaeth ddigonol ar gael er mwyn gwneud amcangyfrifon ar gyfer meintiau poblogaethau neu dueddiadau, ac felly amlygir y rhywogaethau hyn fel blaenoriaethau ymchwil yn y dyfodol. Nid yw'r morlo, morfilod, dolffiniaid a llamhidyddion a ganfyddir o amgylch arfordir Prydain wedi'u cynnwys yn yr adolygiad gan eu bod wedi'u hasesu mewn mannau eraill yn yr 20 mlynedd diwethaf, a byddai angen defnyddio dulliau methodolegol gwahanol ar eu cyfer. Mae is-rywogethau ynys, megis Ilygoden bengron Sgomer, a rhywogaethau crwydrol gydag ond un cofnod neu gofnodion achlysurol, megis yr ystlum hirglust llwyd, hefyd wedi'u hepgor.

Mae *Cyflwr Mamaliaid yng Nghymru* yn darparu trosolwg cynhwysfawr o ganfyddiadau *Adolygiad 2018* sy'n berthnasol i Gymru. Ceisir osgoi jargon technegol cymaint ag y bo modd, gan wneud y llyfr yn hygrych i gynulleidfa eang. Felly, mae llawer o'r manylion methodolegol, cafeatau ac agweddau technegol eraill ar *Adolygiad 2018* heb eu cynnwys. Er enghraift, roedd natur amrywiol y rhywogaethau a gwmpesir yn golygu ei bod weithiau'n angenrheidiol i gymhwysu dulliau sy'n benodol i rywogaethau neu i gymharu darnau o dystiolaeth sy'n gwrthdaro. Yn yr achosion hyn, mae *Cyflwr Mamaliaid yng Nghymru* yn darparu'r boblogaeth a gyfrifir, ei gwasgariad a dibynadwyedd y data hyn ar gyfer y darllenwr, heb y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'u creu. Fodd bynnag, mae *Adolygiad 2018*, a chrynodeb technegol byr o'r cyhoeddiad hwnnw, ill dau ar gael i'r cyhoedd ar gyfer darllenwyr sydd â diddordeb yn y manylion sylfaenol.<sup>3,4</sup>

## Overview

Mammals are undoubtedly charismatic: campaigns to increase public awareness or raise funds for conservation overwhelmingly feature mammals. They form important components of practically every terrestrial ecosystem in Wales. Small mammals provide prey for mammalian and avian predators, deer shape the landscape through grazing, and bats play an important role in controlling insect populations. On the other hand, mammals can also damage agricultural crops and forestry, and some, such as the grey squirrel and American mink, are important threats to other wildlife.

It is therefore perhaps surprising that mammals are very poorly studied; great uncertainties in population trends remain even for species as well-loved as the hedgehog, or as abundant as the rabbit. This is partly because many species are difficult to spot – being nocturnal or secretive – and partly because it can be difficult to engage the public with recording non-native or widespread species.

Terrestrial mammals in Wales were last comprehensively reviewed more than 20 years ago.<sup>1,2</sup> Since then, there has been great concern about the conservation status of many mammals, prompting the creation of action plans for species such as the red squirrel and the water vole. In contrast, the polecat has staged a remarkable recovery, expanding from Wales – its last stronghold – to recolonise most of Britain. Considerable changes to the political landscape – most notably devolution and Brexit – have also occurred during this period, and there is a growing recognition of the benefits that healthy ecosystems can provide to humans. Discussions about the ways in which the needs of housing, infrastructure, agriculture, and forestry can be balanced with those of wildlife are therefore high on the agenda.

In 2018, the Mammal Society published *A Review of the Population and Conservation Status of British Mammals* (the ‘2018 Review’). Commissioned by the three Statutory Nature Conservation Organisations of Britain, it presents the best available estimates of population size, geographical range, conservation status, temporal trends and threats for British mammals. It draws on hundreds of research projects, many species-specific monitoring schemes, and more than 1.5 million biological records collected since 1995.

A defining characteristic of the project is that it uses, as far as possible, consistent methodologies across species to enable comparisons to be made between them. This enables the findings to be used to prioritise conservation action. The review is also transparent about the approaches taken and about the potential uncertainties in the findings. For some species, there is simply insufficient evidence to enable estimates to be made of population sizes or trends, and these species are therefore highlighted as future research priorities. The seals, whales, dolphins and porpoises found around the British coast are excluded from the review because they have been assessed elsewhere within the past 20 years, and would have required different methodological approaches. Island subspecies, such as the Skomer vole, and vagrant species with only a single or very occasional record, such as the Grey long-eared bat, are also excluded.

*The State of Mammals in Wales* provides a concise overview of the findings from the *2018 Review* that are relevant to Wales. Technical jargon is avoided as far as possible, making the book accessible to a wide audience. Therefore, much of the methodological detail, caveats, and other technical aspects of the *2018 Review*, are not included. For example, the diverse nature of the species covered meant it was sometimes necessary to apply species-specific methods, or to compare conflicting pieces of evidence. In these cases, *The State of Mammals in Wales* provides the calculated population, ranges and their reliability to the reader, without the intricacies associated with their production. However, the *2018 Review*, and a short technical summary of that publication, are both publicly available for readers interested in the underlying detail.<sup>3,4</sup>

.....

1 Arnold HR. (1993). *Atlas of Mammals in Britain*. HMSO, London.

2 Harris S et al. (1995). *A review of British mammals: population estimates and conservation status of British mammals other than cetaceans*. JNCC, Peterborough.

3 Mathews F et al. (2018). *A Review of the Population and Conservation Status of British Mammals. A report by the Mammal Society under contract to Natural England, Natural Resources Wales and Scottish Natural Heritage*. Natural England, Peterborough. ISBN 978-1-78354-469-1.

4 Mathews F et al. (2018). *A Review of the Population and Conservation Status of British Mammals: Technical Summary. A report by the Mammal Society under contract to Natural England, Natural Resources Wales and Scottish Natural Heritage*. Natural England, Peterborough. ISBN 978-1-78354-485-1.



## Statws rhyngwladol ac ar lefel gwlad

Nid yw'r rhan fwyaf o famaliaid a ganfyddir yng Nghymru mewn perygl yn fydd-eang. Ystyrir bod y gwningen, yr ystlum du ac ystlum Bechstein – sydd ag un ardal fridio hysbys yng Nghymru – dan beth bygythiad, sy'n golygu bod perygl credadwy y byddant yn wynebu difodiant yn y dyfodol agos. Er gwaethaf y diffyg bygythiad ymddangosiadol hwn i'r mamaliaid a ganfyddir yng Nghymru o safbwyt byd-eang, mae cyflwr ein bywyd gwylt yn amlwg yn bwysig iawn yn ecolegol, yn ddiwylliannol ac yn foesegol, ac mae cyfrifoldebau tuag at fywyd gwylt wedi'u hymgorffori o fewn cyfraith genedlaethol a rhyngwladol.

Er mwyn llywio gweithrediadau cynllunio a chadwraeth yn y dyfodol, mae Cymdeithas y Mamaliaid felly wedi cynnal asesiadau Rhestr Goch Ranbarthol ar gyfer rhywogaethau cynhenid yng Nghymru a Phrydain. Mae'r asesiadau wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol gan Grŵp Rhestr Goch Rhyngasiantaethol yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur. Mae asesiadau ar lefel gwlad a'r rheini a gynhelir ar gyfer rhywogaethau estron (sydd wedi cynefino) yn dilyn yr un meini prawf Rhestr Goch Ranbarthol gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur. Er bod hyblygrwydd ar gael o fewn y canllawiau er mwyn gallu cynnal yr asesiadau hyn, nid oes dull o'u cymeradwyo'n ffurfiol, a dylid ystyried hyn pan fyddant yn cael eu dehongli. Gall asesiadau Rhestr Goch fod yn anodd eu gwneud ar gyfer ardaloedd daearyddol bach, yn enwedig o dan amgylchiadau lle mae gan y rhywogaeth wasgariad cyfyngedig o fewn gwlad benodol ond ei bod yn symudol ac yn cymysgu â phoblogaethau cyfagos. Bwriad asesiadau Rhestr Goch yw asesu'r perygl o ddifodiant yn y tymor byr, ar sail newidiadau diweddar yn bennaf (o fewn y deng mlynedd diwethaf neu dair cenhedlaeth, pa bynnag un sydd hiraf). Er mwyn darparu mewnwlediadau i newidiadau tymor hirach, mae *Adolygiad 2018* hefyd wedi asesu newidiadau mewn gwasgariad daearyddol a statws poblogaethau ers *Adolygiad 1995*.

Mae gwybodaeth gywir am ddosbarthiad a dwysedd poblogaethau o rywogaethau mamaliaid, yn ogystal â mewnwlediadau i dueddiadau amserol, yn hanfodol ar gyfer datblygu rheolaeth effeithiol. Mae'r data hyn hefyd yn ofynnol er mwyn galluogi Cymru i gyflawni ei rhwymedigaethau ar gyfer monitro ac adrodd o dan gyfraith Prydain a chytuniad rhyngwladol. Gan ystyried bod y DU wedi ymrwymo i Gonfensiwn Berne, nid yw'n debygol y bydd y rhwymedigaethau hyn yn newid yn sylweddol yn dilyn Brexit. Mae arolygon cenedlaethol ar gyfer mamaliaid fel arfer yn gyfyngedig i gofnodi presenoldeb neu absenoldeb rhywogaeth o fewn sgwâr grid – gwybodaeth y gellir ei defnyddio i amlinellu gwasgariad daearyddol rhywogaeth.

Lle mae ymdrech arolwg wedi'i safoni, gellir cael gafaol ar wybodaeth fwy manwl am yr ardaloedd o fewn y gwasgariad cyffredinol sydd wedi'u meddiannu, yn ogystal â thystiolaeth am gysylltiadau cynefinoedd. Cynhaliwyd arolygon o'r math hwn ar gyfer nifer o rywogaethau, gan gynnwys y ffwlbart a'r bele. Mae'r arolygon hyn nid yn unig yn darparu cipolwg defnyddiol, ond maen nhw hefyd yn darparu gwaelodlin ar gyfer mesur newid. Pan gynhelir arolygon yn olynol, mae'n bosibl mesur tueddiadau amserol yn nosbarthiad rhywogaethau. Er enghraift, mae arolygon cenedlaethol o fewn dyfrgwn ac arwyddion o lygoden bengron y dŵr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban wedi darparu tystiolaeth gadarn fod gwasgariad dyfrgwn wedi ehangu ac o ostyngiad yn niferoedd Ilygod pengrwn y dŵr. Mae terfynu'r cynlluniau monitro hyn felly yn destun pryder.

Mae'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Monitro Pathewod a'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Monitro Ystlumod yn gwneud casgliadau o ran newidiadau cymharol mewn meintiau poblogaethau yn seiliedig ar arsylwadau a ailadroddir mewn safleoedd astudio canolog. Fodd bynnag, i gael mesurau absolwt o feintiau poblogaethau, byddai angen data ychwanegol ar ddwysedd anifeiliaid ar draws y dirwedd. Mae cael gafaol ar wybodaeth am ddwysedd yn gofyn am fuddsoddi mwy o amser ac ymdrech na phenderfynu ar bresenoldeb yn unig, ac yn aml mae'n gofyn am ailadrodd arolygon. Mae'r ymdrech sydd ei hangen i benderfynu ar ddwysedd yn uwch byth lle mae rhywogaethau yn swil neu'n brin. Mae'r cyfyngiadau hyn yn golygu bod yr adnoddau prin sydd ar gael ar gyfer monitro wedi tueddu i gael eu cyfeirio at fesur newidiadau mewn dosbarthiad neu feintiau poblogaethau cymharol yn hytrach nag amcangyfrif meintiau poblogaethau absolwt. Fodd bynnag, ceir dibenion lle mae meintiau poblogaethau absolwt yn hytrach na mynegeion o newidiadau cymharol yn bwysig iawn. Er enghraift, mae penderfynu a yw marwolaethau ymmsg bywyd gwylt (megis o ganlyniad i wrthdrawiadau gyda cherbydau neu dyrbinau gwynt, neu o ganlyniad i ddifa) yn debygol o gael effaith sylweddol ar boblogaethau lleol yn dibynnu ar gael amcangyfrifon rhesymol o feintiau poblogaethau. Mae blaenoriaethu camau gweithredu cadwraeth a rheoli hefyd yn gofyn am ddealltwriaeth o feintiau poblogaethau: mae dau o'r tri maen prawf ar gyfer Rhestr Goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur, er enghraift, yn seiliedig ar wybod cyfanswm nifer yr unigolion aedd fed.

Gall amcangyfrifon o feintiau poblogaethau ddeillio o gyfrifon cyfansymiol uniongyrchol o boblogaethau lleol. Fel arall, gellir defnyddio samplu o bell, sy'n addasu ar gyfer tebygolrwydd canfod ar sail y pellter rhwng yr arsylwr a'r anifail. Mae cyfrifon cyfansymiol fel arfer yn defnyddio llawer o adnoddau, oherwydd yr angen i sicrhau bod yr holl anifeiliaid yn cael eu gwyllo, tra bo samplu o bell yn dibynnu ar allosod o is-sampl o'r boblogaeth.

## International and country-level status

Most mammals found in Wales are not endangered globally. The rabbit, barbastelle bat and Bechstein's bat – which has a single known breeding colony in Wales – are considered near threatened, meaning that there is a plausible risk of them becoming threatened with extinction in the near future. Despite this apparent lack of threat to the mammals found in Wales from a global perspective, the state of our wildlife is clearly important ecologically, culturally, and morally, and responsibilities towards it are enshrined in national and international law.

To inform future planning and conservation action, the Mammal Society has therefore conducted Regional Red List assessments for native species in both Wales and Britain. The assessments have been formally approved by the Inter-Agency IUCN Red Listing Group. Country-level assessments and those conducted for non-native (naturalised) species follow the same IUCN Regional Red List criteria. Whilst there is flexibility within the guidelines to allow these assessments to be made, there is no mechanism for them to be formally approved, and this should be borne in mind when they are being interpreted. Red List assessments can be difficult to make for small geographical areas, particularly in circumstances where the species has a restricted range within a particular country but is mobile and mixes with neighbouring populations. Red List assessments are intended to assess short-term risks of extinction, largely based on relatively recent changes (within the last ten years or three generations, whichever is longer). To provide insights into longer-term changes, the *2018 Review* also assessed changes in geographical range and population status since the *1995 Review*.

Accurate information on the distribution and population density of mammal species, as well as insight into temporal trends, is vital for the development of effective management. These data are also required to enable Wales to fulfil its obligations for monitoring and reporting under British law and international treaty. Given that the UK is a signatory to the Berne Convention, these obligations are unlikely to change materially post-Brexit. National surveys for mammals are usually limited to recording the presence or absence of a species within a grid square – information that can be used to delineate a species' geographical range. Where survey effort is standardised, more detailed information on the areas within the overall range that are occupied can be derived, together with evidence on habitat association. Surveys of this kind have been carried out for several species, including the polecat and the pine marten. These surveys not only provide a useful snapshot, but they also provide a baseline from which to measure change.

When consecutive surveys are conducted, it is possible to measure temporal trends in species' distribution. For example, national surveys of otter spraint and water vole signs in Wales, England and Scotland provided robust evidence of the range expansion of otters and the decline of water voles. The cessation of these monitoring schemes is therefore a concern.

The National Dormouse Monitoring Programme and The National Bat Monitoring Programme make inferences about relative changes in population size based on repeated observations at focal study sites. However, absolute measures of population size would require additional data on the density of animals across the landscape. Obtaining density information requires a larger investment of time and effort than determining presence alone, and often necessitates repeated surveys. The effort needed to determine density is higher still where species are elusive or rare. These limitations mean that the scarce resources available for monitoring have tended to be directed at measuring changes in distribution or relative population size rather than estimating absolute population sizes. However, there are purposes for which absolute population sizes rather than indices of relative change are extremely important.



Llun • Photo: Richard Campion





## Statws rhwngwladol ac ar lefel gwlad parhad

Ar gyfer mamaliaid bach, mae mesuriadau o ddwysedd poblogaethau yn tuedd i gynnwys trapio anifeiliaid yn fyw. Gall cyfanswm nifer yr anifeiliaid sy'n trapio eu dal yn ystod un sesiwn drapio ddarparu procsi ar gyfer dwysedd y boblogaeth ar ffurf cyfanswm nifer yr anifeiliaid unigol sy'n cael eu trapio, pan y'i rhennir gan yr 'ardal drapio wirioneddol'. Lle y mae'n bosibl cynnal sesiynau trapio lloosog, gall modelau 'dal-marcio-ail-ddal' gael eu defnyddio i amcangyfrif dwysedd o hanes dal unigolion o fewn y boblogaeth sy'n cael ei thrapiro. Mae rhywogaethau prin neu swil, yn ôl eu diffiniad, yn anodd eu monitro. Fodd bynnag, mae cynnydd yn cael ei wneud wrth ddefnyddio datblygiadau technolegol mewn methodolegau dal ar gamera, a thrwy ddefnyddio technegau moleciwlaid sy'n galluogi adnabod unigolion o ffynonellau anfawnwthiol megis blew, ysgarthion a phlu.

I grynhoi, cyfran isel iawn o rywogaethau mamaliaid yng Nghymru sydd wedi'u monitro mewn modd systematig. Mae'r rhan fwyaf o wybodaeth yn deillio yn hytrach o gofnodion *ad hoc* a chynlluniau lleol, tymor byr. Mae'r diffyg hwn o ran gwyliadwriaeth gydlynol strategol yn cyfyngu ar ein gallu i weld a rheoli lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol, neu ddirywiad rhywogaethau rydym yn dymuno eu gwarchod. Mae prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion – os oes ganddynt adnoddau priodol ac os ydynt yn cael eu cynllunio a'u rheoli'n briodol – yn cynnig un dull o gynnal gwaith monitro ar raddfa fawr ar gyfer rhai rhywogaethau. Mae Ap Mapio Mamaliaid newydd Cymdeithas y Mamaliaid yn darparu offeryn y gall aelodau unigol o'r cyhoedd, neu brosiectau a gynhelir gan elusennau bywyd gwylt, ei ddefnyddio i gasglu data mewn modd safonol, gan ei wneud yn agored i ddadansoddiad ffurfiol. Fodd bynnag, ar gyfer y rhywogaethau mwy swil, mae'r angen yn parhau ar gyfer arolygon mwy arbenigol, sy'n cynnwys dal ar gamera, trapio'n fyw, a goruchwyliau genetig o bosibl hefyd.

## Dull cyffredinol

Amcan yr adolygiad oedd cynhyrchu'r asesiad mwyaf cywir â phosibl o feintiau poblogaethau, gwasgariad daearyddol a thueddiadau cadwraeth ers 1995. Roedd y prosiect felly yn cyfeirio at lenyddiaeth wedi'i chyhoeddi a heb ei chyhoeddi sydd wedi ymddangos ers y dyddiad hwnnw, a barn gan arbenigwyr pan nad oedd gwybodaeth ddigonol ar gael.

Y dull cyffredinol ar gyfer amcangyfrif meintiau poblogaethau oedd lluosi amcangyfrifon dwysedd sy'n benodol i gynefin gan ledaeniad y cynefinoedd hynny o fewn y gwasgariad daearyddol. Diffiniwyd cynefinoedd yn dilyn y dosbarthiadau ym Map Gorchudd Tir 2007 gan fod y set ddata hon yn darparu'r amcangyfrifon gorau o argaeledd cynefinoedd ar raddfa genedlaethol. Defnyddiwyd yr Arolwg Cefn Gwlad er mwyn cael hyd i wybodaeth am wrychoedd, a chafwyd hyd i hydoedd cynefinoedd afonol o **Adolygiad 1995**. Nid oedd modd cymhwys o'r dull cyffredinol ar gyfer amcangyfrif meintiau poblogaethau i'r rhan fwyaf o ystlumod oherwydd bod dwyseddau mewn un cynefin yn dibynnu ar ledaeniad a ffurfweddiad cynefinoedd eraill. Felly, gwnaed amcangyfrifon o ddwysedd clwydfannau ar raddfa tirwedd, a chyfunwyd y rhain ag amcangyfrifon o feintiau clwydfannau a gwasgariad daearyddol. Roedd yr amcangyfrif o wasgariad daearyddol ar gyfer pob rhywogaeth wedi elwa ar ddefnyddio cofnodion biologol a ddarparwyd ar gydraniad mwy manwl na'r rheini sydd ar gael ar gronfeydd data sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Ar gyfer nifer o rywogaethau, mae'r asesiadau a gyflwynir yn yr adolygiad hwn yn seiliedig ar ddata cyfyngedig iawn. Cenhadaeth Cymdeithas y Mamaliaid yw cefnogi dulliau gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Mae'r adroddiad hwn felly yn dryloyw ynglŷn â ffynonellau gwallau posibl, ac mae'r data – mapiau gwasgariad, amcangyfrifon dwysedd, ac ati – y mae'r cyfrifiadau yn seiliedig arnynt ar gael am ddim. Er enghraift, ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau, nid oedd yn bosibl gwahaniaethu rhwng cofnodion oedd yn cynrychioli poblogaethau sefydledig neu rai sy'n bridio o gofnodion achlysurol, ac felly ni wnaethpwyd unrhyw ymdrech i ddangos y gwahaniaeth hwn.

Mae'r meintiau poblogaethau ar gyfer pob rhywogaeth yn cael eu darparu gyda'r terfynau uchaf ac isaf, sy'n cwmpasu ystod y gwerthoedd y gallai meintiau'r poblogaethau eu cymryd o fewn rheswm. Darperir sgôr dibynadwyedd hefyd. Mae sgoriau uwch yn dangos lefelau cynyddol o hyder yn y data sylfaenol a ddefnyddir i gyfrifo helaethrwydd y rhywogaethau yn y cynefinoedd gwahanol. Lle mae gan rhywogaeth sgôr dibynadwyedd o <=1, neu lle mae'r terfyn hyder uchaf yn fwy na threfn maint yn fwy na'r amcangyfrif canolog, gosodir maint y boblogaeth o fewn cromfachau sgwâr er mwyn tynnu sylw at y lefel isel o hyder a roddir i'r amcangyfrif.

Rhoddir crynodeb byr o'r dulliau a ddefnyddir yn yr Atodiad i'r ddogfen hon. Darperir manylion llawn yn adran Dulliau **Adolygiad 2018**.

## International and country-level status

continued

For example, determining whether wildlife fatalities (such as from collision with vehicles or wind turbines, or from culling) are likely to have a material impact on local populations depends on having reasonable estimates of population sizes. The prioritisation of conservation and management actions also often requires an understanding of population sizes: two of the three IUCN Red List criteria, for instance, are based on knowing the total number of mature individuals.

Population size estimates can be derived from direct total counts of local populations. Alternatively, distance sampling, which adjusts for the probability of detection based on the distance between the observer and the animal, can be used. Total counts are usually highly resource-intensive, because of the need to ensure that all animals are observed, while distance sampling relies on extrapolation from a sub-sample of the population. For small mammals, measures of population density tend to involve live trapping. The total number of animals trapped during a single trapping session can provide a proxy for population density in the form of the total number of individuals trapped, when divided by the 'effective trapping area'. Where it is possible to conduct multiple trapping sessions, 'capture-mark-recapture' models can be used to estimate density from the capture history of individuals within the trapped population. Rare or elusive species are, by definition, difficult to monitor. However, progress is being made using technological advances in camera-trapping methodologies, and by the application of molecular techniques that permit individual identification from non-invasive sources such as hair, faeces and feathers.

In summary, only a small proportion of mammal species in Wales have been monitored systematically. Most information is instead derived from *ad hoc* records and localised, short-term schemes. This absence of strategic co-ordinated surveillance constrains our ability to spot, and to manage, the expansion of non-native invasive species, or the decline of species we wish to conserve. Citizen science projects – if properly resourced, designed and managed – offer one mechanism for the large-scale monitoring of some species. The Mammal Society's new Mammal Mapper App provides a tool by which individual members of the public, or projects run by wildlife charities, can collect data in a standardised way, making it amenable to formal analysis. For the more elusive species however, there remains a need for specialist surveys, involving camera trapping, live-trapping, and potentially also genetic surveillance.

## Overall approach

The objective of the review was to produce the most accurate assessment possible of population size, geographical range, and conservation trends since 1995. The project therefore drew on both published and unpublished literature that has appeared since that date, and on expert opinion when insufficient information was available.

The general approach for estimating population size was to multiply habitat-specific density estimates by the extent of these habitats within the geographical range. Habitats were defined following the classifications in the Land Cover Map 2007 because this dataset provided the best estimates of habitat availability at a national scale. The Countryside Survey was used to derive information on hedgerows, and the lengths of riparian habitats were derived from the **1995 Review**. The general approach for estimating population size could not be applied to most bats because densities in one habitat depend on the extent and configuration of other habitats. Therefore, estimates were made of roost density at a landscape scale, and these were combined with estimates of roost size and geographical range. The estimation of geographical range for all species benefited from the use of biological records provided at finer resolution than those available on publicly-accessible databases.

For many species, the assessments presented in this review are based on very limited data. The mission of the Mammal Society is to support evidence-based decision making. This report is therefore transparent about potential sources of error, and the data – range maps, density estimates, etc. – on which the calculations are based are freely available. For example, for most species, it was not possible to distinguish records that represented established or breeding populations from occasional records, and therefore no attempt was made to make this distinction.

The population sizes for each species are provided with upper and lower limits, which encompass the range of values that the population size could reasonably take. A reliability score is also provided. Higher scores indicate increasing levels of confidence in the underlying data used to calculate the abundance of the species in different habitats. Where a species has a reliability score of  $\leq 1$ , or where the upper confidence limit is more than an order of magnitude greater than the central estimate, the population size is placed within square brackets to highlight the low level of confidence in the estimate.

A brief account of the methods is given in the Appendix of this document. Full details are provided in the Methods section of the **2018 Review**.



## Cynefinoedd

Ystyriwyd 20 o gynefinoedd yn yr adolygiad hwn. O'r rhain, roedd 17 yn cwmpasu blociau o'r dirwedd (coetir llydanddail, glaswelltir heb ei wella, ac ati) ac roedd tri yn llinol (gwrychoedd, afonydd a'r arfordir). Dominyddir tirwedd Cymru gan amaethyddiaeth: glaswelltir sydd wedi'i wella yw'r cynefin mwyaf toreithiog o bell ffordd, wedi'i ddilyn gan laswelltir niwtral, glaswelltir asidig, coetir llydanddail a choetir cymysg. Mae Cymru yn ffurfio oddeutu 10% o arwynebedd Prydain Fawr, ac mae ganddi fwy o laswelltir wedi'i wella ar gyfartaledd (34% o'i gymharu ag 20% ar gyfer Prydain Fawr), mwy o goetir llydanddail, cymysg ac yw (8% o'i gymharu â 6% ar gyfer Prydain Fawr), mwy o laswelltir asidig (10% o'i gymharu â 7% ar gyfer Prydain Fawr) ond llawer llai o dir âr a garddwriaethol (3% o'i gymharu ag 20% ar gyfer Prydain Fawr).<sup>5</sup> Mae hefyd gan Gymru lai o dir trefol na Lloegr ond fwy na'r Alban.


### Newid ers yr adolygiad diwethaf

Mae newidiadau mewn helaethrwydd mamaliaid yn debygol o fod yn ddibynnol iawn ar newidiadau yn y dirwedd. Er mwyn deall sut mae hyn wedi newid dros y cyfnod a gwmpesir gan *Adolygiad 2018*, gwnaethom felly gyfeirio at Arolwg Cefn Gwlad Prydain: yr unig set ddata sydd ar gael sydd wedi defnyddio methodolegau cyson ar hyd yr amser. Bydd newidiadau bach mewn cynefin toreithiog iawn (er enghraifft, glaswelltir wedi'i wella) yn cael effaith fawr ar yr arwynebedd cyfan sydd ar gael. Yn ogystal, mae rhai newidiadau, megis colli glaswelltir heb ei wella neu gynnydd mewn ardaloedd trefol, yn debygol o gynhyrchu newidiadau ecolegol mwy o faint nag eraill.

Gwnaeth arwynebedd y rhan fwyaf o gynefinoedd yng Nghymru, yn ôl asesiad yr Arolwg Cefn Gwlad,<sup>6</sup> barhau'n sefydlog rhwng 1998 a 2007, ond gwnaeth tir adeiledig, tir âr a choetir llydanddail i gyd gynyddu mewn rhannau gwahanol, gan adlewyrchu newidiadau yn y defnydd o'r tir. Cynyddodd arwynebedd cynefin bras ardaloedd adeiledig a gerddi 13% rhwng 1998 a 2007, gyda'r newid hwn yn cael ei gynhyrchu gan gynydd bach ar draws nifer o'r ardaloedd a arolygyd, yn hytrach na thrwy newidiadau mawr o fewn nifer fach o safleoedd. Gostyngodd yr arwynebedd tir a ddominyddir gan redyn (gorchudd >95%) 55% rhwng 1998 a 2007 ac roedd hyn fwy na thebyg yn gysylltiedig â chynnydd mewn glaswelltir asidig. Yn debyg i rannau eraill o Brydain, cafwyd gostyngiad yn hyd gwrychoedd a reolir yng Nghymru rhwng 1998 a 2007, sydd yn barhad o batrymau gostwng blaenorol. Roedd y rhan fwyaf o'r newid hwn o ganlyniad i ddifffyg rheolaeth, gan arwain at gynydd ym nifer y gwrychoedd a choedlinau diffaith, a gostyngiad cyfatebol mewn gwrychoedd gweithredol.

Gostyngodd amrywiaeth fotanegol rhwng 1990 a 2007, ac roedd y rhywogaethau hynny wnaeth gynyddu yn dueddol o fod yn dalach, yn oddefgar i nitrogen a/neu'n ffafrio amodau mwy gwlyb. I'r gwrthwyneb i'r rhan fwyaf o weddill Prydain, cynyddodd nifer y pyllau (o 17%) rhwng 1998 a 2007.

Ffigur 1. Safle sgwariau samplu (smotiau du) ar gyfer Arolwg Cefn Gwlad 2007 yng Nghymru



- Lleoliad sgwâr samplu
- Mae gwyrdd yn dynodi rhanbarthau iseldir
- Mae brown yn dynodi rhanbarthau ucheldir (fel y'u diffinnir yn yr Arolwg Cefn Gwlad yn seiliedig ar agregu Dosbarthiadau Tir).<sup>6</sup>



.....

5 Carey PD ac eraill (2008). *Countryside Survey: UK Results from 2007*. NERC/Centre for Ecology & Hydrology. (Rhif Prosiect CEH: C03259).

6 Smart SM ac eraill (2009). *Countryside Survey: Wales Results from 2007*. NERC/Centre for Ecology & Hydrology, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru. (Rhif Prosiect CEH: C03259).

## Habitats


There were 20 habitats considered in this review. Of these, 17 covered blocks of the landscape (broadleaved woodland, unimproved grassland, etc.) and three were linear (hedgerows, rivers and coastline). The landscape of Wales is dominated by agriculture: by far the most abundant habitat is improved grassland, followed by neutral grassland, acid grassland, broadleaved woodland and mixed woodland. Wales makes up about 10% of the area of Great Britain, and it has proportionally more improved grassland (34% compared to GB's 20%), more broadleaved, mixed and yew woodland (8% compared to 6%), more acid grassland (10% compared to 7%) but much less arable and horticultural land (3% compared to 20%).<sup>5</sup> It also has less urban land than England, but more than Scotland.

### Change since last review

Changes in mammal abundance are likely to be strongly reliant on changes in the landscape. To understand how this has altered over the period covered by the *2018 Review*, we therefore referred to the Countryside Survey for Britain: the only available dataset that has used consistent methodologies across time. Small changes in a very abundant habitat (for example, improved grassland) will have a large impact on the absolute area available. Also, some changes, such as the loss of unimproved grassland or the increase in urban areas, are likely to generate ecological changes of greater magnitude than are others.

The area of most habitats in Wales, as assessed by the Countryside Survey,<sup>6</sup> remained stable between 1998 and 2007, but built land, arable, and broadleaved woodland all increased in different regions, reflecting changes in land-use. The area of the Built-up Areas & Gardens Broad habitat increased by 13% between 1998 and 2007, a change generated by small increases across most of the surveyed areas, rather than by large changes concentrated within a small number of sites. The area of Bracken-dominated land (>95% cover) decreased by 55% between 1998 and 2007, probably linked to an increase in Acid Grassland. As elsewhere in Britain, there has been a reduction in the length of managed hedgerow in Wales between 1998 and 2007, continuing previous patterns of decline. Most of this change was owing to a lack of management, resulting in an increase in the amount of derelict hedgerow and treelines, and a corresponding decrease in functional hedgerows. Botanical diversity declined between 1990 and 2007, and those species that did increase tended to be taller, nitrogen tolerant, and/or preferred wetter conditions. In contrast to much of the rest of Britain, the number of ponds increased (by 17%) between 1998 and 2007.

**Figure 1. Position of sampling squares (shown as black dots) for Countryside Survey 2007 in Wales**



.....

5 Carey PD et al. (2008). *Countryside Survey: UK Results from 2007*. NERC/Centre for Ecology & Hydrology. (CEH Project Number: C03259).

6 Smart SM et al. (2009). *Countryside Survey: Wales Results from 2007*. NERC/Centre for Ecology & Hydrology, Welsh Assembly Government, Countryside Council for Wales. (CEH Project Number: C03259).



Tabl 1. Mathau o gynefinoedd, a newid dros gyfnod yr adolygiad, fel yr aseswyd gan yr Arolwg Cefn Gwlad<sup>7</sup>

Cynefinoedd bras	1998		2007		1998–2007		Cyfeiriad newidiadau sylweddol
	Arwynebedd km <sup>2</sup>	%	Arwynebedd km <sup>2</sup>	%	Newid mewn arwynebedd km <sup>2</sup>	%	
Coetir llydanddail a chymysg	172	8.1	174	8.2	1.8	1.1	
Coetir coniferaidd	96	4.5	106	5	10	10.4	
Tir âr a garddwriaeth	61	2.9	73	3.4	12	19.8	
Glaswelltir heb ei wella	706	33.3	730	34.4	24.2	3.4	=
Glaswelltir niwtral*	287	13.5	263	12.4	-24.2	8.4	
Glaswelltir calchaidd*	1.2	0.1	1.2	0.1	-0.07	-6	
Glaswelltir asidig*	191	9	211	9.9	19.3	10.1	
Rhedyn	84	4	37	1.8	-46.7	-55.4	↓
Rhostir corlwyni	99	4.7	117	5.5	17.9	18	
Ffen, cors, gwern	40	1.9	36	1.7	-4.3	-10.8	
Cors	45	2.1	48	2.3	3.1	7	=
Merddyfroedd agored	6	0.3	5	0.3	-0.6	-10.2	
Afonydd a nentydd	5	0.3	6	0.3	0.3	5.9	
Ardaloedd adeiledig a gerddi	117	5.5	132	6.2	14.7	12.5	↑

↑ Cynnydd

= Ddim yn sylweddol

↓ Gostyngiad

\* Nid oedd samplu digonol o fewn plotiau'r Arolwg Cefn Gwlad i allu asesu newidiadau mewn glaswelltiroedd heb eu gwella a glaswelltiroedd o werth cadwraeth uchel sy'n ffurio rhan o'r categoriâu hyn.

.....

7 Smart SM ac eraill (2009). Countryside Survey: Wales Results from 2007. NERC/Centre for Ecology & Hydrology, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru. (Rhif Prosiect CEH: CO3259).

Table 1. Habitat types, and change over the review period, as assessed by the Wales Countryside Survey<sup>7</sup>

Broad habitats	1998		2007		1998–2007		Direction of significant changes
	Area km <sup>2</sup>	%	Area km <sup>2</sup>	%	Change in area km <sup>2</sup>	%	
Broadleaved and mixed woodland	172	8.1	174	8.2	1.8	1.1	
Coniferous woodland	96	4.5	106	5	10	10.4	
Arable and horticulture	61	2.9	73	3.4	12	19.8	
Improved grassland	706	33.3	730	34.4	24.2	3.4	=
Neutral grassland*	287	13.5	263	12.4	-24.2	8.4	
Calcareous grassland*	1.2	0.1	1.2	0.1	-0.07	-6	
Acid grassland*	191	9	211	9.9	19.3	10.1	
Bracken	84	4	37	1.8	-46.7	-55.4	↓
Dwarf shrub heath	99	4.7	117	5.5	17.9	18	
Fen, marsh, swamp	40	1.9	36	1.7	-4.3	-10.8	
Bog	45	2.1	48	2.3	3.1	7	=
Standing open waters	6	0.3	5	0.3	-0.6	-10.2	
Rivers and streams	5	0.3	6	0.3	0.3	5.9	
Built-up areas and gardens	117	5.5	132	6.2	14.7	12.5	↑

↑ Increase    = Not significant    ↓ Decrease

\* There was insufficient sampling within the Countryside Survey plots in Wales to permit assessment of changes in unimproved and high conservation-value grasslands that form part of these categories.



.....

7 Smart SM et al. (2009). Countryside Survey: Wales Results from 2007. NERC/Centre for Ecology & Hydrology, Welsh Assembly Government, Countryside Council for Wales. (CEH Project Number: C03259).



## Canfyddiadau allweddol


Mae 49 rhywogaeth o famaliaid yn bresennol yng Nghymru. O'r rhain, mae 37 yn gynhenid a chyflwynwyd pump ohonynt gan bobl ond maent wedi bod yn bresennol ym Mhrydain ers o leiaf cyfnod y Rhufeiniaid. Mae pump arall yn ailgyflwyniadau diweddar. Mae'r afanc Ewropeaidd a'r baedd gwylt yn rhywogaethau a oedd yn ddiflanedig yng Nghymru, ac mae statws anifeiliaid sydd wedi'u cyflwyno'n ddiweddar yn aneglur. Mae'n bosibl bod y llygoden ddu, sef rhywogaeth sydd wedi cynefino, yn ddiflanedig erbyn hyn, a diflannodd y gath goed frodorol yn gynnar yn yr 20fed ganrif.

### Dosbarthiadau

**Crëwyd mapiau dosbarthiad wedi'i lyfnhau sy'n dangos lledaeniad presenoldeb pob rhywogaeth, drwy dynnu ffin o amgylch y cofnodion biolegol unigol ar gyfer y rhywogaeth honno.** Cafodd yr holl gofnodion eu sgrinio gan arbenigwyr (gweler tudalen 126). Nid oedd y broses sgrinio yn cynnwys cofnodion oedd yn ynysig, a llanwyd bylchau bach, fel y dangosir yn Ffigur 2. Darperir manylion llawn y fethodoleg yn *Adolygiad 2018*.

Cyfrifwyd gwasgariad daearyddol 47 o rywogaethau. Nid oedd yn bosibl creu map dosbarthiad wedi'i lyfnhau ar gyfer y llyoden ddu oherwydd prinder cofnodion. Yn yr un modd, ni ellid cyfrifo map dosbarthiad wedi'i lyfnhau ar gyfer yr afanc Ewropeaidd, nad oes ganddo boblogaeth sy'n bridio yng Nghymru, oherwydd mae'n aneglur a yw'r cofnodion yn cynrychioli unigolion crwydrol.

Ffigur 2. **Perthynas rhwng mapiau presenoldeb a mapiau dosbarthiad wedi'i lyfnhau, a ddangosir gan y carw coch**



Tabl 2. Gwasgariad rhywogaethau

Rhywogaeth	Arwynebedd km <sup>2</sup>	%
Draenog	20,643	100
Gwahadden	20,643	100
Llyg cyffredin	19,424	94
Llyg lleiaf	18,708	90
Llyg y dŵr	17,530	85
Cwningen	20,643	100
Ysgyfarnog	20,633	100
Gwiwer goch	3,192	15
Gwiwer lwyd	19,658	95
Afanc Ewropeaidd	Ddim yn berthnasol	
Pathew	14,677	71
Llyoden bengron goch	20,037	97
Llyoden bengron y gwair	18,996	92
Llyoden bengron y dŵr	14,512	70
Llyoden yr ŷd	5,042	24
Llyoden y coed	20,051	97
Llyoden fronfelen	6,795	33
Llyoden fach	9,146	44
Llyoden ffyrnig	18,653	90
Llyoden ddu	Data yn ddiffygol	
Llwynog coch	20,643	100
Mochyn daear	20,643	100
Dyfrgi	20,643	100
Bele	9,544	46
Carlwm	16,416	79
Gwenci	19,563	94
Ffwlbart	20,552	99
Minc Americanaidd	20,411	98
Baedd gwylt	309	1
Carw coch	8,956	43
Carw sica	1,398	7
Danas	18,479	89
Iwrch	16,804	81
Carw mwntjac	11,382	55
Ystlum pedol mwyaf	13,230	64
Ystlum pedol lleiaf	19,549	94
Ystlumod barfog / Brandt / Alcathoe*	20,488	99
Ystlum Bechstein	155	1
Ystlum y dŵr	20,377	98
Ystlum Natterer	20,611	99
Ystlum adain-lydan	12,499	60
Ystlum Leisler	6,739	33
Ystlum mawr	20,627	100
Ystlum lleiaf cyffredin	20,601	99
Ystlum lleiaf soprano	20,643	100
Ystlum lleiaf Nathusius	6,921	33
Ystlum du	6,386	31
Ystlum hirglust	20,643	100

\* O ganlyniad i ddata diffygol, nid oed yn bosibl cyfrifo gwasgariad daearyddol ar wahân i ystlumod barfog, Brandt ac Alcathoe, sydd yn rhywogaethau cryptig.

## Cnofilod

The 2018 Review population estimate is 54% smaller than in the 1995 Review. However, both estimates are very uncertain, so no firm conclusions can be made about population change and the species is classed as data deficient. Gaps in the distribution map for Wales are likely to result from a lack of survey effort, rather than true absences.

#### Threats

Reduction of available habitat, caused by bank clearance and modification of waterways, has led to the destruction of burrows and alterations of water courses. The species is likely to be at risk from poor water quality and a decline in the habitat quality of ditches.





## Cwningen

### European rabbit

Oryctolagus cuniculus

#### Wedi cynefino Naturalised

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Gwael  
Poor

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

[2,910,000]\*



Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

20,643 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend

\* Ceir anisicrwydd sylwedol yn yr amcangyfrif / Considerable uncertainty in the estimate

Cyflwynwyd cwningod i Brydain gan y Rhufeiniaid. Maent yn ysglyfaeth bwysig ar gyfer ysglyfaethwyr adarol a daearol, a deur o hyd iddynt mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd, yn arbennig glaswelltir byr. Ceir y dwyseddau uchaf mewn ardaloedd sy'n gyfoethog mewn nitrogen. Mae'n well ganddynt hefyd gynefinoedd sydd â gorchudd cyfagos gan wrychoedd neu brysgwydd.

**Mae meintiau poblogaethau cwningod 17% yn llai yn Adolygiad 2018 o'u cymharu ag Adolygiad 1995.** Fodd bynnag, mae'r diffyg mewn terfynau poblogaeth tebygol yn golygu nad yw arwyddocâd y lleihad hwn yn glir, a dosberthir y rhywogaeth yn ddiffygol o ran data. Er bod yr Arolwg Adar sy'n Bridio gan Ymddiriedolaeth Adareg Prydain a'r Cyfrifiad Bag Helwriaeth Cenedlaethol hefyd yn dangos bod dirywiad mewn poblogaethau ym Mhrydain, mae'r amrywiad eang naturiol a geir yn niferoedd cwningod yn ei gwneud hi'n anodd asesu pwysigrwydd y newidiadau hyn.

#### Bygythiadau

Mae poblogaethau wedi adfer ers y chwalfa a achoswyd o ganlyniad i gyflwyno mycosomatosis yn fwriadol yn y 1950au. Fodd bynnag, mae epidemigau o glefydau, gan gynnwys clefyd gwaedlifol firaol cwningod a mycosomatosis, yn parhau i ddigwydd. Caiff cwningod eu difa yn aml lle maent yn difrodi amaethyddiaeth, er bod y fasnach mewn cig a ffwr wedi dirywio.



Rabbits were introduced to Britain by the Romans. An important prey item for avian and terrestrial predators, they are found in a wide variety of habitats, particularly short grassland. Densities are highest in nitrogen-rich areas. They also prefer habitats with nearby cover from hedgerows or scrub.

**Rabbit population sizes are 17% lower in the 2018 Review compared with the 1995 Review. However, the lack of plausible population limits means that the significance of this reduction is unclear and the species is classed as data deficient.** Although the BTO Breeding Bird Survey and the National Gamebag Census also indicate declining British populations, the naturally wide fluctuations in rabbit numbers make it difficult to assess the importance of these changes.

#### Threats

Populations have recovered from the crash caused by the deliberate introduction of myxomatosis in the 1950s. However, disease epidemics, including rabbit viral haemorrhagic disease and myxomatosis, still occur. Rabbits are often culled where they damage agriculture, though trade in meat and fur has declined.





## Ysgyfarnog Brown hare

Lepus europaeus

### Wedi cynefino Naturalised

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Sefydlog  
Stable

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

37,300

Data yn  
ddiffygol  
Data deficient

Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

20,633 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend



Cyflwynwyd ysgyfarnogod i Brydain gan y Rhufeiniaid. Maent fwyaf toreithio mewn ardaloedd o dir âr iseldirol, ond deuir o hyd iddynt hefyd mewn cynefinoedd glaswelltiol. Defnyddir eu cyflymder uchel wrth redeg fel eu prif amddiffyniad rhag ysglyfaethwyr. Deuir o hyd iddynt yn aml mewn ardaloedd agored, ond mae angen llochesau arnynt hefyd ar gyfer gorffwys a safleoedd bridiol.

**Mae maint y boblogaeth 36% yn llai na'r hyn a adroddwyd yn Adolygiad 1995. Fodd bynnag, ceir terfynau hyder eang iawn oherwydd prinder mewn data, a gwahaniaethau methodolegol rhwng y ddua adroddiadaid. Felly nid yw'n bosibl dod i gasgliadau cadarn yngylch newidiadau yn y boblogaeth a dosberthir y rhywogaeth yn ddiffygol o ran data.**

#### Bygythiadau

Mae newidiadau mewn arferion amaethyddol wedi lleihau cyfleoedd ar gyfer bwyd a lloches. Caiff nifer ohonynt eu difa ar adegau penodol o'r flwyddyn er mwyn cyfyngu ar niferoedd poblogaethau lleol. Efallai fod bygythiadau sy'n dod i'r amlwg o glefydau, er bod yr effaith ar lefel y boblogaeth yn aneglur ar hyn o bryd.



Brown hares were introduced to Britain by the Romans. They are most abundant in lowland arable areas, but they are also found in grassland habitats. Their fast running speed is used as a primary defence against predators. They often occur in open areas, but they also need shelter for resting and breeding sites.

**The population size is 36% lower than that reported in the 1995 Review. However, there are very wide confidence limits owing to a lack of data, and methodological differences between the two reports. Therefore, no firm conclusions can be made about population change and the species is classed as data deficient.**

#### Threats

Changes to agricultural practices have reduced food and shelter opportunities. Culls at specific times of the year are conducted to suppress local populations. There may be emerging threats from disease, though the population-level impacts are currently unclear.



## Gwiwer goch

### Red squirrel

*Sciurus vulgaris*

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status

Map dosbarthiad  
yn seiliedig ar  
gofnodian o gyfnod  
cyfan 2010–2016.  
*Distribution map  
based on records from  
2010–2016 inclusive.*



#### Rhagolygon Prospects

Gwael  
Poor

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

9,200



Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

3,192 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend

Ceir gwiwerod coch mewn coetiroedd conifferaidd a llydanddail, yn ogystal â choedwigioedd cymysg, parciau a gerddi. Maent yn bwyta amrediad eang o fwyd, ond mae hadau coed a ffrwythau yn arbennig o bwysig, wedyn egin coed, blagur, blodau, aeron a chennau, ac mae'r menywod yn bwyta lindys yn y cyfnod cyn i fridio ddigwydd. Mae coetiroedd sydd â chymysgedd o goed yn darparu cyflenwad mwy dibynadwy o fwyd o un flwyddyn i'r nesaf. Mewn coedwigioedd conifferaidd cymysg, mae gwasgariad cartref gwiwerod coch yn seiliedig ar yr hadau coed sydd ar gael trwy gydol y flwyddyn.

**Er y bu dirywiad amlwg yn nosbarthiad gwiwerod coch ers Adolygiad 1995, mae'n ymddangos bod y boblogaeth yng Nghymru'n sefydlog ar hyn o bryd a gallai hyd yn oed fod yn ehangu yn lleol. Mae hyn oherwydd mesurau i reoli gwiwerod llwyd mewn manau blaenoriaeth, a rhagleni atgyfnerthu ar Ynys Môn ac yng Nghoedwig Clocaenog.**

#### Bygythiadau

Y prif fygythiadau i wiwerod coch yw cystadleuaeth â gwiwerod llwyd, ac achosion o glefydau, yn arbennig feirws brech y gwiwerod, y mae gwiwerod llwyd yn ei gario. Mae'r canlyniadau diweddaraf o astudiaethau ar yr adenofeirws yn dangos y gallai'r feirws hwn hefyd fod yn fygythiad sylweddol i wiwerod coch. Mae clefydau coed a phlannu sbriws Sitca mewn coetiroedd masnachol dros ardal eang – sy'n anffafriol ar gyfer gwiwerod coch oherwydd cylchoedd dwyn ffrwythau annibynadwy'r goeden – hefyd wedi arwain at ddirywiad yn ansawdd eu cynefin.



Red squirrels occur in both coniferous and broadleaved woodland, as well as in mixed forests, parks and gardens. They eat a wide range of foods, but tree seeds and fruits are particularly important, followed by tree shoots, buds, flowers, berries and lichens with caterpillars taken by females in the lead-up to breeding. Woodlands with a mixture of trees provide a more reliable year-to-year food supply. In mixed coniferous forests, red squirrel home ranges are based on tree seed availability throughout the year.

**Although there has been a marked decline in the distribution of red squirrels since the 1995 Review, the population in Wales currently appears to be stable, and may even be locally expanding. This is owing to management measures to control grey squirrels at priority sites, and reinforcement programmes on Anglesey and in Clocaenog Forest.**

#### Threats

The primary threats to red squirrels are competition with grey squirrels, and disease outbreaks, particularly of squirrel pox virus, which is harboured by grey squirrels. Latest results from studies into adenovirus indicate that this virus could also be a significant threat to red squirrels. Tree diseases, and the widespread planting in commercial woodland of Sitka spruce, which is unfavourable for red squirrels because of its unreliable fruiting cycles, have also reduced habitat quality.





## Gwiwer llwyd

### Grey squirrel

*Sciurus carolinensis*

#### Estron Non-native

Statws cadwraeth  
Conservation status

Map dosbarthiad  
yn seiliedig ar  
gofnodi o gyfnod  
cyfan 2010–2016.  
*Distribution map  
based on records from  
2010–2016 inclusive.*



#### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

283,000



Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

19,658 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend



Cyflwynwyd gwiwerod llwyd yn fwriadol i nifer o leoliadau ym Mhrydain Fawr yn ystod y 1870au a bu iddynt ledaenu'n gyflym. Maent lawer mwy cyffredinol eu natur na gwiwerod coch, ac maent yn defnyddio amrywiaeth eang o gynefinoedd, gan gynnwys coetiroedd llydanddail, conifferaidd a chymysg, yn ogystal â pharciau a gerddi. Cnau a hadau coed a llwyni yw eu prif fwydydd, ond mae ganddynt ddeuet amrywiol ac yn aml yn newid i fwydydd gwahanol gan ddibynnu ar yr hyn sydd ar gael.

**Mae'r amcangyfrif canolog o faint y boblogaeth yn Adolygiad 2018 12% yn llai na'r hyn a adroddwyd yn Adolygiad 1995, ac mae'r gwaith o'u gwaredu ar Ynys Môn wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r sgorau dibynadwyedd yn wael ar gyfer y rhywogaeth hon oherwydd bod prinder gwybodaeth, ac mae arbenigwyr o'r farn fod maint y boblogaeth wedi cynyddu.**

#### Rheoli

Mae gwiwerod llwyd wedi ehangu eu gwasgariad yn gyflym, ar ôl iddynt gael eu rhyddhau'n fwriadol ar ystadau preifat. Mae mesurau rheoli ar waith mewn rhai ardaloedd, gyda'r nod o gynorthwyo cadwraeth y wiwer goch frodorol ac atal difrod i goetiroedd cynhenid.



Llun • Photo: Chris Chalk

Grey squirrels were deliberately introduced at several locations in Great Britain during the 1870s and spread rapidly. They are much more generalist than red squirrels, and use a wide variety of habitats, including broadleaved, coniferous, and mixed woodland, as well as parks and gardens. Their main foods are the nuts and seeds of trees and shrubs, but they have a varied diet and often switch to different foods depending on availability.

**The 2018 Review population size central estimate is 12% lower than that reported in the 1995 Review, and there has been successful eradication from Anglesey. However, the reliability scores are poor for this species because of a lack of information, and expert opinion suggests an increased population size.**

#### Management

Grey squirrels have rapidly expanded their range, following their deliberate release into private estates. In some regions, management measures are in place, with the aim of aiding the conservation of the native red squirrel and to prevent damage to native woodlands.



## Afanc Ewropeaidd

### Eurasian beaver

*Castor fiber*

#### Cynhenid – wedi'i ailgyflwyno heb awdurdod


#### Native – unauthorised reintroduction

##### Statws cadwraeth

Conservation status

Map o Gymru'n dangos celloedd grid 10 km x 10 km (hectadau) gyda chofnodion o afancod. Nid oes poblogaethau bridio hysbys, ac effalai mai cofnodion o unigolion crwydrol yw'r rhain.

Map of Wales shows 10 km x 10 km grid cells (hectads) with beaver records. There are no known breeding populations, and these records may be of transient individuals.



##### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

##### Sgôr dibynadwyedd

Reliability score

**Amherthnasol**  
**Not applicable**

##### Poblogaeth Population

**Amherthnasol**  
**Not applicable**

##### Gwasgariad Range

**Amherthnasol**  
**Not applicable**


Mae afancod yn byw mewn cynefinoedd afonol a gwlyptirol yn bennaf. Mae angen mynediad at ddŵr croyw arnynt trwy gydol y flwyddyn, a llstyfiant prennaidd cyfagos. **Mae afancod yn rhywogaeth allweddol ac yn aml yn addasu cynefinoedd yn helaeth trwy adeiladu argaeau, tyllau a deyerydd.** Maent fel arfer yn fforio o fewn 20 metr o ymyl y dŵr, gan fwyta amrywiaeth eang o llystyfiant dyfrol a daearol.

Bu bron i'r rhywogaeth ddiflannu yn Ewrop ar ddechrau'r 20fed ganrif. Yn dilyn ymdrechion cadwraeth diweddar, gan gynnwys ailgyflwyno, mae poblogaethau wedi ailsefydlu yn yr Alban erbyn hyn.

Mae grwpiau cadwraeth bellach yn gweithio'n ymarferol ar brosiectau sydd â'r nod o ailgyflwyno'r rhywogaeth i ddalgylchoedd afon addas yng Nghymru. Ceir dystiolaeth o afancod sydd wedi dianc yn byw'n wylt mewn sawl lleoliad yng Nghymru.

#### Bygythiadau

Mae rhyddhau heb drwydded wedi cynyddu poblogaeth y rhywogaeth hon mewn mannau eraill yn y DU. Fodd bynnag, ceir erledigaeth mewn rhai ardaloedd o Brydain Fawr oherwydd gwrthdaro â buddiannau economaidd-gymdeithasol.



Beavers primarily occupy riverine and wetland habitats. They require year-round access to fresh water, with nearby woody vegetation.

#### Beavers are a keystone species and often extensively modify habitats through the construction of dams, burrows and lodges.

They usually forage within 20m of the water's edge, eating a wide variety of aquatic and terrestrial vegetation.

The species was nearly extinct in Europe at the start of the 20th century. After recent conservation efforts, including reintroductions, populations have now re-established in Scotland.

Conservation groups are now actively working on projects that aim to reintroduce the species into suitable river catchments in Wales. There is evidence of escaped beavers living wild in several locations within Wales.

#### Threats

Unlicensed releases have increased the population of this species elsewhere in the UK. However, there is persecution in some areas of Great Britain because of conflict with socio-economic interests.





## Pathew

### Hazel dormouse

*Muscardinus avellanarius*

Cynhenid  
Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



Rhagolygon  
Prospects

Gwael  
Poor

Sgôr dibynadwyedd  
Reliability score



Poblogaeth  
Population

**172,000**



Tuedd  
Trend

Gwasgariad  
Range

**14,677 km<sup>2</sup>**



Tuedd  
Trend

Mae pathewod yn anifeiliaid nosol y deur o hyd iddynt yn bennaf mewn coetiroedd llydanddail. Wedi'u cysylltu'n draddodiadol â choetiroedd ifanc neu goetiroedd â choedlannau, deur o hyd iddynt hefyd mewn amrediad o gynefinoedd coediog, gan gynnwys prysgwyrdd, mieri, planhigfeydd conifferaidd, gwrychoedd, a gerddi hyd yn oed.

Mae'r pathew yn manteisio ar amrediad eang o fwyddydd planhigion o ansawdd uchel, sy'n cynnwys blodau, blagur, hadau, paill ac aeron. Ceir cydnabyddiaeth erbyn hyn y gallai ei ddeiet gynnwys meintiau sylweddol o bryfed ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill hefyd. **Nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth uniongyrchol ym maint y boblogaeth rhwng Adolygiadau 1995 a 2018 oherwydd gwahaniaethau mewn dulliau.** Fodd bynnag, mae'r Rhaglen Monitro Pathewod Genedlaethol wedi dangos dirywiad o 48% ym Mhrydain Fawr rhwng 1995 a 2015.

#### Bygythiadau

Mae'r newid yn yr hinsawdd, colli cynefin, darnio a lleihad mewn rheoli coetiroedd yn fygythiadau i'r gwaith o warchod pathewod. Mae adfer prysgoedio traddodiadol yn debygol o fod er budd i'r rhywogaeth.





## Llygoden bengron goch

### Bank vole

*Myodes glareolus*

Cynhenid  
Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



Rhagolygon  
Prospects

Sefydog  
Stable

Sgôr dibynadwyedd  
Reliability score



Poblogaeth  
Population

**2,930,000**

Data yn  
ddifygiol  
*Data deficient*

Tuedd  
Trend

Gwasgariad  
Range

**20,037 km<sup>2</sup>**



Tuedd  
Trend

Deur o hyd i lygod pengrwn coch mewn amrywiaeth o gynefinoedd, gan gynnwys gwrychoedd, prysgydd, planhigfeydd conifferaidd, gerddi ac ymylon ffyrdd, ond mae llawer gwell ganddynt goetiroedd llydanddail a chymysg aeddfed. Mae angen llystyfiant daear dwys arnynt a deur o hyd iddynt yn aml ar ymylon caeau ond yn anaml ar gaeau o dir âr. Mae eu deiet yn cynnwys ffrwythau, hadau a dail o goed llydanddail, er y caiff blodau, ffyngau, glaswellt a mwsoglau eu bwyt a hefyd. Dail meirw sy'n ffurio cyfran uchel o'u deiet gaeafol ym Mhrydain.

**Nid yw'n bosibl dod i gasgliadau cadarn yngylch newidiadau yn y boblogaeth oherwydd prinder yn y wybodaeth, a dosberthir y rhywogaeth yn ddifygiol o ran data.**

### Bygythiadau

Bu dirywiad hirdymor yn ansawdd gwrychoedd a llystyfiant cysylltiedig, a gallai hyn beri bygythiad i'r rhywogaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oes dystiolaeth ar hyn o bryd fod y boblogaeth yn dirywio.



Bank voles are found in a variety of habitats, including hedgerows, scrub, conifer plantations, gardens and road verges, but they show a strong preference for mature broadleaved and mixed woodland. They require dense ground vegetation and are found frequently in field margins but rarely in arable fields. Their diet consists of fruits, seeds and leaves from broadleaved trees, although flowers, fungi, grasses and mosses are also eaten. A high proportion of the British winter diet is formed of dead leaves.

**No firm conclusions can be made about population change owing to a lack of information, and the species is classed as data deficient.**

### Threats

There has been a long-term decline in the quality of hedgerows and associated vegetation, and this may pose a threat to the species in the future. However, there is currently no evidence that the population is declining.





## Llygoden bengron y gwair

### Field vole

*Microtus agrestis*

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Sefydlog  
Stable

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

**9,760,000**

Data yn  
ddiffygol  
**Data deficient**

Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

**18,996 km<sup>2</sup>**



Tuedd  
Trend



Mae llygod pengrwn y gwair ar eu mwyaf toreithiog mewn glaswelltir garw lle ceir ychydig o reolaeth neu wrteithio, neu ddim o gwbl. Gall gwrychoedd fod yn gynefinoedd pwysig, gan ddarparu corridorau defnyddiol, yn benodol mewn caeau a borir lle nad oes glaswelltir twmpathog. Deuir o hyd iddynt hefyd mewn rhostir a phrysgwydd, coetiroedd a phlanhigfeydd agored, ac ymylon ffyrdd. Mae llygod pengrwn y gwair yn llysysol, ac maent yn bwydo ar laswellt yn bennaf.

**Mae amcangyfrif canolog Adolygiad 2018 yn awgrymu maint poblogaeth sydd 41% yn llai nag ydoedd yn Adolygiad 1995.** Fodd bynnag, mae gwneud cymhariaeth uniongyrchol yn anodd oherwydd bod *Adolygiad 1995* wedi amcangyfrif maint poblogaeth llygod pengrwn y gwair ar sail eu cymhareb â llygod y coed a llygon cyffredin, ond mae *Adolygiad 2018* yn seiliedig ar y cynefin addas sydd ar gael o fewn eu gwasgariad.

Yn ogystal, mae amcangyfrif 1995 o fewn y cyfngau hyder a roddwyd gan *Adolygiad 2018*.

**Nid yw'n bosib dod i gasgliadau cadarn felly, a dosberthir y rhywogaeth yn ddiffygol o ran data.**

#### Bygythiadau

Gallai colli glaswelltir garw o werth cynhyrchiol isel yn nhirwedd Prydain beri bygythiad i'r rhywogaeth hon. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth gadarn ar hyn o bryd fod dirywiad yn y boblogaeth.



Field voles are most abundant in rough grassland with little or no management or fertilisation. Hedgerows can be important habitats, providing useful corridors, especially in grazed fields with no tussocky grassland. They can also be found in heathland and scrub, open woodland and plantation, and road verges. Field voles are herbivorous, feeding primarily on grasses.

**The 2018 Review central estimate suggests a population size 41% lower than that in the 1995 Review.** However, direct comparison is difficult because the *1995 Review* estimated field vole population size on the basis of their ratio to wood mice and common shrews, whereas the *2018 Review* is based on the availability of suitable habitat within the range. In addition, the 1995 estimate falls within the confidence intervals provided by the *2018 Review*. **No firm conclusions can therefore be drawn and the species is classed as data deficient.**

#### Threats

The loss of rough, low-productivity grassland in the British landscape may pose a threat to this species. However, there is currently no firm evidence of a population decline.



## Llygoden bengron y dŵr

### Water vole

*Arvicola amphibius*

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Gwael  
Poor

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

4,500



Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

14,512 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend

Er bod y dosbarthiad yn cwmpasu mwyafrif yr hectadau yng Nghymru, dylid nodi y bu dirywiad sylwedol yn y cyfnod hwn: erbyn hyn mae'r poblogaethau wedi'u dosbarthu'n dameidiog ac wedi'u darnio'n aml gan gynefin anaddas.

*Although the distribution covers most hectads in Wales, it should be noted that there has been a significant decline during this period: populations are now patchily distributed and are often fragmented by unsuitable habitat.*

Mae llygod pengrwn y dŵr yn byw yn afonydd a nentydd sy'n llifo'n araf, camlesi, gwelyau cyrs a chorsydd. Mae'n well ganddynt ardaloedd sydd â llystyfiant tal a dwys, sy'n helpu i'w gorchuddio rhag ysglyfaethwyr. Mae cyrs a glaswellt yn darparu bwyd, gorchudd a deunydd nythu, ac mae glannau serth yn caniatáu adeiladu tyllau estynedig uwchlaw ac islaw lefel y dŵr.

**Mae'r amcangyfrif canolog o faint y boblogaeth 89% yn is na'r amcangyfrif yn Adolygiad 1995, er y gallai fod rhywfaint o sefydlogrwydd lleol.**

#### Bygythiadau

Y prif fygythiadau yw colli cynefin addas o ganlyniad i arferion amaethyddol, rhaglenni atgyfnerthu glannau afonydd a chamlesi, datblygiadau tai a seilwaith, **ac ysglyfaethu gan fincod Americanaidd.**



Llun • Photo: Ben Andrew

Water voles inhabit slow-flowing rivers and streams, canals, reed beds and marshes. They prefer areas with tall dense vegetation, which aids in concealment from predators. Reeds and grasses provide food, cover, and nesting material, while steep banks allow the construction of extensive burrows above and below the waterline.

**The central estimate of population size is 89% smaller than the estimate in the 1995 Review, though there may be some local stabilisation.**

#### Threats

The main threats are the loss of suitable habitat owing to agricultural practices; river and canal-bank reinforcement programmes; housing and infrastructure developments; **and predation by American mink.**





## Llygoden yr ŷd

### Harvest mouse

*Micromys minutus*

Cynhenid  
Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



Rhagolygon  
Prospects

Gwael  
Poor

Sgôr dibynadwyedd  
Reliability score



Poblogaeth  
Population

[34,000]\*

Data yn  
ddiffygol  
Data deficient

Tuedd  
Trend

Gwasgariad  
Range

5,042 km<sup>2</sup>

Data yn  
ddiffygol  
Data deficient

Tuedd  
Trend

\* Ceir anserwydd sylwedol yn yr amcangyfrif / Considerable uncertainty in the estimate

Cysylltwyd llygod yr ŷd yn draddodiadol â chnydau ŷd â choesynnau tal, lle maent yn fforio ac yn bridio yn y coesynnau yn ystod yr haf. Yn y gaeaf, maent yn symud i wrychoedd, ymylon caeau a ffosydd. Deur o hyd iddynt yn aml mewn gwelyau cyrs a hefyd lleoedd lle ceir glaswelltir sydd heb ei gynhyrfu a phlanhigion llysieuol tal, fel y ceir ar ymylon ffyrdd. Mae eu nythod gaeafol wedi'u canfod wrth fôn twmpathau o wellt y gweunydd yn ogystal ag o fewn prysgydd eithin.

**Mae'r amcangyfrif o faint y boblogaeth yn Adolygiad 2018 yn ansicr iawn oherwydd prinder o ddata. Roedd Adolygiad 1995 yn seiliedig ar amcangyfrif o'r gymhareb o llygod yr ŷd i llygod y coed, ac roedd hefyd yn ansicr. Mae tueddiadau ym maint y boblogaeth felly'n aneglur, a dosberthir y rhywogaeth yn ddiffygol o ran data.**

### Bygythiadau

Mae newidiadau yn arferion amaethyddol, fel cyflwyno cnydau ŷd gaeafol a gaiff eu cynaeafu cyn diweddu tymor bridio llygod yr ŷd, a defnyddio cnydau â choesynnau byrrach, sy'n llai ffafriol iddynt, yn debygol o achosi lleihad ym maint y boblogaeth. Mae poblogaethau'n naturiol yn mynd trwy amrywiaethau mawr iawn eu maint, ac felly mae angen cwblhau gwerth nifer o flynyddoedd o waith arolygu er mwyn dangos bod gan ffactor effaith negyddol ar y rhywogaeth hon.



Harvest mice have traditionally been associated with tall-stemmed cereal crops, where they forage and breed in the stalks during summer. In winter they move into hedgerows, field margins and ditches. They are often found in reed beds, and also occur in places with undisturbed grassland and tall herbaceous plants, such as road verges. Their winter nests have been found in the base of molinia tussocks as well as gorse scrub.

**The population size estimate in the 2018 Review is very uncertain because of a lack of data. The 1995 Review was based on an estimation of the ratio of harvest mice to wood mice, and was also uncertain. Trends in population size are therefore unclear and the species is classed as data deficient.**

### Threats

Changes in agricultural practices, such as the introduction of winter cereals harvested before the completion of the harvest mouse breeding season, and the use of less-favourable shorter-stemmed crops, are likely to cause a reduction in population size. Populations naturally show great variations in size, and therefore several years of survey are required to demonstrate that a factor has a negative effect on this species.





## Llygoden y coed

### Wood mouse

*Apodemus sylvaticus*

Cynhenid  
Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



Rhagolygon  
Prospects

Sefydlog  
Stable

Sgôr dibynadwyedd  
Reliability score



Poblogaeth  
Population

4,600,000



Gwasgariad  
Range

20,051 km<sup>2</sup>



Llygod y coed yw un o'r mammaliaid mwyaf niferus yng Nghymru. Maent yn hynod hyblyg ac yn bresennol yn y mwyaf o gynffinioedd, gan gynnwys coetir, tir âr, porfa arw, grug, gorgors, twyni tywod ac ardaloedd trefol. Mae gwrychoedd yn gynefin pwysig i'r rhywogaeth hon a gallant gynnal poblogaethau preswyl. Mae eu deiet yn cynnwys cnau, hadau, ydau, ffrwythau, sbrigau, ffyngau ac infertebratau bach.

**Mae maint y boblogaeth yng Nghymru yn debygol o fod yn sefydlog: mae amcangyfrif canolog Adolygiad 1995 yn is, ond mae o fewn cyfyngau hyder yr amcangyfrifon presennol. Mae'r sefydlogrwydd hwn yn cyd-fynd â'r diffyg newid i goetir sydd ar gael dros amser. Er y collwyd rhai gwrychoedd, mae'r rhain yn cynnal cyfran lawer is o'r boblogaeth nag y mae coetiroedd.**

#### Bygythiadau

Nid oes unrhyw ffygythiadau hysbys sydd wedi achosi, neu sy'n debygol o achosi, newid mawr i ddosbarthiad neu faint poblogaeth y rhywogaeth hon.



Wood mice are one of the most abundant mammals in Wales. They are highly adaptable and are found in most habitats, including woodland, arable land, rough grassland, heather, blanket bog, sand dunes and urban areas. Hedgerows are an important habitat for this species and can support resident populations. Their diet comprises nuts, seeds, grains, fruits, shoots, fungi and small invertebrates.

**The population size in Wales is likely to be stable: the central estimate of the 1995 Review is lower, but lies within the confidence limits of the current estimates. This stability aligns with the lack of change in woodland availability over time. Although there is some loss of hedgerows, these support a much lower proportion of the population than do woodlands.**

#### Threats

There are no known threats that have caused, or are likely to cause, a major change in the distribution or population size of this species.





## Llygoden bronfelen

### Yellow-necked mouse

*Apodemus flavicollis*

Cynhenid  
Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

140,000

Data yn  
ddiffygiol  
Data deficient

Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

6,795 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend

Gellir canfod llygod bronfelen yn ardaloedd de a chanolbarth Cymru yn bennaf, er bod y gwasgariad yn ehangu. Maent fel rheol yn gysylltiedig â choetiroedd llydanddail aeddfe, gan fod yn well ganddynt goetiroedd â choedlannau hŷn na choedlannau diweddar. Mae gwrychoedd yn gynefin pwysig i'r rhywogaeth hon hefyd. Mae deitet llygod bronfelen yn debyg i ddeiet llygod y coed, ac mae'r hadau coed sydd ar gael a'u hamrywiaeth yn rhagfynegyddion pwysig o'u dwysedd.

**Mae'r amcangyfrif canolog o faint y poblogaeth 60% yn uwch na'r hyn a adroddwyd yn Adolygiad 1995, er bod y cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd. Fodd bynnag, ceir llawer o ansicrwydd yn y ddau amcangyfrif ar gyfer y rhywogaeth hon, ac felly fe'i dosberthir fel diffygiol o ran data.**

#### Bygythiadau

Mae newidiadau i'r rheolaeth o goetiroedd hynafol ac â choedlannau wedi cael effaith negyddol ar y rhywogaeth hon, ond ceir diffyg tystiolaeth i awgrymu effeithiau lefel poblogaeth. Gallai tymheredd uwch yn yr haf yn deillio o'r newid yn yr hinsawdd arwain at ehangu gwasgariad trwy gynyddu faint o fwyd sydd ar gael o bosibl.



Yellow-necked mice are primarily found in southern and central areas of Wales, though the range is expanding. They are usually associated with mature broadleaved woodlands, preferring older coppiced woodlands to recent coppice. Hedgerows are also an important habitat for this species. The diet of yellow-necked mice is similar to that of wood mice, and the availability and diversity of tree seeds are important predictors of their density.

**The central estimate of population size is 60% higher than that reported in the 1995 Review, though the confidence intervals overlap. However, there is much uncertainty in both estimates for this species, and it is therefore classed as data deficient.**

#### Threats

Changes in the management of ancient and coppiced woodlands have had a negative effect on this species, but there is a lack of evidence to suggest population-level effects. Higher summer temperatures resulting from climate change may lead to a range expansion by potentially increasing food availability.



## Llygoden fach

### House mouse

Mus musculus

#### Wedi cynefino

##### Naturalised

Statws cadwraeth  
Conservation status



Rhagolygon  
Prospects

Sefydlog  
Stable

Sgôr dibynadwyedd  
Reliability score



Poblogaeth  
Population

**339,000**



Gwasgariad  
Range

**9,146 km<sup>2</sup>**



Mae llygod bach wedi bod yn bresennol ym Mhrydain Fawr ers yr Oes Neolithig. Maent yn ddibynnol ar anheddu pobl a'u cyflenwadau bwyd cysylltiedig ac yn bresennol ar ffermydd ac mewn lleoliadau diwydiannol yng Nghymru. Nid yw'r rhywogaeth yn destun llawer o'r ffactorau amgylcheddol sy'n rheoli maint poblogaethau'r rhan fwyaf o famaliaid bach eraill felly.

Fodd bynnag, mae llygod bach yn sensitif i darfu gan bobl, yn anfwriadol (er enghraifft, addasiadau i adeiladau) ac yn fwriadol (er enghraifft, defnydd o wenwyn llygod). Mae'n ansicr a yw'r gweithgareddau hyn yn cael effaith ar faint y boblogaeth.

Mae cymariaethau o'r ddau adolygiad yn dynodi cynnydd o 65% i'r amcangyfrif canolog ers 1995. Fodd bynnag, mae poblogaethau llygod bach **yn mynd trwy ymddygiad atgenhedlu 'ar i fyny ac ar i lawr', sy'n gwneud cymhariaeth rhwng amcangyfrifon Adolygiad 1995 ac Adolygiad 2018 yn anodd.** Hefyd, prin iawn yw'r astudiaethau o'r rhywogaeth ac mae'n aml yn cael ei chamadnabod. Dosberthir maint y boblogaeth ar gyfer y rhywogaeth hon yn bwyllog felly fel sefydlog.

#### Bygythiadau

Caiff llygod bach eu heffeithio gan fesurau rheoli plâu uniongyrchol a ddefnyddir i leihau plâu trefol.



House mice have been present in Great Britain since Neolithic times. They are dependent on human dwellings and their associated food supplies, and occur on farms and in industrial settings in Wales. The species is therefore not subject to many of the environmental factors that regulate the population sizes of most other small mammals.

House mice are, however, sensitive to human disturbance, both unintentional (for example, building alterations) and intentional (for example, rodenticide use). It is uncertain whether these activities have an effect on population size.

Comparison of the two reviews indicates a 65% increase in the central estimate since 1995. However, house mouse **populations experience 'boom and bust' reproductive behaviour, making a comparison between the 1995 Review and the 2018 Review estimates difficult. In addition, the species is extremely poorly studied and is frequently misidentified. The population size for this species is therefore cautiously classed as stable.**

#### Threats

House mice are affected by direct pest control measures used to reduce urban infestations.





## Llygoden ffyrnig

### Brown rat

*Rattus norvegicus*

#### Estron

#### Non-native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

[1,280,000]\*

Data yn  
ddiffygol  
**Data deficient**

Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

18,653 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend

\*  
Ceir ansicrwydd  
sylwedol yn yr  
amcangyfrif /  
Considerable  
uncertainty in  
the estimate

Mae llygod ffyrnig yn hynod hyblyg ac amryddawn. Maent yn gyffredin mewn adeiladau fferm a chaeau cnydau yn ogystal ag ardaloedd trefol Cymru lle ceir llawer o fwyd, fel mannau sy'n agos at gaffis, marchnadoedd, tomeni sbwriel neu systemau carthffosiaeth hŷn. Mae poblogaethau sy'n annibynnol ar bobl yn bresennol mewn cynefinoedd arfordirol, glannau afon, âr a gwrychoedd. Mae cymariaethau o'r ddau adolygiad yn dynodi cynnydd o 88% i'r amcangyfrif canolog ers 1995. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl cyfrifo cyfyngau hyder ar gyfer yr amcangyfrif cyfredol, felly nid yw'n sicr a yw'r cynnydd hwn yn arwyddocaol. Prin iawn yw'r astudiaethau o'r rhywogaeth, ac oherwydd diffyg gwybodaeth, gellid seilio amcangyfrifon poblogaeth ar gyffredinrwydd o gwmpas anheddau yn unig.

**Mae'n debygol felly fod yr amcangyfrif o'r poblogaeth yn rhy isel ac fe'i dosberthir fel diffygol o ran data ar gyfer tueddiadau poblogaeth.**

#### Rheoli

Mae ataliad lleol trwy reoli plâu wedi cael effaith ar y poblogaeth, ond nid yw'n sicr a yw hyn yn cael effaith ar lefel genedlaethol. Mae hefyd yn aneglur a yw'r cynnydd i poblogaeth ddynol Cymru a'r ffaith fod gwastraff ar gael mewn carthffosydd a lleoliadau eraill yn cynyddu maint poblogaethau. Mae llygod ffyrnig wedi datblygu ymwrthedd i rai mathau o wenwyn llygod, a allai fod wedi cael canlyniadau lefel poblogaeth.



Llun • Photo: Tim Preston

Brown rats are highly adaptable and versatile. They are common in farm buildings and crop fields, as well as in Wales's urban areas where food is abundant, such as near to cafes, markets, waste dumps, or older sewer systems. Populations independent of humans occur in coastal, riparian, arable and hedgerow habitats. Comparison of the two reviews indicates an 88% increase in the central estimate since 1995. However, it was not possible to calculate confidence limits for the current estimate, so it is uncertain whether this increase is significant. The species is extremely poorly studied and, because of a lack of information, population estimates could only be based on prevalence around dwellings.

**The population is therefore likely to be underestimated and it is classed as data deficient for population trends.**

#### Management

Localised suppression through pest control management has had an effect on the population, but it is uncertain if this has an effect on a national level. It is also unclear whether the increase in Wales's human population, and the availability of waste in sewers and other locations, is increasing population sizes. Brown rats have developed resistance to certain types of rodenticides, which may have had population-level consequences.





## Llygoden ddu

### Black rat

Rattus Rattus

#### Wedi cynefino Naturalised

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Anhysbys  
Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

Amherthnasol  
Not applicable



Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

Data yn ddiffygol  
Data deficient



Tuedd  
Trend

Mae'r llygoden ddu wedi bod yn bresennol ym Mhrydain Fawr ers yr oes Rufeinig o leiaf. Mae'n rhywogaeth gydfodol â deuet hollfwytâol, er ei bod yn amlwg yn fwy llysieuol na'r llygoden ffyrnig. Gelwir y llygoden ddu yn llygoden y to hefyd, ac mae'n hynod ddibynnol ar adeiladau, ac ym Mhrydain Fawr wedi tueddu i fyw mewn warysau ar geiau ac adeileddau tebyg. Fodd bynnag, mewn rhai lleoliadau, mae hefyd wedi byw mewn cynefinoedd creigiog a chlogwyni. Ni wnaed unrhyw amcangyfrif o'r boblogaeth oherwydd diffyg cofnodion. Gellir drysu'r rhywogaeth gyda llygod ffyrnig, ac anaml y cyflwynir cofnodion rhywogaethau sy'n blâu.

**Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnodion diweddar, yn wahanol i adroddiadau achlysurol ar gyfer ardaloedd arfordirol a phorthladdoedd hyd at y 1960au.** Yn absenoldeb arolwg trylwyr, ni ellir ystyried eto ei bod yn ddiflannedig yn ei chynefin yng Nghymru na Phrydain Fawr yn ôl meinï prawf yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur, ac mae'r potensial ar gyfer ailgytrefu, yn enwedig o anifeiliaid a gludir ar longau sy'n glanio ym mhorthladdoedd Cymru, yn bodoli.

#### Bygythiadau

Mae mesurau rheoli plâu wedi arwain at ddileu'r llygoden ddu yn eang.




Llun • Photo: Mark Hows

The black rat has been present in Great Britain since at least Roman times. It is a commensal species with an omnivorous diet, albeit notably more vegetarian than the brown rat. Also called the roof rat, the black rat is highly dependent on buildings, and in Great Britain it has tended to live in dockside warehouses and similar structures. However, in some locations, it has also occupied rocky habitats and cliffs.

No estimate of population was made because of a lack of records. The species can be confused with brown rats, and records of pest species are rarely submitted. **However, there are no recent records, in contrast with occasional reports for coastal areas and ports up to the 1960s.** In the absence of an exhaustive survey, it cannot yet be considered extinct in the wild in Wales or Great Britain according to IUCN criteria, and the potential for recolonisation, particularly from animals carried on ships docking at Welsh harbours, exists.

#### Threats

Pest control measures have led to the widespread eradication of the black rat.



## Llwynog coch

### Red fox

Vulpes vulpes

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Sefydog  
Stable

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

27,700

Data yn  
ddiffygol  
Data deficient

Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

20,643 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend



Mae llwynogod yn hynod hyblyg ac amryddawn. Maent yn fwyaf niferus mewn cynefinoedd sy'n cynnig amrywiaeth eang o loches a bwyd, ond gellir dod o hyd iddynt yn unrhyw le bron. Mae eu poblogaethau mewn ardaloedd trefol wedi cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf, yn enwedig mewn maestrefi preswyl dwysedd isel.

**Mae'r amcangyfrif canolog o faint y boblogaeth wedi cynyddu 26% rhwng 1995 a 2018 ond mae'r cyfyngau hyder ar gyfer yr amcangyfrif cyfredol yn eang iawn, ac nid yw arwyddocâd y newid hwn yn eglur. Dosberthir y rhywogaeth yn ddiffygol o ran data felly. Er nad yw data ar gael ar gyfer Cymru yn unigol, mae'r Arolwg o Adar sy'n Bridio wedi nodi gostyngiad bach ond arwyddocaol i nifer y llwynogod ym Mhrydain.**

**Fawr** rhwng 1996 a 2014, er bod y Cyfrifiad Bag Helwriaeth Cenedlaethol – nad yw'n addasu ar gyfer ymdrech hela – wedi canfod dim newid arwyddocaol rhwng 1995 a 2009.

#### Bygythiadau

Caiff poblogaethau llwynogod lleol eu heffeithio gan byliau o glefyd – yn enwedig mansh – tra bo difa yn debygol o gael effeithiau negyddol ar y boblogaeth, ar lefel leol o leiaf. Fodd bynnag, mae potensial ar gyfer niferoedd uwch mewn amgylcheddau trefol oherwydd bod llawer o fwyd ar gael.



Foxes are highly adaptable and versatile. They are most abundant in habitats offering a wide variety of cover and food, but can be found almost anywhere. Their populations in urban areas have increased substantially over the past 20 years, particularly in low-density, residential suburbs.

**The central estimate of population size has increased by 26% between 1995 and 2018, but the confidence intervals for the current estimate are very wide, and the significance of this change is unclear. The species is therefore classed as data deficient. Although data are not available for Wales individually, the Breeding Bird Survey has reported a small but significant decline in foxes in Great Britain between 1996 and 2014, whereas the National Gamebag Census – which does not adjust for hunting effort – found no significant change between 1995 and 2009.**

#### Threats

Local fox populations are affected by outbreaks of disease – particularly mange – whilst culling is likely to have negative population effects, at least at a local level. However, there is the potential for increased numbers in urban environments owing to widespread food availability.



## Mochyn daear Badger

*Meles meles*

### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

62,900



Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

20,643 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend

Yng Nghymru, fel gweddill Prydain Fawr, mae moch daear yn anifeiliaid hynod gymdeithasol ac yn ysglyfaethu prifed genwair yn bennaf. Mae hyn yn cyferbynnu â moch daear yn Ewrop gyfandirol, sy'n fwy unig ac yn bwyta anifeiliaid asgwrn cefn bach yn bennaf. Mae brochfeydd moch daear yn bresennol mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd fel coetir a thir fferm yn ucheldiroedd ac iseldiroedd Cymru. Mae moch daear hefyd wedi gwneud defnydd cynyddol o ardaloedd trefol dros y 25 mlynedd diwethaf.

#### Mae'r amcangyfrif canolog o faint y boblogaeth 143% yn uwch nag yn Adolygiad 1995.

Mae arolygon moch daear ledled y wlad hefyd wedi awgrymu bod dwysedd brochfeydd wedi cynyddu 103% rhwng 1985 a 2010.

#### Bygythiadau

Caiff moch daear eu diogelu gan y gyfraith ac mae eu niferoedd yn cynyddu yn dilyn erledigaeth yn y gorffennol. Maent hefyd yn debygol o elwa o'r newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, mae gwrthdrawiadau â cherbydau ffordd yn debygol o gael effeithiau negyddol ar y boblogaeth, ar y raddfa leol o leiaf.



Llun • Photo: Jenny Bailey

In Wales, like the rest of Great Britain, badgers are highly social animals and prey primarily on earthworms. This contrasts with badgers in continental Europe, which are more solitary and feed largely on small vertebrates. Badger setts occur in a wide variety of habitats, such as woodland and farmland in Wales's uplands and lowlands. Badgers have also made increasing use of urban areas over the last 25 years.

#### The central estimate of population size is 143% higher than in the 1995 Review.

Nationwide badger surveys have also suggested that sett density has increased by 103% between 1985 and 2010.

#### Threats

Badgers are legally protected and their numbers are recovering from past persecution. They are also likely beneficiaries of climate change. However, collisions with road vehicles are likely to have negative population effects, at least at the local scale.





## Dyfrgi Otter

Lutra lutra

### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

[1,000]\*



#### Gwasgariad Range

20,643 km<sup>2</sup>



\*  
Ceir ansicrwydd  
sylwedol yn yr  
amcangyfrif /  
Considerable  
uncertainty in  
the estimate

Mae dyfrgn yn manteisio ar y cyflenwad bwyd uchel y mae cynefinoedd dŵr croyw ac arfordirol Cymru yn ei gynnig. Mewn cynefinoedd arfordirol, maent yn dal yn ddibynnol ar ddŵr croyw sydd ar gael yn gyfagos i lanhau halen o'u blew. Mae'r rhywogaeth hon yn heliwr oportwnistaidd sy'n bwyta pysgod yn bennaf, ond gall cramenogion ac amffibiaid fod yn fwydydd pwysig hefyd.

**Mae dosbarthiad daearyddol y dyfrgi yn llawer mwy nag yn yr adolygiad blaenorol, gan ddangos ailgytrefiad o Gymru gyfan. Yn yr un modd, dangosodd yr Arolygon Dyfrgn Cenedlaethol gynydd i nifer y sgwariau 10 km sydd wedi'u meddiannu yng Nghymru, gan godi o 38% ym 1977–1989 i 72% yn 2002–2003.** Weithiau, mae unigolion hyd yn oed yn cael eu cofnodi mewn ardaloedd hynod drefol fel canol Caerdydd. Mae adferiad y dyfrgi o'i ddirywiadau hanesyddol blaenorol yn gysylltiedig â'i amddiffyniad cyfreithiol a'r gwaharddiad ar blaladdwyr organoglorin parhaus. Nid oedd unrhyw amcangyfrifon dwysedd newydd ar gael ar gyfer *Adolygiad 2018*.

#### Bygythiadau

Mae gwahardd plaladdwyr organig parhaus wedi cael effaith gadarnhaol ar poblogaethau dyfrgn. Mae effeithiau mathau eraill o lygredd dyfrol ar yr ysglyfaeth sydd ar gael a maint poblogaethau dyfrgn yn aneglur. Mae marwolaethau ffordd yn parhau i beri pryder, ac mae patrymau anafiadau yn awgrymu cynnydd yn dilyn cyfnodau o lifogydd. Gallai diffyg safleoedd bridio addas fod yn cyfyngu poblogaethau.



Otters take advantage of the high food supply that Wales's freshwater and coastal habitats offer. In coastal habitats, they are still dependent upon the availability of nearby fresh water for cleaning salt from their fur. This species is an opportunistic hunter that feeds primarily on fish, but crustaceans and amphibians can also be important foods.

**The geographical distribution of the otter is much larger than in the previous review, showing complete recolonisation of Wales. Similarly, the National Otter Surveys showed an increase in the number of occupied 10 km squares in Wales, rising from 38% in 1977–1989 to 72% in 2002–2003.** Occasionally, individuals are even recorded in highly urbanised areas such as central Cardiff. The recovery of the otter from its previous historical declines is linked with its legal protection and the ban of persistent organochlorine pesticides. No new density estimates were available for the *2018 Review*.

#### Threats

The banning of persistent organic pesticides has had a positive effect on the population of otters. The effects of other forms of aquatic pollution on prey availability and otter population sizes are unclear. Road deaths remain a concern, casualty patterns suggesting an increase following periods of flooding. Availability of suitable breeding sites may be limiting populations.






## Bele

### Pine marten

*Martes martes*

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

39



#### Gwasgariad Range

9,544 km<sup>2</sup>



Mae belaod yn byw mewn coetiroedd yn nodwediadol, ond gall y rhywogaeth hyblyg hon ddefnyddio safleoedd lloches a chyfleoedd fforio mewn mannau eraill. Fe'i cofnodwyd mewn cynefinoedd nad ydynt yn goedio fel ardaloedd mynydd ucheldir, glaswelltir lled-naturiol, a rhostir. Yn yr Alban, maent yn defnyddio toeau adeiladau, a gallant fod yn bresennol mewn mannau arfordirol yn Iwerddon. Mae'r deiet yn amrywio yn ôl y gwahanol ffynonellau bwyd sydd ar gael, ac yn cynnwys mamaliaid bach, burgyniaid, mwyr a phryfed.

**Trawsleolwyd belaod yn llwyddiannus o'r Alban i atgyfnerthu poblogaethau bach yng Nghymru. Mae'r anifeiliaid hyn yn bridio yn eu cynefin erbyn hyn ac felly mae'r gwasgariad daearyddol a maint y boblogaeth wedi cynyddu ers Adolygiad 1995.**

#### Bygythiadau

Cafodd y rhywogaeth hon ei herlid yn drwm yn hanesyddol. Mae'r gyfradd farwolaeth o ddamweiniau traffig ffordd yn fygythiad i boblogaethau sy'n cynyddu.



Pine martens typically live in woodlands, but this adaptable species can use denning sites and foraging opportunities elsewhere. It has been recorded in non-wooded habitats such as upland montane areas, semi-natural grassland, and heathland. In Scotland they use the roof spaces of buildings, and they can occur in coastal situations in Ireland. The diet varies according to the availability of different food sources, and includes small mammals, carrion, berries and insects.

**Pine martens have been successfully translocated from Scotland to reinforce small populations in Wales. These animals are now breeding in the wild, and the geographical range and population size have therefore increased since the 1995 Review.**

#### Threats

Historically, this species was heavily persecuted. Mortality from road traffic accidents is a threat to recovering populations.





## Carlwm Stoat

**Mustela erminea**

### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Anhysbys  
Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

[37,600]\*

Data yn ddiffygol	Tuedd Trend
Data deficient	

#### Gwasgariad Range

16,416 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend

\* Ceir anisicrywedd sylwedol yn yr amcangyfrif / Considerable uncertainty in the estimate

Mae carlymod yn rhywogaeth amryddawn, a gellir eu canfod yn y mwyafri o gynefinoedd yng Nghymru os oes digon o loches ac ysglyfaeth ar gael. Mae'n hysbys eu bod yn osgoi manau agored trwy deithio ar hyd gwrychoedd, ffosydd a waliau cerrig. Fodd bynnag, maent hefyd yn bresennol mewn cynefinoedd agored, gan gynnwys twyni tywod, glaswelltir a thraethlinau. Maent yn ysglyfaethwyr arbenigol o famaliaid bach a chanolig eu maint. Mae cwningod yn rhywogaeth ysglyfaeth allweddol. Mae'n ymddangos bod poblogaethau yn amrywio mewn ymateb i gyflenwad bwyd. Er enghraift, bu gostyngiadau amlwg i niferoedd carlymod yn y 1950au a'r 1960au, yn dilyn epidemigion mycosomatosis mewn cwningod.

**Prin iawn yw'r wybodaeth sydd ar gael am faint poblogaethau carlymod, ac felly nid yw'n eglur a fu newid ers Adolygiad 1995. Dosberthir y rhywogaeth fel diffygol o ran data felly.** Mae'r Cyfrifiad Bag Helwriaeth Cenedlaethol yn awgrymu cynnydd o 28% ers 1995, er y gallai'r cynnydd hwn fod oherwydd cynnydd i'r ymdrech faglu (er enghraift, o ran gweithgareddau magu ffeasantod), yn hytrach na newid gwirioneddol i'r boblogaeth.

#### Bygythiadau

Mae unrhyw ostyngiad i boblogaethau ysglyfaeth, yn enwedig cwningod, yn debygol o gael effaith ar niferoedd carlymod. Gallai'r rhywogaeth hefyd fod mewn perygl o fwya anifeiliaid sydd wedi eu gwenwyno gan wenwyn llygod. Mae colli'r cynefin y maent yn ei ffafrio yn fygythiad cynyddol.



Stoats are a versatile species, and can be found in most habitats in Wales if sufficient cover and prey is available. They are known to avoid open spaces by travelling along hedgerows, ditches and stone walls. However, they also occur in open habitats, including sand dunes, grassland and shorelines. They are specialised predators of small and medium-sized mammals. Rabbits are a key prey species. Populations appear to fluctuate in response to food supply. For example, stoats showed marked declines in the 1950s and 1960s, following myxomatosis epidemics in rabbits.

**Very little information is available on population sizes of stoats, and so it is unclear whether there has been a change since the 1995 Review. The species is therefore classed as data deficient.** The National Gamebag Census suggests a 28% increase since 1995, although this increase may be owing to an increase in trapping effort (for example, in relation to pheasant-rearing activities), rather than an actual population change.

#### Threats

Any decline in prey populations, particularly rabbits, is likely to have an impact on stoat numbers. The species may also be at risk from consuming animals poisoned by rodenticides. The loss of their preferred habitat is an increasing threat.





## Gwenc Weasel

*Mustela nivalis*

### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Anhysbys  
Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

Amherthnasol  
Not applicable



#### Gwasgariad Range

19,563 km<sup>2</sup>



Mae gwenciod yn byw mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd cyn belled ag y bo bwyd a lloches ar gael. Mae'r rhywogaeth yn ysglyfaethwr arbenigol o lygod a llygod pengrwn, ond bydd hefyd yn cymryd cwningod ifanc, adar ac wyau. Mae gwenciod yn gyffredin mewn coetiroedd conwydd â phoblogaethau llygod pengrwn y gwair dwys ond maent yn llai niferus lle ceir prinder mamaliaid bach.

#### Nid oedd yn bosibl diweddarur amcangyfrif poblogaeth a roddwyd yn Adolygiad 1995

**oherwydd diffyg data.** Mae'r Cyfrifiad Bag Helwriaeth Cenedlaethol yn dynodi bod y boblogaeth wedi cynyddu 51% rhwng 1995 a 2009 ond nid yw'n hysbys a yw hyn oherwydd newid i'r ymdrech faglu neu oherwydd newid poblogaeth gwirioneddol. **Dosberthir y rhywogaeth fel diffygiol o ran data felly.**

#### Bygythiadau

Ni nodwyd unrhyw fygythiadau, ond prin iawn yw'r astudiaethau o'r rhywogaeth. Yn yr un modd â'r carlwm, mae unrhyw ostyngiad i boblogaethau ysglyfaeth, yn enwedig cwningod, yn debygol o gael effaith. Efallai fod y rhywogaeth hefyd mewn perygl o fwyta anifeiliaid sydd wedi'u gwenwyno gan wenwyn llygod.



Weasels occupy a wide range of habitats provided that food and cover are present. The species is a specialised predator of voles and mice, but it will also take young rabbits, birds and eggs. Common in coniferous woodlands with dense field vole populations, weasels are less abundant where small mammals are scarce.

**It was not possible to update the population estimate given in the 1995 Review because of a lack of data.** The National Gamebag Census indicates that the population increased by 51% between 1995 and 2009, but it is not known whether this is because of a change in trapping effort or owing to a true population change.

**The species is therefore classed as data deficient.**

#### Threats

No threats have been identified, but the species is very poorly studied. As with the stoat, any decline in prey populations, particularly rabbits, is likely to have an impact. The species may also be at risk from consuming animals poisoned by rodenticides.





## Ffwlbart Polecat

*Mustela putorius*

### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



Poblogaeth  
Population

16,800



Tuedd  
Trend

Gwasgariad  
Range

20,552 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend



Mae ffwlbartiaid yn rhywogaeth sy'n gyffredinol y dd o ran dewis cynefin a deiet. Ceir rhywfaint o dystiolaeth eu bod yn ffafrio coetir ac ymylon caeau, adeiladau fferm, ac ardalau maestrefol a threfol. Mae cyfran uchel o weithgarwch yn gysylltiedig â chwningaroedd, a defnyddir y safleoedd hyn ar gyfer lloches yn aml hefyd.

**Mae Cymru yn gadarn i ffwlbartiaid. Mae eu gwasgariad yn sefydlog ac amcangyfrifir bod maint eu poblogaeth 34% yn fwy nag yn Adolygiad 1995. Gyda phoblogaeth sy'n tyfu yng Nghymru, mae ffwlbartiaid pur yn disodli hybridau ffured-ffwlbart, sydd â chyfraddau goroesi gwaeth yn nodwediadol.**

#### Bygythiadau

Mae poblogaethau ffwlbartiaid wedi cynyddu yn dilyn adferiad o erledigaeth yn y gorffennol. Fodd bynnag, ceir pryder y gallai bwyta llygod sydd wedi'u halogi â gwenwyn llygod gael effaith negyddol ar y boblogaeth. Oherwydd eu dibyniaeth uchel ar gwningod, mae unrhyw ostyngiad i boblogaethau cwnningod yn debygol o gael effaith negyddol ar ffwlbartiaid.



Llun • Photo: Derek Crawley

Polecats are a generalist species in terms of both habitat selection and diet. There is some evidence of a preference for woodland and field edges, farm buildings, and suburban and urban areas. A high proportion of activity is associated with rabbit warrens, and these sites are also frequently used for denning.

**Wales is a stronghold for polecats. Their range is stable, and the central estimate of their population size is 34% larger than in the 1995 Review. With a growing population in Wales, pure polecats are replacing ferret-polecat hybrids, which typically have poorer survival rates.**

#### Threats

Polecat populations have increased following recovery from past persecution. However, there is concern that the consumption of rats contaminated with rodenticides could have a negative effect on the population. Because of their high dependency on rabbits, any decline in rabbit populations is likely to have a negative effect on polecats.



## Minc Americanaid American mink

*Neovison vison*

### Estron Non-native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Gwael  
Poor

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

[12,900]\*



Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

20,411 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend

\* Ceir ansicrwydd sylwedol yn yr amcangyfrif / Considerable uncertainty in the estimate

Ymsefydlodd mincod Americanaid ym Mhrydain Fawr ar ôl dianc neu gael eu rhyddhau o ffermydd ffwr, ac roeddent wedi hen sefydlu yng Nghymru erbyn diwedd y 1960au. Mae mincod yn dangos ffafriaeth gref i gynefinoedd dyfrol, ac yn ffafrio dyfrffyrdd â digonedd o loches lle maent yn bwyta amrywiaeth eang o ysglyfaeth, gan gynnwys adar y dŵr, pysgod a llygod pengrwn y dŵr. Ceir dwyseddau poblogaeth uchel mewn ardaloedd arfordirol creigiog heb eu tarfu hefyd.

Mae maint y boblogaeth a amcangyfrifwyd yn *Adolygiad 2018* yn fwy nag yn *Adolygiad 1995*. Fodd bynnag, roedd y ddau amcangyfrif yn seiliedig ar ddata cyfyngedig iawn, ac yn debygol o gynnwys amcangyfrifon annigonol ar gyfer ardaloedd arfordirol, felly dylid eu dehongli'n bwyllog. **Mae arolygon safonedig yn awgrymu bod gan gyfran sy'n gostwng o ddyfrffyrdd arwyddion o fincod.** Ynghyd ag amcangyfrifon o ddwysedd mincod, mae'r data hyn yn awgrymu gostyngiad o 45% i faint y boblogaeth rhwng 1996–1998 a 2016, â gostyngiad arbennig o 29% yng Nghymru a Lloegr. **Rheolwyd mincod yn strategol ar Ynys Môn ac nid oes unrhyw dystiolaeth o boblogaeth sy'n bridio yno ar hyd o bryd.**

#### Rheoli

Awgrymwyd bod cystadleuaeth gan boblogaethau dyfrgwn sy'n adfer yn cyfrannu at y gostyngiad i niferoedd mincod. Rheolir mincod yn effeithiol mewn rhai lleoliadau hefyd, ond mae rheolaeth yn gofyn am gamau parhaus a chydlynol.



Llun • Photo: Sonia Richardson

American mink became established in Great Britain following escapes or releases from fur farms, and were well established in Wales by the late 1960s. Mink show a strong preference for aquatic habitats, and favour waterways with abundant cover where they feed on a wide range of prey, including waterfowl, fish and water voles. High population densities can also be found in undisturbed rocky coastal areas.

The population size estimated in the *2018 Review* is higher than that in the *1995 Review*. However, both estimates were based on very limited data, and are likely to include underestimates for coastal areas, so should be interpreted cautiously. **Standardised surveys suggest that a falling proportion of waterways have signs of mink.** Together with estimates of mink density, these data suggest a 45% decline in population size between 1996–1998 and 2016, with England and Wales in particular showing a decline of 29%. **There has been strategic mink control on Anglesey, and there is currently no evidence of a breeding population there.**

#### Management

It has been suggested that competition from recovering otter populations is contributing to the decline in mink. In some locations there is also an effective management of mink, but control requires sustained and co-ordinated action.



## Baedd gwylt

### Wild boar

Sus scrofa

Cynhenid yn wreiddiol – wedi'i ailgyflwyno  
heb awdurdod  
**Formerly native – unauthorised releases**

Statws cadwraeth  
Conservation status



Rhagolygon  
Prospects

Da  
Good

Sgôr dibynadwyedd  
Reliability score



Poblogaeth  
Population

**150**

Amherthnasol  
Not applicable

Tuedd  
Trend

Gwasgariad  
Range

**309 km<sup>2</sup>**

Amherthnasol  
Not applicable

Tuedd  
Trend

Cafodd baeddod gwylt eu hela tan iddynt ddiflannu o Brydain Fawr erbyn y 13eg ganrif. Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae anifeiliaid sydd wedi dianc, neu wedi cael eu rhyddhau'n fwriadol yn anghyfreithlon, o gasgliadau dof a stoc ffermio wedi ffurfio poblogaethau bridio. Mae'r poblogaethau hyn yn dal i fod wedi'u dosbarthu'n ysbeidiol, a dim ond yn achlysurol y'u gwelir yng Nghymru, heb unrhyw dystiolaeth o fridio. Fodd bynnag, ceir cadarnle yn Fforest y Ddena. Mae baeddod gwylt yn gysylltiedig â choetir yn bennaf, ond gallant ymgorffori amrywiaeth o gynefinoedd, gan gynnwys caeau amaethyddol, yn eu gwasgariad cartref.

**Gan mai'n ddiweddar yn unig y mae baeddod gwylt wedi ymseyfydlu yn Lloegr, yn agos at y ffin â Chymru, nid yw cymhariaeth ag Adolygiad 1995 yn bosibl.**

### Bygythiadau

Mae baeddod gwylt yn beirianwyr ecosystem, a gall eu gweithgareddau achosi gwrrthdrawiadau â phobl. Mae'n ymddangos bod difa wedi arafu ehangiad gwasgariad a chynnydd i faint poblogaeth y rhywogaeth mewn rhai ardaloedd.



Wild boar were hunted to extinction in Great Britain by the 13th century. Over the last 15 years, animals that have escaped, or been deliberately released illegally, from captive collections and farmed stock have formed breeding populations. These populations are still patchily distributed, with only occasional sightings in Wales and no evidence of breeding. However, there is a stronghold in the Forest of Dean. Wild boar are mainly associated with woodland, but they can incorporate a variety of habitats, including agricultural fields, into their home ranges.

**Because wild boar have only recently become established in England, close to the Welsh border, a comparison with the 1995 Review is not possible.**

### Threats

Wild boar are ecosystem engineers, and their activities can cause conflict with humans. Culling appears to have slowed the range expansion and population size increase of the species in some areas.



## Carw coch

### Red deer


*Cervus elaphus*

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status

Mae dosbarthiad ceirw coch yn ysbeidiol yn y gwasgariad daearyddol wedi'i lyfnhau.

The distribution of red deer is patchy within the smoothed geographical range.



#### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

10,200



Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

8,956 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend

Cysylltir ceirw coch ym Mhrydain Fawr â chynefinoedd rhostr agored ucheldir yn bennaf, lle maent yn byw mewn gyrroedd â'r rhywiau ar wahân. Fodd bynnag, ceir gyrroedd bach hefyd sy'n byw mewn coetir drwy'r flwyddyn, gan elwa yn ôl pob tebyg ar fwy o ffynonellau fforio am fwyd. Yn yr haf, mae poblogaethau'r cynefinoedd agored yn bwyta glaswellt yn bennaf, ond yn y gaeaf maent yn symud i dir is, gan newid i fwyta grug.

#### Mae'r amcangyfrif poblogaeth canolog yng Nghymru fwy na dwy drefn maint yn fwy na'r hyn a adroddwyd yn Adolygiad 1995 ac ystyri'r bod y boblogaeth yn ehangu.

Fodd bynnag, mae'n anodd dod i gasgliadau pendant yngylch tueddiadau amser oherwydd gwahaniaethau rhwng dulliau a dosbarthiad ysbeidiol ceirw coch yng Nghymru.

#### Bygythiadau

Caiff ceirw coch eu rheoli ar draws llawer o'u dosbarthiad. Mae manteision bwyta yn y gaeaf i faint y boblogaeth yn cael eu mantoli gan strategaethau difa. **Mae ceirw coch hefyd yn hybrideiddio gyda'r carw sica a gyflwynwyd.**



Llun • Photo: Chris Cachia Zammit

Red deer in Great Britain are most commonly associated with upland open moorland habitats, where they live in sexually segregated herds. However, there are also small herds that live in woodland all year round, apparently benefiting from greater foraging resources. In summer, the open habitat populations feed mainly on grasses, but in winter they move to lower ground, switching to foraging on heather.

#### The central population size estimate for Wales is more than two orders of magnitude greater than that reported in the 1995 Review, and the population is considered to be expanding.

However, it is difficult to draw firm conclusions about time-trends because of methodological differences and the patchy distribution of red deer in Wales.

#### Threats

Red deer are managed across much of their distribution. The benefits of winter feeding to population size are offset by culling strategies.

#### Red deer also hybridise with the introduced sika deer.





## Carw sica

### Sika deer

Cervus nippon

#### Estron

##### Non-native

###### Statws cadwraeth Conservation status

Mae cofnodion o geirw sica yng Nghymru yn wasgaredig, a cheir dosbarthiad ysbeidiol drwy eu gwasgariad cyfan.

Records of Sika deer in Wales are scattered, with a patchy distribution throughout their range.



###### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

###### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



###### Poblogaeth Population

3,600



###### Gwasgariad Range

1,398 km<sup>2</sup>



Mae ceirw sica wedi hen ymsefydlu ym Mhrydain Fawr erbyn hyn ac maent yn gysylltiedig â choetiroedd conwydd a rhostir ifanc, cyn llwyn a chyfnod llwyn. Fodd bynnag, maent yn gymharol hyblyg ac yn bresennol mewn cynefinoedd eraill sy'n wahanol dros ben i'r rhai sydd i'w gweld yn eu gwasgariad brodorol yn nwyrain Asia.

**Yn ôl Adolygiad 1995, nid oedd y rhywogaeth i'w chael yng Nghymru, ac felly mae'r dystiolaeth gyfredol yn awgrymu y bu cynnydd sylwedol o ran maint ac ystod y boblogaeth. Canfu'r Cyfrifiad Bag Helwriaeth Cenedlaethol gynnydd o 35% hefyd i nifer y ceirw sica a gafodd eu difa ers 1995, er nad yw hyn yn cymryd newidiadau i'r ymdrech hela dros amser i ystyriaeth.**

#### Rheoli

Mae sefydliadau cadwraeth natur yn ymwybodol o'r angen i lunio cynllun rheoli ar gyfer y rhywogaeth hon. Mae hybrideiddio â cheirw coch wedi cyfyngu ar ledaeniad ceirw sica pur.



Sika deer are now well-established in Great Britain and are associated with young, pre-thicket and thicket stage coniferous woodlands and heathland. They are, however, relatively adaptable and occupy habitats that differ dramatically from those found within their native range in east Asia.

**The 1995 Review considered the species absent from Wales, so the current evidence suggests a substantial increase in both population size and range. The National Gamebag Census also found an increase of 35% in the number of sika deer culled since 1995, though this does not account for changes in hunting effort over time.**

#### Management

Nature Conservation Organisations are aware of the need to form a management plan for this species. Hybridisation with red deer has limited the spread of pure sika deer.



## Danas

### Fallow deer

Dama dama

#### Wedi cynefino Naturalised

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

19,000



Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

18,479 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend

Cyflwynwyd danasod gan y Rhufeiniaid, ar ôl iddynt ddiflannu yn yr Oes lâ ddiwethaf, felly ystyrir eu bod wedi cynefino yn hytrach na bod yn frodorol. Mae'n well ganddynt goetiroedd llydanddail neu gymysg ag isdyfiant sefydledig. Fodd bynnag, byddant hefyd yn cytrefu planhigfeydd conwydd lle ceir rhai manau agored. Maent yn fforio am fwyd y tu allan i goetir yn rheolaidd, mewn glaswelltir a chaeau âr, yn enwedig yn y nos. Yn yr hydref a'r gaeaf, gwneir mwy o ddefnydd o fwyd prennaidd a chnydau mes.

**Mae amcangyfrif canolog Adolygiad 2018 o faint y boblogaeth yn fwy nag un drefn maint yn fwy nag ydoedd yn Adolygiad 1995, er bod cymriaethau'n cael eu cymhlethu gan wahaniaethau o ran dull.** Canfu'r Cyfrifiad Bag Helwriaeth Cenedlaethol gynnydd o 45% i'r niferoedd a gafodd eu difa ers 1995 hefyd, er nad yw'r dueedd hon yn arwyddocaol, ac ni chymerir unrhyw ystyriaeth o newidiadau posibl i ymdrech hela dros amser.

#### Bygythiadau

Caiff niferoedd ceirw eu rheoli i leihau effaith pori ar fioamrywiaeth.



Llun • Photo: Lee Chapman

Fallow deer were introduced by the Romans, having become extinct in the last ice age, so are considered naturalised rather than native. They prefer broadleaved or mixed woodlands with an established understory. However, they will also colonise coniferous plantations containing some open areas. They frequently forage outside woodland, in grasslands and arable fields, particularly at night. In autumn and winter, greater use is made of woody forage and mast crops.

**The 2018 Review central estimate of population size is more than an order of magnitude greater than that in the 1995 Review, although comparisons are complicated by methodological differences.**

The National Gamebag Census also found an increase of 45% in numbers culled since 1995, though this trend is not significant, and no account is taken of possible changes in hunting effort over time.

#### Threats

Deer numbers are controlled to reduce the impact of grazing on biodiversity.





## Iwrch

### Roe deer

*Capreolus capreolus*

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

**22,300**



Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

**16,804 km<sup>2</sup>**



Tuedd  
Trend




Mae iyrchod yn bresennol ar y dwyseddau mwyaf mewn coetiroedd cymysg, conwydd neu lydanddail, ac maent wedi elwa o'r cynnydd i orchudd coetir dros y ganrif ddiwethaf. Maent yn borwyr nodwediadol, gan fwytâ'n ddetholus y sylwedd planhigion mwyaf treuliadwy yn unig, fel dail, pennau blodau ac eginblanhigion. Caiff cynefinoedd coedwig â biomas planhigion bwyd mwy cyfoethog fel clystyrau o goed ifanc a rhodfeydd ac ymylon coedwigoedd eu ffafrio, ond bydd y rhywogaeth yn fforio am fwyd ar draws amrywiaeth eang o gynefinoedd.

**Mae'r amcangyfrif canolog cyfreol yn fwy na dwy drefn maint yn fwy na'r hyn a roddwyd yn Adolygiad 1995. Er yr ystyrir bod y boblogaeth yn cynyddu, mae'n anodd dod i gasgliadau pendant am faint y cynnydd hwn oherwydd gwahaniaethau sylweddol o ran dulliau'r ddau adolygiad.** Mae'r Cyfrifiad Bag Helwriaeth Cenedlaethol wedi dangos cynnydd o 31% i nifer yr iyrchod a gafodd eu difa rhwng 1995 a 2014, er na chymerir newidiadau posibl i ymdrech hela dros amser i ystyriaeth.

#### Bygythiadau

Gallai cynnydd i boblogaethau iyrchod fod wedi cael ei gyfyngu gan gystadleuaeth gyda'r carw mwntjac a gyflwynwyd. Mae'r rhywogaeth hon hefyd yn dioddef o wrthdrawiadau â cherbydau, ond nid yw'r effeithiau ar lefel y boblogaeth yn hysbys.



Roe deer occur at highest densities in mixed, coniferous or broadleaved woodlands, and have benefited from the increase in woodland cover over the last century. They are typical browsers, feeding selectively on only the most digestible plant matter, such as leaves, flower heads, and seedlings. Forest habitats with richer food plant biomass such as young stands, forest rides and edges are favoured, but the species will forage across a wide mosaic of habitats.

**The current central estimate is more than two orders of magnitude greater than that given in the 1995 Review. Whilst the population is considered to be increasing, it is difficult to draw firm conclusions about the scale of this increase because of substantial methodological differences between the two reviews.** The National Gamebag Census has shown a 31% increase in the number of culled roe deer between 1995 and 2014, although no account is taken of possible changes in hunting effort over time.

#### Threats

Roe deer population increases may have been restricted through competition with the introduced Reeves' muntjac deer. This species also suffers from vehicle collisions, but the population-level effects are unknown.



## Carw mwntjac

### Reeves' muntjac deer

Muntiacus reevesi

**Estron**  
**Non-native**

Statws cadwraeth  
Conservation status



**Rhagolygon  
Prospects**

**Da**  
**Good**

**Sgôr dibynadwyedd**  
**Reliability score**



**Poblogaeth  
Population**

**16,300**



Tuedd  
Trend

**Gwasgariad  
Range**

**11,382 km<sup>2</sup>**



Tuedd  
Trend

Mae ceirw mwntjac yn bennaf yn dewis cynefinoedd â lloches ddwys ac isdyfiant amrywiol, fel coetir llydanddail, cymysg a chonwydd a phrysgwydd. Defnyddir glaswelltir a chaeau âr, yn enwedig y rhai â gwrychoedd, i fforio am fwyd hefyd. Mae'r rhywogaeth yn bresennol yn yr un cynefinoedd ag iyrchod brodorol, a cheir tystiolaeth o gystadlu rhwng rhywogaethol am adnoddau.

**Mae'r amcangyfrif poblogaeth cyfredol yn fwy na dwywaith yr hyn a roddwyd yn Adolygiad 1995.** Gellir priodoli rhan o'r cynnydd hwn i wasgariad daearyddol sy'n ehangu, ond ceir gwahaniaethau o ran dulliau'r ddau adolygiad hefyd sy'n gwneud dehongli tueddiadau amser yn anodd.

**Rheoli**

Mae'r carw mwntjac yn rhywogaeth a gyflwynwyd ac mae'n parhau i ehangu ei wasgariad. Mae'n ymddangos bod gaeafau cynyddol fwyn wedi cynorthwyo twf y boblogaeth.



Reeves' muntjac deer primarily select habitats with dense cover and a diverse understory, such as broadleaved, mixed and coniferous woodland and scrub. Grasslands and arable fields, especially those with hedgerows, are also used for foraging. The species occupies the same habitats as native roe deer, and there is evidence of inter-specific competition for resources.

**The current population estimate is more than twice the size of that given in the 1995 Review.**

Part of this increase can be attributed to an expanding geographical range, but there are also methodological differences between the two reviews that make interpretation of time-trends difficult.

**Management**

Reeves' muntjac is an introduced species and continues to expand its range. Increasingly mild winters appear to have assisted the growth of the population.





## Ystlum pedol mwyaf

### Greater horseshoe bat

*Rhinolophus ferrumequinum*

Cynhenid  
Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

2,700



Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

13,230 km<sup>2</sup>



Tuedd  
Trend



Yn nodwediadol, mae ystlumod pedol mwyaf yn fforio am fwyd o gwmpas tir sy'n cael ei borï gan wartheg a thir parc, gan ddefnyddio gwrychoedd a llinellau coed sydd wedi gordyfu. Mae chwilog y dom a chwilog y bwm yn gyfran uchel o'r deiet yn ystod y tymor bridio, ond mae gwyfynod, pryfed teiliwr a rhywogaethau eraill yn cael eu bwyta hefyd. Mae ystlumod pedol mwyaf fel rheol yn clwydo mewn adeiladau yn ystod yr haf, ac yn defnyddio safleoedd tanddaearol ar gyfer gaeafgysgu. Yn hanesyddol, yng Nghymru, bu bron i'r rhywogaeth hon gael ei cholli, ond mae wedi gwneud adferiad da dros y degawdau diwethaf. Mae'r pum clwyd mamolaeth hysbys yn safleoedd dynodedig erbyn hyn, ac mae'r poblogaeth a'r gwasgariad yn cynyddu.

**Mae'r amcangyfrif poblogaeth cyfredol bron i saith gwaith yn fwy na'r hyn a awgrymwyd gan Adolygiad 1995. Mae hyn yn rhannol oherwydd amcangyfrif annigonol yn yr adolygiad cynharach, ond bu cynydd gwrioneddol i'r poblogaeth ac ehangiad i'r gwasgariad hefyd.**

#### Bygythiadau

Mae lleoliadau clwydfannau bridio wedi'u diogelu'n dda erbyn hyn, ac mae amodau thermol llawer o safleoedd wedi cael eu gwella dros y blynnyddoedd diwethaf, gan gynyddu llwyddiant bridio. Gallai'r rhywogaeth hefyd elwa o'r newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, gallai newidiadau i ddulliau cynhyrchu gwartheg llaeth ac eidion mwy dwys, a defnydd eang o asiantau gwrth-barasitig, leihau nifer y chwilog y dom ac ysglyfaethau eraill sydd ar gael. Mae ystlumod pedol mwyaf yn agored i wrthdrawiadau â cherbydau ffordd, ac yn cael eu heffeithio'n andwyol gan oleuadau artiffisial yn ystod y nos.



Llun • Photo: Daniel Whiby

Greater horseshoe bats typically forage around cattle-grazed pasture and parkland, making use of overgrown hedgerows and tree-lines. Dung beetles and cockchafers form a high proportion of the diet during the breeding season, but moths, crane flies and other species are also taken. Greater horseshoe bats usually roost in buildings during the summer, and use underground sites for winter hibernation. Historically, in Wales, this species was almost lost, but it has made a good recovery over recent decades. The five known maternity roosts are now designated sites and the population and range is increasing.

**The current population estimate is almost seven times that suggested by the 1995 Review. This is partly because of underestimation in the earlier review, but there has also been genuine population increase and range expansion.**

#### Threats

Breeding roost locations are now well protected, and the thermal conditions of many sites have been improved over recent years, increasing breeding success. The species may also benefit from climate change. However, shifts to more intensive methods of dairy and beef cattle production, and widespread use of anti-parasitic agents, may reduce the availability of dung beetles and other prey. Greater horseshoe bats are vulnerable to road vehicle collisions, and are adversely affected by artificial night lighting.



## Ystlum pedol lleiaf

### Lesser horseshoe bat

*Rhinolophus hipposideros*

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

Da  
Good

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

30,900



#### Gwasgariad Range

19,549 km<sup>2</sup>



Mae Cymru yn gadarnle Ewropeidd ar gyfer y rhywogaeth hon ac mae ganddi lawer o'r cytreifi hysbys mwyaf yn Ewrop. Mae ystlumod pedol lleiaf yn ffrio am fwyd yn bennaf mewn coetir llydanddail, corridorau glannau afon, a llinellau coed aeddfe a gwrychoedd. Yma, yn y canopi neu oddi tano, maent yn bwytu pryfed hedfan bach, gan gynnwys pryfed cyffredin a gwylfynod. Mae ganddynt ofynion clwydo penodol, gan ffafrio safleoedd lle nad ydynt yn cael eu tarfu â mynedefydd mawr. Maent fel rheol yn clwydo mewn adeiladau yn yr haf ac yn gaeafgysgu mewn safleoedd tanddaearol.

**Mae'r amcangyfrif poblogaeth cyfreolol fwy na thair gwaith yn fwy na'r hyn a awgrymwyd gan Adolygiad 1995. Mae hyn yn rhannol oherwydd amcangyfrif annigonol yn yr adolygiad cynharach, ond mae'n ymddangos hefyd y bu ehangiad gwirioneddol i wasgariad a chynnydd i faint y boblogaeth.**

#### Bygythiadau

Mae lleoliadau clwydfannau mamolaeth wedi'u diogelu'n dda erbyn hyn, ac mae amodau thermol llawer o safleoedd wedi cael eu gwella dros y blynnyddoedd diwethaf, gan gynyddu llwyddiant bridio. Gallai'r rhywogaeth hefyd elwa o'r newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, gallai tarfu gan bobl, yn enwedig ar safleoedd gaeafgysgu, fod yn niwedol. Gallai newid i arferion amaethyddol leihau'r ysglyfaeth sydd ar gael hefyd. Mae ystlumod pedol lleiaf yn agored i wrthdrawiadau â cherbydau ffordd, ac yn cael eu heffeithio'n andwyol gan oleuadau ariffisiai yn ystod y nos.



Llun • Photo: Sam Dyer

Wales is a European stronghold for this species and has several of the largest known colonies in Europe. Lesser horseshoe bats forage largely in broadleaved woodland, wooded riparian corridors, and mature tree-lines and hedgerows. Here, they feed within or below the canopy, taking small flying insects including flies and moths. They have specific roosting requirements, favouring undisturbed sites with large entrances. They usually roost in buildings in summer and hibernate in underground sites.

**The current population estimate is more than three times greater than that suggested by the 1995 Review. This is partly because of underestimation in the earlier review, but there also appears to be a genuine range expansion and population size increase.**

#### Threats

Maternity roost locations are now well protected, and the thermal conditions of many sites have been improved over recent years, increasing breeding success. The species may also benefit from climate change. However, human disturbance, particularly of hibernation sites, may be damaging. Changes to agricultural practice may also reduce prey availability. Lesser horseshoe bats are vulnerable to road vehicle collisions, and are adversely affected by artificial night lighting.





## Ystlum barfog

### Whiskered bat

*Myotis mystacinus*

#### Cynhenid Native

##### Statws cadwraeth Conservation status

Mae'r map yn nodi dosbarthiad cyfunol ystlumod barfog, Alcathoe a Brandt, gan nad yw'n bosibl gwahanu cofnodiion ar gyfer pob un o'r rhywogaethau.

Maps present the combined distribution of whiskered, Alcathoe and Brandt's bats, because it is not possible to separate records for each of the species.



##### Rhagolygon Prospects

##### Anhysbys Unknown

##### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



##### Poblogaeth Population

##### Amherthnasol Not applicable



##### Gwasgariad Range

**20,488 km<sup>2</sup>**



Mae ystlumod barfog, Alcathoe a Brandt (WABs) yn rhywogaethau cryptig, sy'n debyg o ran morffoleg, patrwm hedfan a chynefin. Ac eto dim ond o bell y mae ystlumod barfog a Brandt yn perthyn. Mae eu galwadau ecoleoliad hefyd yn debyg, sy'n golygu ei bod yn anodd eu gwahaniaethu mewn arolygon canfod ystlumod. Er ei bod yn debygol fod ystlumod barfog a Brandt yn gyffredin iawn yng Nghymru, nid yw WABs wedi'u hastudio'n ddigonol, yn rhannol oherwydd y tebygolrwydd uchel o'u camadnabod. Ni nodwyd ystlum Alcathoe yng Nghymru eto.

Mae ystlumod barfog yn bwyta gwyfynod a phryfed bach yn bennaf, sy'n cael eu dal a'u bwyta wrth hedfan. Mae pryd cop hefyd yn cael eu bwyta oddi ar lystyfiant. Maent yn dangos ffafriaeth i goetir, glaswelltir, gwrychoedd a gwlyptiroedd, ond mae cynefinoedd trefol ac âr yn tueddu i gael eu hosgoi. Mae'r rhan fwyaf o glwydfannau mamolaeth hysbys mewn adeiladau, ond mae'r rhywogaeth hefyd yn defnyddio coed a blychau ystlumod. Mae safleoedd gaeafgysgu yn cynnwys twnelau tanddaearol, tai rheu acofeydd.

**Ni ellid gwneud unrhyw amcangyfrif poblogaeth yn Adolygiad 2018 oherwydd y diffyg data dibynadwy, a dosberthir y rhywogaeth yn ddiffygol o ran data.**

#### Bygythiadau

Nid oes unrhyw wybodaeth benodol ar gael am fygythiadau ym Mhrydain. Fodd bynnag, fel ystlumod Brandt, maent yn debygol o gael eu heffeithio'n andwyol gan oleuadau artiffisial yn ystod y nos, a chan golled cynefin.



Llun • Photo: Sam Dyer

Whiskered, Alcathoe and Brandt's bats (WABs) are cryptic species, similar in morphology, flight pattern and habitat. Yet whiskered and Brandt's bats are only distantly related. Their echolocation calls are also similar, which means they are difficult to distinguish in bat detector surveys. Although it is likely that whiskered and Brandt's bats are widespread within Wales, WABs are understudied, partly because of the high probability of misidentification. The Alcathoe bat has not yet been identified in Wales.

Whiskered bats feed mainly on small moths and flies, which are caught and eaten on the wing. Spiders are also gleaned off vegetation. They show a preference for woodlands, grasslands, hedgerows, and wetlands, whereas urban and arable habitats tend to be avoided. Most known maternity roosts are in buildings, but the species also uses trees and bat boxes. Hibernation sites include underground tunnels, ice houses and caves.

**No population estimate could be made in the 2018 Review because of the lack of reliable data, and the species is classed as data deficient.**

#### Threats

No specific information is available on threats in Britain. However, like Brandt's bats, they are likely to be adversely affected by artificial night lighting, and by habitat loss.



## Ystlum Brandt

### Brandt's bat

*Myotis brandtii*

#### Cynhenid Native

##### Statws cadwraeth Conservation status

Mae'r map yn nodi dosbarthiad cyfunol ystlumod barfog, Alcathoe a Brandt, gan nad yw'n bosibl gwahanu cofnodiion ar gyfer pob un o'r rhywogaethau.

*Map presents the combined distribution of whiskered, Alcathoe and Brandt's bats, because it is not possible to separate records for each of the species.*



##### Rhagolygon Prospects

##### Anhysbys Unknown

##### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



##### Poblogaeth Population

##### Amherthnasol Not applicable



##### Gwasgariad Range

**20,488 km<sup>2</sup>**



Mae ystlumod Brandt, Alcathoe a barfog (WABs) yn rhywogaethau cryptig, sy'n debyg o ran morffoleg, patrwm hedfan a chynefin. Ac eto dim ond o bell y mae ystlumod barfog a Brandt yn perthyn. Mae eu galwadau ecoleoliad hefyd yn debyg, sy'n golygu ei bod yn anodd eu gwahaniaethu mewn arolygon canfod ystlumod. Er ei bod yn debygol fod ystlumod barfog a Brandt yn gyffredin iawn yng Nghymru, nid yw WABs wedi'u hastudio'n ddigonol, yn rhannol oherwydd y tebygolrwydd uchel o'u camadnabod. Ni nodwyd ystlum Alcathoe yng Nghymru eto.

Mae ystlumod Brandt yn bwyta pryd, gan gynnwys gwybed, adenydd siderog a gwyfynod. Mae pryd cop hefyd yn cael eu bwyta oddi ar lystyfiant. Maent yn gysylltiedig â choetiroedd, a gellir eu canfod yn fforio am fwyd ar hyd gwrychoedd a llinellau coed tal hefyd, yn enwedig mewn ardaloedd gwlyb. Mae'r rhan fwyaf o glwydfannau mamolaeth hysbys mewn adeiladau, er y gellir eu canfod weithiau mewn coed, pontydd a blychau ystlumod. Mae safleoedd gaeafgysgu yn cynnwys twnelau tanddaearol, tai rheu ac ogofeydd. Mae'r rhywogaeth yn gaeafgysgu am fwy o amser nag ystlumod barfog.

**Ni ellid gwneud unrhyw amcangyfrif poblogaeth yn Adolygiad 2018 oherwydd y diffyg data dibynadwy.**

#### Bygythiadau

Nid oes unrhyw wybodaeth benodol ar gael am fygythiadau ym Mhrydain. Fodd bynnag, maent yn debygol o gael eu heffeithio'n andwyol gan oleuadau artiffisial yn ystod y nos, a chan golled cynefin.



Llun • Photo: Daniel Hargreaves

Brandt's, Alcathoe and whiskered bats (WABs) are cryptic species, similar in morphology, flight pattern and habitat. Yet whiskered and Brandt's bats are only distantly related. Their echolocation calls are also similar, which means they are difficult to distinguish in bat detector surveys. Although whiskered and Brandt's bats are likely to be widespread within Wales, WABs are understudied, partly because of the high probability of misidentification. The Alcathoe bat has not yet been identified in Wales.

Brandt's bats feed on flies, including midges, lacewings and moths. Spiders are also gleaned off vegetation. They are associated with woodlands, and are also found foraging along tall hedgerows and tree-lines, particularly in wet areas. Most known maternity roosts are in buildings, although they are sometimes found in trees, bridges and bat boxes. Hibernation sites include underground tunnels, ice houses and caves. The species hibernates for longer than whiskered bats.

**No population estimate could be made in the 2018 Review because of the lack of reliable data.**

#### Threats

No specific information is available on threats in Britain. However, they are likely to be adversely affected by artificial night lighting, and by habitat loss.



## Ystlum Bechstein

### Bechstein's bat

*Myotis bechsteinii*

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

#### Anhysbys Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

250

Data yn  
ddiffygol  
Data deficient

Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

155 km<sup>2</sup>

Data yn  
ddiffygol  
Data deficient

Tuedd  
Trend



Mae ystlumod Bechstein yn fforio am fwyd mewn coetir llydanddail ac yn gyfagos yn bennaf, ond maent hefyd yn defnyddio gwrychoedd mawr a choridorau dyfrffordd coediog. Maent yn bwyta gwyfynod a phryfed coetir yn bennaf. Yn ogystal â dal prydwr wrth hedfan gan ddefnyddio ecoleoliad, gallant hefyd fwyta yn eu clwydfannau, gan wrando'n oddefol am wyfynod ar bellter agos. Mae clwydfannau mamolaeth wedi'u lleoli mewn tyllau chnocelod y coed neu bydredd mewn coed llydanddail fel rheol. Mae safleoedd gaeafgysgu yn cynnwys twnelau, ogofeydd a thyllau coed.

**Nid ystyriwyd bod unrhyw ystlumod Bechstein yn bresennol yng Nghymru ar adeg Adolygiad 1995, ond mae'n annhebygol mai dyma'r achos mewn gwirionedd. Yn Lloegr yn ystod yr un adeg, dim ond nifer fach o unigolion oedd yn hysbys, ond datgelodd technegau arolygu newydd boblogaethau llawer mwy helaeth. Darganfuwyd cytref mamolaeth unigol ar ffin Cymru yn ddiweddar, ond mae'r rhan fwyaf o gofnodion eraill o unigolion ar eu pen eu hunain. Mae astudiaeth wrthi'n cael ei chynnal i gynnig rhagor o wybodaeth am faint a gwasgariad y boblogaeth yng Nghymru.**

#### Bygythiadau

Mae gan ystlumod Bechstein allu cyfyngedig i wasgaru. Mae darnio cynefinoedd coetir gan ffyrdd a datblygiad trefol yn fygythiad pwysig felly. Nid ydynt yn hoff o olau, felly maent yn cael eu heffeithio'n andwyol gan gynnydd i oleuadu artifisiai yn ystod y nos. Mae diffyg gwybodaeth fanwl am leoliad y rhywogaeth yn peri pryder sylweddol yng Nghymru gan y gallai safleoedd clwydo a chytrefi gael eu colli trwy weithrediadau rheoli coetir cyn darganfod eu bod yn bresennol.



Bechstein's bats primarily forage in and around broadleaved woodland, but also use large hedgerows and wooded waterway corridors. They feed mainly on moths and woodland flies. As well as catching insects on the wing using echolocation, they can also perch-feed, listening passively for moths at close range. Maternity roosts are usually located in woodpecker or rot holes in broadleaved trees. Hibernation sites include tunnels, caves and tree holes.

**No Bechstein's bats were considered to be present in Wales at the time of the 1995 Review, however this is unlikely to have been the case. In England at the same time only a small number of individuals were known, but the introduction of new survey techniques revealed much more extensive populations. A single maternity colony on the Welsh border has recently been discovered, but most other records are of solitary individuals. A study is currently being undertaken to provide further information on the population size and range in Wales.**

#### Threats

Bechstein's bats have very limited capacity to disperse. The fragmentation of woodland habitats by roads and urban development is therefore an important threat. They are light-shy, so are adversely affected by increases in artificial night lighting. Lack of detailed knowledge of where the species is located is a significant concern in Wales as roost sites and colonies may be lost through woodland management operations before their presence is determined.



## Ystlum y dŵr Daubenton's bat

*Myotis daubentonii*

### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

#### Anhysbys Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

**108,000**

Data yn  
ddiffygiol  
**Data deficient**

Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

**20,377 km<sup>2</sup>**



Tuedd  
Trend

Mae ystlumod y dŵr yn ffafrio dyfrffyrdd mawr â choed cyfagos. Maent yn ysglyfaethu rhywogaethau â chyfnodau maceiol dyfrol yn bennaf, fel gwybed a phryfed gwelit, gan gymryd pryfed o wyneb y dŵr â'u traed mawr neu eu cegau. Caiff pryfed eu dal pan fyddant yn hedfan hefyd. Mae clwydfannau mamolaeth wedi'u lleoli mewn coed coetir llydanddail fel rheol, ond defnyddir blychau ystlumod, adeiladau, pontydd ac adeileddau artifisiai eraill hefyd. Mae safleoedd gaeafgysgu yn cynnwys twnelau, ogofeydd ac weithiau tyllau coed.

Er ei bod yn hysbys fod y rhywogaeth yn gyffredin yng Nghymru, cymharol brin yw'r clwydfannau mamolaeth sy'n hysbys.

Mae'r amcangyfrif poblogaeth canolog yn uwch na'r hyn a adroddwyd yn *Adolygiad 1995*. Fodd bynnag, mae'r cyfyngau hyder ar gyfer yr amcangyfrif yn arbennig o eang, oherwydd y diffyg gwybodaeth gadarn am ddwysedd cytrefi mamolaeth, ac roedd dibynadwyedd yr amcangyfrif cynharach yn wael. **Nid yw'n bosibl felly dod i unrhyw gasgliadau yngylch tueddiadau amser ar gyfer y rhywogaeth hon ac fe'i dosberthir yn ddiffygiol o ran data.**

#### Bygythiadau

Nid yw ystlumod y dŵr yn hoff o olau, felly maent yn cael eu heffeithio'n andwyol gan gynnydd i oleuadau artifisiai yn ystod y nos. Gallai newidiadau i ansawdd dŵr effeithio ar helaethrwydd eu hysglyfaeth hefyd.

Daubenton's bats have a preference for large waterways with nearby trees. They prey mainly on species with aquatic larval stages, such as midges and caddisflies, taking insects from the surface of the water with their large feet or mouths. Insects are also caught in flight. Maternity roosts are usually located in broadleaved woodland trees, but bat boxes, buildings, bridges and other artificial structures are also used. Hibernation sites include tunnels, caves, and occasionally tree holes.

Whilst the species is known to be widespread within Wales, relatively few maternity roosts are known.

The central population estimate is higher than that reported in the *1995 Review*. However, the confidence intervals for the estimate are extremely wide, owing to the lack of robust information on maternity colony density, and reliability of the earlier estimate was poor. **It is therefore not possible to infer time-trends for this species and it is classed as data deficient.**

#### Threats

Daubenton's bats are light-shy, so they are adversely affected by increases in artificial night lighting. Changes to water quality could also affect prey abundance.



Llun • Photo: Sam Dyer





## Ystlum Natterer Natterer's bat

*Myotis nattereri*

### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

#### Anhysbys Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

52,000

Data yn  
ddiffygiol  
*Data deficient*

Tuedd  
*Trend*

#### Gwasgariad Range

20,611 km<sup>2</sup>

Data yn  
ddiffygiol  
*Data deficient*

Tuedd  
*Trend*



Mae gan ystlumod Natterer gysylltiad cryf â choetir llydanddail, ond maent hefyd yn defnyddio coed a gwrychoedd mewn manau eraill. Pryfed, a chlér y dom a gwybed mân yn arbennig, yw eu deiet yn bennaf, a byddant hefyd yn bwyta pryd fed a phryfed cop oddi ar lystyfiant. Yn wahanol i ystlumod hirglust, y maent yn rhannu eu cynefin â nhw, mae nifer y gwyfynod y mae ystlumod Natterer yn eu bwyta yn gymharol isel. Mae'r rhan fwyaf o glwydfannau mamolaeth wedi'u lleoli mewn coed, blychau ystlumod ac adeiladau sy'n agos at goetiroedd. Defnyddir safleoedd tanddaearol ar gyfer gaeafgysgu.

Mae'r amcangyfrif poblogaeth ar gyfer Cymru o *Adolygiad 2018* yn uwch na'r hyn a adroddwyd yn *Adolygiad 1995*. Fodd bynnag, roedd yr amcangyfrif cynharach yn arbennig o annibynadwy, mae'r cyfyngau hyder sy'n gysylltiedig â'r amcangyfrif poblogaeth presennol yn hynod eang, a chafwyd y rhan fwyaf o'r wybodaeth o glwydfannau mewn adeiladau, efallai nad yw'n berthnasol i gytrefi sy'n clwydo mewn coed. **Nid yw'n bosibl felly dod i unrhyw gasgliadau yngylch tueddiadau amser a dosberthir y rhywogaeth yn ddiffygiol o ran data.**

### Bygythiadau

Mae llechfendant trefol ar ardaloedd gwledig wedi lleihau'r bwyd ffrio a'r lleoliadau ar gyfer clwydfannau sydd ar gael. Nid yw ystlumod Natterer yn hoff o olau, felly maent yn cael eu heffeithio'n andwyol gan gynnydd i oleuadau artifisiai yn ystod y nos. Mae troi adeiladau gwledig yn llety hefyd wedi lleihau addaswydd clwydfannau. Mae nifer clér y dom, sy'n rhywogaeth ysglyfaeth allweddol, sydd ar gael yn cael ei lleihau gan y weithred o roi asiantau gwrth-barasitig ar wartheg.



Llun • Photo: Steven Roe

Natterer's bats are strongly associated with broadleaved woodland, but also make use of trees and hedgerows elsewhere. Their diet is mainly formed of flies, particularly dung flies and midges, and they will also glean insects and spiders from vegetation. In contrast with brown long-eared bats, with which they share their habitat, Natterer's bats consume relatively few moths. Most maternity roosts are located in trees, bat boxes and buildings that are close to woodlands. Underground sites are used for hibernation.

The population estimate for Wales from the *2018 Review* is higher than that reported in the *1995 Review*. However, the earlier estimate was extremely unreliable, the confidence intervals around the current population estimate are extremely wide, and most information was derived from roosts in buildings, which may not be applicable to tree-roosting colonies.

**No conclusion about time-trends can therefore be drawn and the species is classed as data deficient.**

### Threats

Urban encroachment into rural areas has reduced the availability of foraging and roost locations. Natterer's bats are light-shy, so they are adversely affected by artificial night lighting. Conversion of rural buildings into accommodation has also reduced roost suitability. The availability of dung flies, which are a key prey species, is reduced by the administration of anti-parasitic agents to cattle.



## Ystlum adain-lydan

### Serotine bat

*Eptesicus serotinus*

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

#### Anhysbys Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

18,700

Data yn  
ddifygiol  
*Data deficient*


Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

12,499 km<sup>2</sup>

Data yn  
ddifygiol  
*Data deficient*

Tuedd  
Trend



Llun • Photo: Sam Dyer

Cysylltir ystlumod adain-lydan â thir pori a thir parc, lle maent yn bwyta chwilog mawr a gwifynod. Caiff pryfed eu bwyta yn gynnar yn y tymor hefyd. Caiff ysglyfaeth ei dal a'i bwyta wrth hedfan fel rheol, ond gall ystlumod adain-lydan ddal ysglyfaeth o'r ddaear hefyd. Mae clwydfannau mamolaeth bron i gyd wedi'u lleoli mewn adeiladau. Mae'r rhain wedi'u lleoli yn agos at goetir llydanddail, dŵr, tir pori a glaswelltir wedi'i wella fel rheol. Prin yw'r wybodaeth am arferion gaeafgysgu ystlumod adain-lydan: yn achlysurol iawn gellir dod o hyd iddynt mewn safleoedd tanddaearol.

Er ei bod yn ymddangos bod y rhywogaeth hon wedi'i gwasgaru'n gymharol eang yn ddaearyddol, fe'i dosberthir fel ystlum prin yng Nghymru. Mae hefyd yn debygol ei fod wedi'i dangofnodi oherwydd anawsterau yn gwahaniaethu ei alwadau o alwadau'ystlum mawr mwy cyffredin.

Mae'r amcangyfrif poblogaeth ar gyfer Cymru yn *Adolygiad 2018* yn sylweddol uwch nag yn *Adolygiad 1995*. Fodd bynnag, roedd yr amcangyfrif cynharach yn arbennig o annibynadwy. **Nid yw'n bosibl felly dod i unrhyw gasgliadau a dosberthir y rhywogaeth yn ddifygiol o ran data.**

#### Bygythiadau

Mae ystlumod adain-lydan yn hynod ddibynol ar glwydfannau mewn adeiladau, felly mae mwy o ddiogelwch cyfreithiol wedi bod o fudd i'r boblogaeth. Fodd bynnag, gall addasiadau i ddyluniad adeiladau, yn enwedig defnyddio croen toi anadladwy, wneud adeiladau yn llai addas. Mae dwysáu amaethyddol a'r defnydd o gyffuriau gwrth-barasitig wedi lleihau'r ysglyfaeth sydd ar gael. Mae ystlumod adain-lydan yn agored i gyfradd farwolaeth uchel ymhliith ystlumod ifanc mewn amodau tywydd gwael, felly gallai'r boblogaeth gael ei heffeithio'n andwyol gan amrywiadau tywydd a achosir gan y newid yn yr hinsawdd.

Serotine bats are associated with pasture and parkland, where they feed on large beetles and moths. Flies are also taken early in the season. Prey is usually captured and eaten in flight, but serotine bats can also catch prey from the ground. Maternity roosts are almost exclusively located in buildings. These are usually situated close to broadleaved woodland, water, pasture and improved grassland. Little is known about the hibernation of serotine bats: they are very occasionally found in underground sites.

Although this species appears to be relatively widespread geographically, it is classed as a rare bat in Wales. It is also likely to be under-recorded due to difficulties separating its calls from the more common noctule bat.

The population estimate for Wales in the *2018 Review* is substantially higher than that in the *1995 Review*. However, the earlier estimate was extremely unreliable. **No conclusion about time-trends can therefore be drawn and the species is classed as data deficient.**

#### Threats

Serotine bats are highly dependent on building roosts, so increased legal protection has benefited the population. However, alterations to building design, especially the use of breathable roofing membranes, can make buildings less suitable. Agricultural intensification and the use of anti-parasitic drugs have reduced prey availability. Serotine bats are susceptible to high juvenile mortality in poor weather conditions, so the population may be adversely affected by weather fluctuations caused by climate change.



## Ystlum Leisler

### Leisler's bat

*Nyctalus leisleri*

#### Cynhenid

#### Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

#### Anhysbys Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

#### Amherthnasol Not applicable

#### Data yn ddifygiol Data deficient

#### Gwasgariad Range

**6,739 km<sup>2</sup>**

#### Data yn ddifygiol Data deficient



Yn hanesyddol, ni chadarnhawyd presenoldeb ystlumod Leisler yng Nghymru, o naill ai dal ystlumod byw neu adnabod rhywogaethau yn enetig o dail. Fodd bynnag, yn ystod astudiaethau diweddar, daliwyd benywod sy'n oedolion ac ystlumod ifanc yn Sir Fynwy, sy'n awgrymu bod poblogaethau briddio yng Nghymru. Ceir tebygolrwydd uchel o ddrysiau galwadau acwstig y rhywogaeth hon – a oedd yn sail i'r map hwn – a rhai ystlumod adain-lydan a mawr, felly gallai'r dosbarthiad fod yn annibyniadwy.

*Historically, the presence of Leisler's bats has not been confirmed in Wales, from either the capture of live bats or from the genetic identification of species from droppings. However, during recent studies, both adult females and juvenile bats have been caught within Monmouthshire, suggesting breeding populations within Wales. There is a high probability of confusion of acoustic calls of this species – which formed the basis of this map – with those of noctule and serotine bats, so the distribution may be unreliable.*

Mae ystlumod Leisler yn fforio am fwyd dros diroedd pori, ond hefyd yn defnyddio ymylon coetiroedd, gwrychoedd a llinellau coed. Mae'r anifeiliaid hyn sy'n hedfan yn gyflym yn gallu symud pellter hir ac yn bwyta wrth hedfan yn nodwediadol. Pryfed bach a chanolig eu maint yw eu deiet yn bennaf, gan gynnwys clêr y dom, gwylfynod a chwilog, ond ceir amrywiadau rhanbarthol sylweddol. Ystlumod Leisler yw un o'r ychydig rhywogaethau a allai fanteisio ar gynulliadau pryfed sy'n casglu o gwmpas goleuadau stryd yn y nos.

Ym Mhrydain Fawr, mae'r rhan fwyaf o glwydfannau mamolaeth mewn adeiladau, ond maent yn byw mewn coed yn bennaf mewn mannau eraill yn Ewrop. Maent hefyd yn defnyddio blychau ystlumod, yn enwedig y tu allan i'r cyfnod mamolaeth. Prin yw'r wybodaeth am eu hymddygiad gaeafgysgu.

**Fe wnaeth diffyg tystiolaeth atal amcangyfrif poblogaeth ar gyfer y rhywogaeth hon ac nid yw ei thuедdiadau poblogaeth yn hysbys.**

#### Bygythiadau

Prin yw'r wybodaeth am y rhywogaeth hon. Disgwylir iddynt fod mewn perygl o golli cynefin fforio, ac o effaith negyddol cyffuriau gwrth-barasitig ar gyfer da byw ar y chwilog y dom a'r pryfed sydd ar gael.



Leisler's bats forage over pastures, but also make use of woodland edges, hedgerows, and tree-lines. These fast-flying animals are capable of long-distance movements and typically feed on the wing. Their diet is mainly comprised of small and medium-sized insects, including dung flies, moths and beetles, but there is considerable regional variation. Leisler's bats are one of the few species that may be able to exploit congregations of insects that form around streetlights at night.

In Great Britain, most known maternity roosts are in buildings, whereas elsewhere in Europe they are predominantly tree-dwelling. They also use bat boxes, particularly outside the maternity period. Little is known about their hibernation behaviour.

**A lack of evidence prevented the calculation of a population estimate for this species, and its population trends are unknown.**

#### Threats

Little is known about this species. They are expected to be at risk from foraging habitat loss, and from the negative impact of anti-parasitic drugs for livestock on dung beetle and fly availability.



## Ystlum mawr

### Noctule bat

*Nyctalus noctula*

Cynhenid  
Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



Rhagolygon  
Prospects

Anhysbys  
Unknown

Sgôr dibynadwyedd  
Reliability score



Poblogaeth  
Population

91,900

Data yn  
ddifygiol  
Data deficient

Tuedd  
Trend

Gwasgariad  
Range

20,627 km<sup>2</sup>

Data yn  
ddifygiol  
Data deficient

Tuedd  
Trend

Mae ystlumod mawr yn gysylltiedig â choetir llydanddail a thir pori ond maent yn rhywogaeth sy'n hedfan yn gyflym, gan wasgaru'n eang, a gellir eu cofnodi yn hedfan ym mhobman bron. Maent yn bwyta chwilog mawr, gwyfynod a phryfed bach. Mae clwydfannau'r haf fel rheol wedi'u lleoli mewn holtau a thyllau mewn coed llydanddail neu ffynidwydd. Defnyddir blychau ystlumod, ac adeiladau weithiau, hefyd. Nid oes llawer o wybodaeth am arferion gaeafgysgu'r rhywogaeth hon, ond tybir bod tyllau coed yn cael eu defnyddio.

Er gwaethaf y ffaith ei bod yn rhywogaeth gyffredin yng Nghymru yn ddaearyddol, cymharol brin yw'r clwydfannau sy'n hysbys ac yn cael eu monitro. Mae'r amcangyfrif presennol o faint y boblogaeth yn llawer iawn mwy na'r un yn **Adolygiad 1995**. Serch hynny, mae'r amcangyfrif cynharach o fewn cyfyngiadau tebygol yr un newydd. Mae arolwg maes y Rhaglen Monitro Ystlumod Genedlaethol ar gyfer y rhywogaeth hon wedi awgrymu na fu unrhyw newid i weithgarwch cymharol ers 1998 ond ceir y potential o'i chymysgu ag ystlumod Leisler ac adain-lydan. **Ni ellir dod i unrhyw gasgliadau am duddiadau poblogaeth felly a dosberthir y rhywogaeth yn ddifygiol o ran data.**

### Bygythiadau

Dyma un o'r prif rywogaethau sy'n cael eu lladd mewn tyrbinau gwynt, er ei bod yn dal i fod yn aneglur a yw nifer y marwolaethau yn bwysig ar lefel y boblogaeth.



Noctule bats are associated with broadleaved woodland and pasture, but they are a fast flying species that disperse widely and can be recorded in flight almost anywhere. They feed on large beetles, moths and small flies. Summer roosts are usually located in splits and holes in broadleaved trees or Scots pine. Bat boxes, and sometimes buildings, are also used. The hibernation preferences of this species are not well known, but it is assumed tree holes are used.

Despite being a geographically widespread species in Wales, relatively few roosts are known and monitored. The current population size estimate is very much greater than the one in the **1995 Review**. Nevertheless, the earlier estimate falls within the plausible limits of the new one. The National Bat Monitoring Programme's field survey for this species has suggested that there has been no change in relative activity since 1998, but there is potential for confusion with Leisler's and serotine bats.

**No firm conclusions can therefore be drawn about population trends and the species is classed as data deficient.**

### Threats

This is one of the primary species killed at wind turbines, although it is still unclear whether the scale of the fatalities is important at the population level.





## Ystlum lleiaf cyffredin

### Common pipistrelle bat

Pipistrellus pipistrellus

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

#### Anhysbys Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

**297,000**

Data yn  
ddifygiol  
**Data deficient**

Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

**20,601 km<sup>2</sup>**

Data yn  
ddifygiol  
**Data deficient**

Tuedd  
Trend



Dim ond yn 1997 y gwahaniaethwyd rhwng ystlumod lleiaf cyffredin ac ystlumod lleiaf soprano fel rhywogaethau gwahanol. Mae ganddynt alwadau ecoleoliad sydd ychydig yn wahanol, ond maent yn rhannu llawer o nodweddion. Mae gan ystlumod lleiaf cyffredin wasgariad daearyddol eang iawn yng Nghymru, ac maent i'w gweld ym mron pob cynefin, o laswelltir i amgylcheddau trefol a maestrefol. Maent yn bwydo ar bryfed yn bennaf, ac yn aml yn fforio am fwyd dros dir pori. Maent fel rheol yn clwydo mewn adeiladau, ond ceir hefyd achosion ohonynt yn defnyddio blychau ystlumod ac, yn anghyffredin iawn, coed. Nid yw'n glir ble mae'r mwyafrif o'r boblogaeth yn gaeafgysgu. Yn eironig braidd, mae ystlumod lleiaf cyffredin yn debygol o fod yn llai eu nifer yng Nghymru nag ystlumod lleiaf soprano.

**Ni ellid gwneud cymhariaeth rhwng Adolygiad 2018 ac Adolygiad 1995, gan nad oedd yr olaf yn gwahaniaethu rhwng ystlumod lleiaf cyffredin ac ystlumod lleiaf soprano.** Cofnodwyd cynnydd sylweddol yng ngweithgarwch safleoedd maes yn y Rhaglen Monitro Ystlumod Genedlaethol, ond gostyngiad sylweddol yn niferoedd y clwydfannau, ers 1997.

#### Bygythiadau

Mae gwarchodaeth ddeddfwriaethol ar gyfer clwydfannau wedi helpu i ddiogelu safleoedd mamolaeth rhag cael eu colli yn ystod gwaith datblygu. Fodd bynnag, efallai fod defnydd pilenni toi anadlol, ac addasiadau eraill i adeiladau, wedi lleihau addaswydd thermol clwydfannau. Ceir rhai o'r cyfraddau marwolaeth uchaf ymhliith y rhywogaeth hon o ganlyniad i ysglyfaethu gan gathod, gwrthdrawiadau â cherbydau a gwrthdrawiadau â thyrbinau gwynt. Nid yw'n hysbys a oes gan y marwolaethau hyn oblygiadau ar lefel y boblogaeth.

Common and soprano pipistrelle bats were only distinguished as separate species in 1997. They have slightly different echolocation calls, but share many characteristics. Common pipistrelle bats are extremely widespread geographically within Wales, and are found in almost all habitats, from grasslands to urban and suburban environments. They feed mainly on flies, and frequently forage over pasture. They typically roost in buildings, but are also known to use bat boxes and, very rarely, trees. It is unclear where most of the population hibernates. Ironically, the common pipistrelle is likely to be less numerous than the soprano pipistrelle in Wales.

#### No comparison could be made between the 2018 Review and the 1995 Review, because the latter did not distinguish common and soprano pipistrelle bats.

The National Bat Monitoring Programme has recorded a significant increase in field site activity, but a significant decrease in roost counts, since 1997.

#### Threats

Legislative protection of roosts has helped to protect maternity sites from loss during development. However, the use of breathable roofing membranes, and other alterations to buildings, may have lowered the thermal suitability of roosts. The species has some of the highest casualty rates from cat predation, vehicle collisions and wind turbine collisions. It is not known whether these deaths have population-level implications.



## Ystlum lleiaf soprano

### Soprano pipistrelle bat

Pipistrellus pygmaeus

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

#### Anhysbys Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

**478,000**

Data yn  
ddiffygol  
*Data deficient*

Tuedd  
*Trend*

#### Gwasgariad Range

**20,643 km<sup>2</sup>**

Data yn  
ddiffygol  
*Data deficient*

Tuedd  
*Trend*

Dim ond yn 1997 y gwahaniaethwyd rhwng ystlumod lleiaf cyffredin ac ystlumod lleiaf soprano fel rhywogaethau gwahanol. Mae ganddynt alwadau ecoleoliad sydd ychydig yn wahanol, ond maent yn rhannu llawer o nodweddion. Mae gan ystlumod lleiaf soprano wasgariad daearyddol eang iawn yng Nghymru, ac maent i'w gweld ym mron pob cynefin, o laswelltir i amgylcheddau trefol a maestrefol. Ceir achosion cyffredin ohonynt yn gwneud defnydd arbennig o gynefin torlannol hefyd. Maent yn bwydo ar bryfed, yn arbennig rhywogaethau sydd â ffurfiâu maceiol dyfrol. Maent fel rheol yn clwydo mewn adeiladau, yn arbennig ardaloedd sy'n agos at ddyfrffyrrdd, ond maent yn defnyddio blychau ystlumod ac, yn llai cyffredin, coed. Nid yw'n glir ble mae'r mwyafri o'r boblogaeth yn gaeafgysgu.

#### Ni ellid gwneud cymhariaeth rhwng

**Adolygiad 2018 ac Adolygiad 1995, gan nad oedd yr olaf yn gwahaniaethu rhwng ystlumod lleiaf cyffredin ac ystlumod lleiaf soprano.**

Cofnodwyd cynnydd sylweddol yngweithgarwch safleoedd maes yn y Rhaglen Monitro Ystlumod Genedlaethol, ond gostyngiad sylweddol yn niferoedd y clwydfannau, ers 1997.

#### Bygythiadau

Ceir rhai o'r cyfraddau marwolaeth uchaf ymhliith y rhywogaeth hon o ganlyniad i ysglyfaethu gan gathod, gwrthdrawiadau â cherbydau a gwrthdrawiadau â thyrbinau gwynt. Nid yw'n hysbys a oes gan y marwolaethau hyn oblygiadau ar lefel y boblogaeth. Efallai fod defnydd pilenni toi anadol, ac addasiadau eraill i adeiladau, wedi lleihau addasrwydd thermol clwydfannau.



Common and soprano pipistrelle bats were only distinguished as separate species in 1997. They have slightly different echolocation calls, but share many characteristics. Soprano pipistrelle bats are extremely widespread geographically within Wales, and are found in almost all habitats, from grasslands to urban and suburban environments. They are also frequently reported to make particular use of riparian habitat. They prey on flies, particularly species with aquatic larval stages. They typically roost in buildings, particularly in areas close to waterways, but use bat boxes and, more rarely, trees. It is unclear where most of the population hibernates.

#### No comparison could be made between the 2018 Review and the 1995 Review, because the latter did not distinguish common and soprano pipistrelle bats.

The National Bat Monitoring Programme has recorded a significant increase in field site activity but a significant decrease in roost counts since 1997.

#### Threats

The species has some of the highest casualty rates from cat predation, vehicle collisions and wind turbine collisions. It is not known whether these deaths have population-level implications. The use of breathable roofing membranes, and other alterations to buildings, may have lowered the thermal suitability of roosts.





## Ystlum lleiaf Natusius *Nathusius' pipistrelle bat* Pipistrellus nathusii

### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

#### Anhysbys Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

#### Amherthnasol Not applicable



#### Gwasgariad Range

**6,921 km<sup>2</sup>**



Bach iawn y gwyddom am ystlumod lleiaf Natusius yng Nghymru, nac ym Mhrydain Fawr yn ei chyfanwydd. Hyd nes yn ddiweddar, ystyriwyd bod y rhywogaeth yn grwydryn. Caiff y rhywogaeth ei chysylltu â dŵr, ac mae'r rhan fwyaf o gofnodion yn dod o ardaloedd sydd o fewn ychydig gilometrau o lynnoedd dŵr croyw mawr neu aberoedd afonydd. Dim ond pum clwydfan famolaeth a nodwyd ym Mhrydain, ac nid oes yr un ohonynt yng Nghymru.

#### Oherwydd prinder yn y dystiolaeth, nid oedd modd cyfrifo amcangyfrif poblogaeth ar gyfer y rhywogaeth hon yn Adolygiad

**2018.** Mae nifer y cofnodion acwstig ar gyfer y rhywogaeth hon wedi cynyddu'n gyflym dros y degawd diwethaf, yn rhannol oherwydd cynnydd mewn gwaith arolygu, ac yn rhannol oherwydd gwelliannau technolegol mewn synwyryddion ystlumod. Mae graddfa'r newid yn awgrymu bod rhywfaint o gynnydd gwirioneddol yn y boblogaeth yn debygol, ond ar hyn o bryd dosberthir y rhywogaeth yn ddiffygol o ran data. Mae prosiectau dan arweinyddiaeth grwpiau ystlum gwirfoddol ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd er mwyn casglu data ar ddosbarthiad a statws.

#### Bygythiadau

Credir bod y newid yn yr hinsawdd yn debygol o fod wedi cyfrannu at y niferoedd cynyddol o ystlumod lleiaf Natusius a gofnodwyd ym Mhrydain. Mae'r rhywogaeth dan berygl uchel rhag gwrthdrawiadau â thyrbinau gwynt, ac mae datblygiadau ar y môr ar hyd ei llwybrau mudol yn bryder arbennig.



Very little is known about Natusius' pipistrelle bats in Wales, or in Great Britain as a whole. Until recently, the species was considered to be a vagrant. The species is associated with water, and most records come from within a few kilometres of large freshwater lakes or river estuaries. Only five maternity roosts have been identified in Great Britain, none of which is in Wales.

#### A lack of evidence prevented the calculation of a population estimate for this species

**in the 2018 Review.** The number of acoustic records for this species has increased rapidly over the past decade, partly owing to increased survey effort, and partly because of technological improvements in bat detectors. The scale of the change is such that some genuine population increase is likely, but at present the species is classed as data deficient. Projects led by voluntary bat groups are currently being undertaken in Wales to gather data on distribution and status.

#### Threats

Climate change is thought likely to have contributed to the increasing numbers of Natusius' pipistrelle bats recorded in Britain. The species is at high risk from collision with wind turbines, with offshore developments along its migratory routes being a particular concern.



## Ystlum du Barbastelle bat

*Barbastella barbastellus*

### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

#### Anhysbys Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

#### Amherthnasol Not applicable



#### Gwasgariad Range

**6,386 km<sup>2</sup>**



Mae ystlumod du yn arbenigwyr mewn bwydo ar wyfynod, gan fforio am fwyd mewn coetiroedd llydanddail ac ar hyd dyfrffyrrd yn bennaf. Mae glaswelltir heb ei wella, ymylon caeau a gwrychoedd hefyd yn gynefinoedd pwysig, ac mae'n debygol fod tirwedd Cymru'n ffafriol i'r rhywogaeth hon. Dim ond yn 1997 y nodwyd y cytrefi mamolaeth cyntaf ym Mhrydain Fawr, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt mewn tyllau coed. Mae'r rhywogaeth hefyd yn gwneud defnydd achlysurol o flychau ystlumod. Deuir o hyd i ystlumod du yn gaeafgysgu'r rheolaidd, er mai isel yw eu nifer, mewn safleoedd tandaearol. Maent hefyd yn gaeafgysgu mewn tyllau coed ac o dan risgl sy'n plisgo. Mae gan Gymru un dynodiad SoDdGA ar gyfer y rhywogaeth, sef Coedwig Pengelli, ac mae astudiaethau pellach ar y rhywogaeth brin hon ar waith er mwyn llywio'r gwaith cadwraeth yn y cytrefi a geir yn y cadarnleoedd allweddol yn Sir Benfro a Dyffryn Gwy.

**Oherwydd prinder yn y dystiolaeth, nid oedd modd cyfrifo amcangyfrif poblogaeth ar gyfer y rhywogaeth hon yn Adolygiad 2018.**

#### Bygythiadau

Ceir dystiolaeth gref o ddirywiad yn helaethrwydd gwifynod yn ardaloedd deheuol Prydain, a hefyd ddirywiad yn ansawdd cynefin coetiroedd hynafol.



Barbastelle bats are specialist moth feeders, foraging mainly in broadleaved woodlands and along waterways. Unimproved grasslands, field margins and hedgerows are also important habitats, and it is likely that the landscape of Wales is favourable to this species. In Great Britain, the first maternity colonies were only identified in 1997, and most are in tree holes. The species will also make occasional use of bat boxes. Hibernating barbastelle bats are found regularly, though in low numbers, at underground sites. They also hibernate in tree holes and beneath flaking bark. Wales has a single SSSI designation for the species, Pengelli Forest, and further studies of this rare species are being undertaken to inform the conservation of colonies in the key stronghold areas in Pembrokeshire and the Wye Valley.

**A lack of evidence prevented the calculation of a population estimate for this species in the 2018 Review.**

#### Threats

There is strong evidence of declines of moth abundance in southern Britain, and also of declines in the habitat quality of ancient woodland.





## Ystlum hirglust

### Brown long-eared bat

Plecotus auritus

#### Cynhenid Native

Statws cadwraeth  
Conservation status



#### Rhagolygon Prospects

#### Anhysbys Unknown

#### Sgôr dibynadwyedd Reliability score



#### Poblogaeth Population

**96,600**

Data yn ddiffygol  
Data deficient

Tuedd  
Trend

#### Gwasgariad Range

**20,643 km<sup>2</sup>**

Data yn ddiffygol  
Data deficient

Tuedd  
Trend



Mae ystlumod hirglust fel arfer yn fforio am fwyd mewn cynefinoedd o goetir llydanddail a choetir cymysg, neu o gwmpas coed mawr a gwrychoedd mewn ardaloedd sy'n fwy agored. Mae eu llygaid a chlustiau mawr yn eu galluogi i ddod o hyd i'w hysgylfaeth yn oddefol, yn ogystal â thrwy ddefnyddio ecoleoli. Gwyfynod a chwilod sy'n ffurio cyfran uchel o'u deiet, ond maent hefyd yn bwydo ar amrediad o bryfed mawr ac anifeiliaid nad ydynt yn hedfan. Mae clwydfannau mamolaeth wedi'u lleoli mewn coed, blychau ystlumod, ac adeiladau sy'n agos at goetir llydanddail. Defnyddir safleoedd tanddaearol yn rheolaidd ar gyfer gaeafgysgu.

**Mae'r amcangyfrif poblogaeth presennol fwy na phedair gwaith yn fwy nag ydoedd yn Adolygiad 1995, ond roedd yr amcangyfrif hanesyddol yn arbennig o annibynadwy, felly nid yw'n bosibl dod i gasgliadau yngylch tueddiadau o ran maint y boblogaeth dros amser.** Dosberthir y rhywogaeth felly yn ddiffygol o ran data.

#### Bygythiadau

Mae'r rhywogaeth hon yn debygol o gael ei heffeithio yn sgil colli cynefinoedd fforio o ganlyniad i lechfeddiant trefol a newidiadau i'r rheolaeth o goetiroedd a thir ffermio. Mae gwarchodaeth ddeddfwriaethol ar gyfer clwydfannau wedi helpu i ddiogelu safleoedd mamolaeth rhag cael eu colli yn ystod gwaith datblygu. Fodd bynnag, efallai fod defnydd pilenni toi anadlol, ac addasiadau eraill i adeiladau, wedi lleihau addasrwydd thermol clwydfannau. Nid yw ystlumod hirglust yn hoff o olau, felly maent yn cael eu heffeithio'n andwyol gan oleuadau artiffisial yn ystod y nos.



Brown long-eared bats usually forage within broadleaved and mixed woodland habitats, or around large trees and hedgerows in more open areas. Their large eyes and ears permit them to locate their prey passively, as well as by using echolocation. A high proportion of their diet is moths and beetles, but they also take a range of large insects and non-flying prey. Maternity roosts are located in trees, bat boxes, and buildings near broadleaved woodland. Underground sites are used regularly for hibernation.

**The current population estimate is more than four times higher than that in the 1995 Review, but the historical estimate was extremely unreliable, so it is not possible to draw conclusions about trends in population size over time.** The species is therefore classed as data deficient.

#### Threats

This species is likely to be affected by the loss of foraging habitats caused by urban encroachment and changes to woodland and farmland management. Legislative protection of roosts has helped to protect maternity sites from loss during development. However, the use of breathable roofing membranes, and other alterations to buildings, may have lowered the thermal suitability of roosts. Brown long-eared bats are light-shy, so they are adversely affected by artificial night lighting.

### **Ystlumod**

Mae Cymru yn gadarnle i ystlumod pedol ar lefelau Prydain Fawr ac Ewrop, ac mae eu poblogaethau a'u gwasgariadau daearyddol yn cynyddu. Ceir dealltwriaeth wael iawn o statws y rhan fwyaf o rywogaethau ystlumod eraill.

### **Bats**

*Wales is a stronghold for horseshoe bats at British and European levels, and their populations and geographical ranges are increasing. The status of most other bat species is very poorly understood.*





## Dyma'r rhywogaethau sy'n gwneud yn dda

Moch daear a ffwl bartiaid

Ceirw

Rhywogaethau a gyflwynwyd

### **Species doing well are**

*Badgers and polecats*

*Deer*

*Introduced species*



# Blaenoriaethau ymchwil

## 1.

### Mae dosbarthiadau wedi eu diffinio'n wael ar gyfer llawer o rywogaethau ar hyn o bryd.

Roedd ansicrwydd ynghylch a oedd diffyg ymdrech arsylwyr neu absenoldeb gwirioneddol yn esbonio bylchau yn y dosbarthiad yn broblem arbennig, yn enwedig tuag at ymylon gwasgariadau daearyddol. Mae amlinellu dosbarthiadau a deall effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd yn hanfodol wrth gynllunio ar gyfer cydnertedd ecosystemau.

Mae gwaith monitro mamaliaid presennol yn dibynnu'n fawr iawn ar fentrau gwyddoniaeth dinasyddion a chofnodi achlysurol. Mae angen cyfeirio ymdrech ychwanegol at arolygu i) tuag at ymylon gwasgariadau hysbys; ii) mewn ardaloedd yr ystyrir eu bod yn debygol o fod yn addas oherwydd asesiadau addasrwydd cynefin, ond lle nad yw'n hysbys fod y rhywogaeth wedi sefydlu; a iii) mewn ardaloedd â chofnodion ar wahân a allai gynrychioli poblogaethau arloesi neu weddilliol. I rai rhywogaethau, fel ystlumod coetir, mae angen arolygon arbenigol wedi'u targedu. Nid yw cynlluniau gwyddoniaeth dinasyddion presennol fel y Rhaglen Monitro Ystlumod Genedlaethol a'r Rhaglen Monitro Pathewod Genedlaethol wedi eu dylunio i amlinellu dosbarthiadau rhywogaethau; a chydag eithriad nifer fach o rywogaethau y mae'n anodd eu camadhabod (y mochyn daear, y llwynog, y draenog a'r gwning), nid yw'r data o gynlluniau sefydledig eraill yn ddigon cadarn i'w cynnwys yn yr *Adolygiad 2018* hwn.

## 2.

### Mae dadansoddiadau tueddiad amser o ddosbarthiad a maint poblogaeth yn cael eu peryglu'n ddifrifol gan ddiffyg monitro systematig.

Bydd sefydlu rhwydwaith o safleoedd sy'n cael eu monitro dro ar ôl tro ar ôl cyfnodau amser perthnasol (3-5 mlynedd), gan ddefnyddio protocolau safonedig, yn mynd i'r afael â'r broblem hon. Mae'n arbennig o bwysig fod ymylon dosbarthiadau hysbys yn cael eu monitro'n systematig. Mae hwn wedi bod yn amcan a gydnabuwyd ers blynyddoedd lawer (er enghraift, drwy'r Bartneriaeth Olrhain Mamaliaid), ond fe'i rhwystrwyd gan ddiffyg adnoddau a/neu wendidau methodolegol yn y dullau a ddefnyddiwyd.

I rai rhywogaethau, yn enwedig y rhai sy'n gryptig neu'n anodd eu harsylwi, mae amcangyfrifon genetig o faint a thueddiadau poblogaethau yn debygol o fod yn ddull llawer mwy cadarn a chosteffeithiol o fonitro na thechnegau'n seiliedig ar gyfrif.

## 3.

### Ceir diffyg data meddiannaeth ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau a chynefinoedd.

Gallai'r dybiaeth fod pob ardal o gynefin a allai fod yn addas yn y gwasgariad wedi ei meddiannu oramcangyfrif meintiau poblogaethau yn sylweddol. Mae'r broblem hon yn arbennig o ddybryd i rywogaethau sy'n debygol o fod wedi'u dosbarthu'n achlysurol mewn cynefin addas yn eu gwasgariad, fel ystlum Bechstein a'r carw coch.

Dylid mynd i'r afael â'r broblem hon trwy arolygon presenoldeb/absenoldeb eang, sydd angen llawer llai o adnoddau na monitro maint poblogaeth yn gynhwysfawr. Dylai ymdrechion ar gyfer pob rhywogaeth ganolbwytio ar y cynefinoedd hynny sy'n cyfrannu'r gyfran fwyaf o'r poblogaeth yn yr amcangyfrifon cyfredol.

## 4.

### Mae amcangyfrifon o ddwyseddau mamaliaid yn aml yn deillio o astudiaethau mewn ardaloedd yr ystyrir ei bod yn debygol, a priori, fod poblogaethau da ynddynt, ac fel rheol mewn ardaloedd daearyddol sydd wedi'u cyfyngu yn hytrach nag ardaloedd o ansawdd cynefin cynrychiadol ym mhob gwlad.

Mae unrhyw newidiadau i ddwysedd gyda lledred neu ansawdd cynefin wedi'u diffinio'n wael felly, gan gyfyngu'r gallu i gynllunio'n strategol ar gyfer cynnal gweithrediad a gwasanaethau ecosystemau.

Mae'r broblem hon yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith fod amcangyfrif dwysedd yn amcan eilaidd fel arfer i brosiectau a ddylunnir i fynd i'r afael â phroblem wahanol (er enghraift, ecoleg ymddygiadol neu epidemiolog). Hyd yn oed pan fo data perthnasol yn cael eu casglu, ceir diffyg diddordeb academaidd yn eu cyhoeddi yn aml, felly mae'r wybodaeth yn aros mewn adroddiadau prosiect a thraethodau ymchwil y mae'n anodd cael gafaol arnynt. Hefyd, mae rhai rhannau o Gymru wledig wedi eu hastudio'n llawer llai trylwyr nag ardaloedd mwy hygrych; er enghraift, gellid methu â chanfod poblogaethau ucheldir o lygod pengrwn y dŵr neu eu tangofnodi. Mae samplu strata ar hap, gan flaenoriaethu cynefinoedd sy'n cyfrannu fwyaf at yr amcangyfrif maint poblogaeth cyffredinol cyfredol, yn cynnig modd effeithlon a chosteffeithiol o fynd i'r afael â'r anhawster hwn. Gall y rhwydwaith hwn o safleoedd alinio â'r rhai a ddefnyddiwyd ym mhwynt 2 uchod. Dylid storio'r data dwysedd ar gyfer pob cyfuniad rhywogaeth-cynefin mewn ystorfa mynediad agored.

## Research priorities

### 1.

#### Distributions are currently poorly defined for many species.

Uncertainty about whether a lack of observer effort or true absence accounted for gaps in the distribution was a particular problem, especially towards the peripheries of geographical ranges. Delineating distributions, and understanding the potential impacts of climate change, are vital in planning for ecosystem resilience.

Current mammal monitoring depends very largely on citizen science initiatives and casual recording. Additional effort needs to be directed to surveying i) towards the edges of known distributions; ii) in areas considered likely to be suitable because of habitat suitability assessments, but where the species is not known to be established; and iii) in areas with isolated records that could represent pioneer or remnant populations. For some species, such as woodland bats, targeted specialist surveys are required. Existing citizen science schemes such as the National Bat Monitoring Programme (NBMP) and the National Dormouse Monitoring Programme (NDMP) are not designed to delineate species distributions; and with the exception of a small number of species that are difficult to misidentify (the badger, fox, hedgehog and rabbit), the data from other established schemes are insufficiently robust for inclusion in this *2018 Review*.

### 2.

#### Time trend analyses of both distribution and population size are severely compromised by a lack of systematic monitoring.

Establishing a network of sites that are repeatedly monitored at relevant time intervals (3–5 years), using standardised protocols, will address this issue. It is particularly important that the peripheries of known distributions are monitored systematically. This has been a recognised objective for many years (for example, through the Tracking Mammals Partnership), but has been hindered by a lack of resources and/or methodological weaknesses in the methods applied.

For some species, particularly those that are cryptic or difficult to observe, genetic estimations of population sizes and trends are likely to prove a much more robust and cost-effective approach to monitoring than count-based techniques.



### 3.

#### Occupancy data are lacking for most species and habitats.

The assumption that all areas of potentially suitable habitat within the range are occupied could severely overestimate population sizes. This problem is particularly acute for species which are likely to be patchily distributed among suitable habitat within their range, such as the Bechstein's bat and the red deer.

This issue should be addressed through widespread presence/absence surveys, which require much less resource than comprehensive monitoring of population size. Effort for each species should focus on those habitats that contribute the greatest proportion of the population in the current estimates.

### 4.

#### Estimates of mammal densities are often derived from studies in areas considered likely a priori to hold good populations, and are usually in restricted geographical areas rather than in areas of representative habitat quality in each country.

Any changes in density with latitude or habitat quality are therefore poorly defined, limiting the ability to plan strategically for the maintenance of ecosystem function and services.

This issue is partly a consequence of the fact that density estimation is generally a secondary objective of projects designed to address a different issue (for example, behavioural ecology or epidemiology). Even where relevant data are collected, there is often a lack of academic interest in publication, so the information remains in project reports and theses that are difficult to access. In addition, some parts of rural Wales are much less well-studied than more accessible areas; for example, upland populations of water voles may go undetected or under-recorded. Stratified randomised sampling, prioritising habitats that contribute most to the current overall population size estimate, provides an efficient and cost-effective means of addressing this difficulty. This network of sites can align with those used in point 2 above. The density data for each species-habitat combination should be stored in an open-access repository.

## 5.

**Prin iawn fu'r ymdrech arolygu ar rywogaethau toteithiog er gwaethaf eu pwysigrwydd tebygol i wasanaethau a gweithrediad ecosystemau: yn hytrach, mae'r ymdrech arolygu wedi ei gwyo'r gryf tuag at anifeiliaid prin.**

Mae'r duedd hon wedi codi'n rhannol o ganlyniad i ddeddfwriaeth rhywogaethau gwarchodedig a phwyslais yr ymdrech gadwraeth ar rywogaethau allweddol. Mae Brexit, a'r ymadawriad â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn cynnig cyfle i wella'r broses o fonitro tueddiadau ac amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer rhywogaethau allweddol eraill. Dylai monitro gynnwys rhywogaethau goresgynnol cyffredin fel y wiwer lwyd a'r llyoden ffyrnig, sy'n debygol o gael effeithiau ecolegol sylweddol.

Hefyd, mae sawl rhywogaeth doreithiog ac wedi cynefino wedi cael ei chyfrif yn wael iawn. Er enghraift, mae'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer y gwningen yn awgrymu bod y rhywogaeth yn dirywio, ac o ganlyniad mae ar y Rhest Goch fel dan beth bygythiad yng Nghymru. Gallai'r dirywriad hwn fod dros dro os achosion o glefyd yw'r prif ysgogwr, ond mae angen monitro i ddilysu'r dybiaeth hon. Ceir diffyg amcangyfrifon poblogaeth pendant ar gyfer yr ystlumod mwyaf toteithiog hefyd, gan gynnwys yr ystlum lleiaf cyffredin a'r ystlum lleiaf soprano. Mae angen y wybodaeth hon i ddeall effaith bygythiadau presennol (fel tyrbinau gwynt neu golled clwydfannau), ac i gynllunio strategaethau monitro a lliniaru priodol a chymesur.

## 6.

**Mae amcangyfrifon cyfredol o faint poblogaethau yn fras gan eu bod yn dibynnu ar ddefnyddio un amcangyfrif dwysedd ar gyfer ardaloedd mawr.**

Mae'n hysbys fod dwysedd a dosbarthiad llawer o famaliaid yn cael eu heffeithio'n gryf gan ansawdd cynefin yn ogystal â math. Ceir dystiolaeth fod ansawdd cynefinoedd ar gyfer bywyd gwylt yn dirywio, hyd yn oed pan fo cyfanswm yr arwynebedd sydd ar gael yn gyson (er enghraift, mae glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau yn cael ei golli). Mae angen dystiolaeth o effaith newidiadau o'r fath ar gyfer amrywiaeth eang o rywogaethau, gan gynnwys rhywogaethau cyffredin sy'n hanfodol i weithrediad ecosystemau fel llyoden bengron y gwair.

Dylid gwneud ymdrech i ddeall y cysylltiadau rhwng ansawdd cynefin (gan gynnwys cyfluniad a chysylltiadau) a helaethrwydd a dosbarthiad mamaliaid. Mae mamaliaid gwylt yn gwneud defnydd eang o gynefinoedd ymylol mewn tirweddau amaethyddol, fel gwaelod gwrychoedd a chorwel i caeau nad ydynt yn cael eu rheoli; ceir amcangyfrifon gwael iawn o'r manau hyn yn yr arolygon cyfredol.

## 7.

**Mae rhai grwpiau mamaliaid, gan gynnwys llawer sydd o bryder cadwraeth a rhai rhywogaethau goresgynnol, yn nodedig am ansawdd gwael y data sydd ar gael i ddarganfod maint neu ddosbarthiad eu poblogaethau.**

Dyma'r rhywogaethau â sgoriau dibynadwyedd gwael iawn o ran amcangyfrifon dwysedd a meddianaeth penodol i gynefin (sgôr <=1): y wahadden, pob math o lyg, y gwningen, llyoden yr yd, y llyoden ddu, y dyfrgi (y mae'r data ar feddianaeth ar ei gyfer yn wych, ond yn wael o ran dwysedd), y carlwm, y wenci, y minc, a'r carw sica. Roedd gan lawer eraill, gan gynnwys draenogod a'r mwyafrif o famaliaid bach, sgoriau o <=2.

Mae angen defnyddio adnoddau i gasglu dystiolaeth am y rhywogaethau hyn. Mae llawer ohonynt yn hanfodol anodd eu hastudio (er enghraift, y carlymoliaid bach), a dylid rhoi ystyriaeth i ddefnyddio technegau monitro amgen, fel samplu genetig nad yw'n fewnwthiol.

## 8.

**Ceir diffyg data dwysedd pendant ar gyfer pob math o ystlum, ac eithrio ystlumod pedol mwyaf a lleiaf. Nid oedd digon o ddata i ganiatáu amcangyfrif maint poblogaeth o gwbl ar gyfer ystlumod barfog, Brandt ac Alcatheo (rhywogaethau cryptig); yr ystlum du; ystlum Leisler; ac ystlum lleiaf Nathusius a allai fod yn fudol. Roedd gan un ystlum arall, yr ystlum mawr, sgôr o sero ar gyfer dibynadwyedd amcangyfrif poblogaeth hefyd.**

Ar gyfer y rhywogaeth hon, gellid gwneud amcangyfrifon ond roeddent yn seiliedig ar ddata cyfyngedig iawn, gan arwain at gyfyngau hyder mawr cyfatebol.

Mae angen buddsoddi adnoddau mewn cael gafaol ar ddata cadarn ar gyfer y rhywogaethau hyn. Er y gall technegau acwstig gyfrannu at ddata meddianaeth ar gyfer rhai rhywogaethau (gyda'r cafeat fod potensial uchel o wallau adnabod neu dangofnodi ar gyfer llawer o grwpiau, fel ystlumod *Myotis* spp., *Nyctalis* spp. a hirglust), ni all y dull hwn gynhyrchu gwybodaeth am ddwysedd ar hyn o bryd. Mae angen prosiectau penodol, wedi'u targedu felly, sy'n defnyddio dulliau maglu-marcio-ail-ddal neu, o bosibl, dulliau genetig. Nid yw ystlum Alcatheo yn hysbys yng Nghymru eto, a dim ond yn ddiweddar y cadarnhawyd ystlum Leisler trwy astudiaethau trapio, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymchwil fanwl ar rywogaethau allweddol.

## 5.

**There has been very little survey effort deployed on abundant species despite their likely importance to ecosystem services and function: survey effort is, instead, strongly skewed towards rare animals.**

This bias has arisen partly as a consequence of protected species legislation and the focus of conservation effort on key species. Brexit, and the departure from the Common Agricultural Policy, provide an opportunity to improve the monitoring of population trends and estimates for other key species. Monitoring should include invasive common species such as the grey squirrel and the brown rat, which are likely to have significant ecological impacts.

In addition, several abundant and naturalised species are very poorly quantified. For example, the available evidence for the rabbit suggests that the species is in decline, and consequently is Red Listed as Near Threatened in Wales. This decline may be temporary if disease outbreaks are the major driver, but monitoring is required to verify this assumption. Robust population estimates are also lacking for many of the most abundant bats, including the common and soprano pipistrelle. This information is necessary to understand the impact of current threats (such as wind turbines or roost loss), and to design appropriate and proportionate monitoring and mitigation strategies.

## 6.

**Current estimates of population size are crude as they depend on applying a single density estimate to large areas.**

It is known that for many mammals, density and distribution are strongly affected by habitat quality as well as type. There is evidence that the quality of habitats for wildlife is in decline, even where total availability is constant (for example, species-rich grassland is being lost). Evidence on the impact of such changes is needed for a wide range of species, including common species vital to ecosystem function such as the field vole.

Effort should be deployed in understanding the associations between habitat quality (including configuration and linkages) and mammal abundance and distribution. Wild mammals make extensive use of marginal habitats within agricultural landscapes, such as hedgerow bottoms and unmanaged field corners; these areas are very poorly estimated by the current surveys.



## 7.

**Some mammal groups, including many that are of conservation concern and some invasive species, are notable for the poor quality of data available to determine population size or distribution.**

Species with very poor reliability scores for habitat-specific density and occupancy estimates (score <=1) were: mole, all shrews, rabbit, harvest mouse, black rat, otter (for which data on occupancy are excellent, but on density, poor), stoat, weasel, mink, and sika deer. Many others, including hedgehogs and most small mammals, had scores of <=2.

Resource needs to be deployed to collect evidence on these species. Several are inherently difficult to study (for example, the small mustelids), and consideration should be given to the development of alternative monitoring techniques, such as non-invasive genetic sampling.


## 8.

**Robust density data are lacking for all bats, with the exception of greater and lesser horseshoe bats. There were insufficient data to permit population size estimation at all for the whiskered, Brandt's and Alcathoe bats (cryptic species); barbastelle bat; Leisler's bat; and the potentially migratory Natusius' pipistrelle bat. One other bat, the noctule, also had a score of zero for population estimate reliability.**

For this species, estimates could be computed but they were based on very restricted data, resulting in correspondingly large confidence intervals.

Resource needs to be invested in obtaining robust data for these species. Although acoustic techniques can contribute to occupancy data for some species (with the caveat that there is high potential for identification error or under-recording for many groups, such as the *Myotis* spp., Nyctaloid and long-eared bats), this approach cannot, at present, yield density information. Targeted, specific projects are therefore needed, using trap–mark–recapture or, potentially, genetic approaches. The Alcathoe bat is not yet known in Wales, and Leisler's bat has only recently been confirmed through trapping studies, highlighting the importance of detailed research on key species.

For other species such as serotine bat and Bechstein's bat, population estimates were achieved, but there is still much uncertainty about actual distribution, again due to the high potential for identification error or under-recording via acoustic surveys.



## 8. parhad

Cafwyd amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer rhywogaethau eraill fel yr ystlum adain-lydan ac ystlum Bechstein, ond ceir llawer o ansicrwydd o hyd ynghylch dosbarthiad gwirioneddol, unwaith eto oherwydd y potensial uchel o wallau adnabod neu dangofnodi trwy arolygon acwstig.

## 9.

**Mae'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd coed a choetir i ystlumod yn wael dros ben. Roedd amcangyfrifon poblogaeth yn amhosibl ar gyfer sawl rhywogaeth sydd wedi'i chysylltu'n benodol â choetir.**

Roedd cyfyngau hyder yn ymwneud ag amcangyfrifon ar gyfer rhai rhywogaethau cyffredin, gan gynnwys yr ystlum mawr, ystlum Natterer a'r ystlum hirglust, yn annerbyniol o uchel oherwydd dibyniaeth lwyf bron ar ddata o adeiladau i amcangyfrif maint poblogaethau. Heb wybodaeth am glwydfannau mewn coed, nid yw'n bosibl gwneud penderfyniadau cytbwys ynghylch a yw datblygiadau yn debygol o gael effaith berthnasol ar boblogaethau lleol.

Mae angen darganfod dwyseddau clwydfannau mewn coetiroedd a hefyd mewn coed eraill (er enghraifft, coed tir parc a choed gwrych aeddfed) ar frys. Mae angen darganfod maint clwydfannau mewn coed ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau hefyd. Dylid cynnal proses adnabod genetig ar dail mewn adeiladau gwledig a'r rhai yn y rhngwyneb gwledig/trefol i wella'r broses o adnabod clwydfannau ar gyfer yr ystlumod *Myotis* bach.

## 10.

**Nid yw'r gymhareb ryw ar gyfer clwydfannau cyn-bridio yn hysbys ar gyfer ystlumod. Mae hyn yn cael effaith fawr ar yr amcangyfrifon poblogaeth.**

Gellid diwallu'r angen ymchwil hwn yn gyflym ac yn ddarbodus trwy ymdrech gydgysylltiedig gan grwpiau ac ymchwilwyr ystlumod lleol.

## 11.

**Mae maint a natur yr effaith sy'n gysylltiedig â llawer o fygynchiadau posibl yn y dyfodol (er enghraifft, datblygiadau seilwaith mawr; dyraniadau tai newydd; mwy o draffig; a newidiadau i arferion ffermio yn wyneb y newid yn yr hinsawdd a senarios cymorthdaliadau diwygiedig) wedi'u disgrifio'n arbennig o wael, ac nid yw llawer o'r dulliau a ddefnyddir i'w monitro ar hyn o bryd yn addas ar gyfer ateb y cwestiynau hyn.**

Rydym yn gwybod bron dim am effeithiau cyfunol bygynchiadau o'r fath, gyda cholled cynefin fforio, llai o gysylltedd cynefin, a mwy o lygredd golau yn peri pryder arbennig. Ceir diffyg sail dystiolaeth ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau lliniaru, sy'n golygu y gallai adnoddau gael eu gwastraffu ar gamau aneffeithiol.

Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol ar gyfer cynllunio datblygiad cynaliadwy yng Nghymru, yn enwedig yng nghyd-destun y pwysau presennol ar gyfer tai a seilwaith newydd. Hebddi, mae dulliau arolygu a lliniaru yn annhebygol o fod yn addas na chymesur ac mae awdurdodau cyhoeddus yn annhebygol o gyflawni cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae angen dulliau i wella'r broses o gasglu a rhannu data ecolegol, a'u dehongli'n safonol, ar frys. Mae'r newidiadau mawr i'r dirwedd amaethyddol a ragwelir dros yr 20 mlynedd nesaf yn destun llawer llai o reolaeth ddeddfwriaethol na'r newidiadau i'r amgylchedd adeiledig.

O ystyried y cyfleoedd mwy cyfyngedig cyfatebol i fanteisio ar ddata a gesglir gan ddiwydiant, mae angen gwaith ymchwil strategol, a ddylai gynnwys asesiad o effeithiolrwydd cynlluniau amaeth-amgylcheddol newydd.



## 9.

**The importance of trees and woodland to bats is extremely poorly understood. Population estimates were impossible for several species particularly associated with woodland.**

Confidence intervals around estimates for some widespread species, including the noctule bat, Natterer's bat and brown long-eared bat, were unacceptably high owing to an almost total reliance on data from buildings to estimate population size. Without information on tree roosts, it is not possible to make informed decisions about whether developments are likely to have a material impact on local populations.

There is an urgent need to establish roost densities in woodland and also in other trees (for example, parkland and mature hedgerow trees). Roost sizes in trees also need to be established for most species. Genetic identification of droppings in rural buildings and those at the rural/suburban interface should be undertaken to improve roost identification for the small *Myotis* bats.

## 10.

**The sex ratio of pre-breeding roosts is not known for bats. This has a major impact on the population estimates.**

This research need could be rapidly and economically addressed through co-ordinated effort of local bat groups and researchers.

## 11.

**The scale and nature of the impact associated with many potential future threats (for example, major infrastructure developments; new housing allocations; increased traffic volume; and changes to farming practice in the face of climate change and altered subsidy scenarios) are extremely poorly characterised, and many of the approaches currently used to monitor them are not suitable for answering these questions.**

Almost nothing is known about the cumulative effects of such threats, with the loss of foraging habitat, decreased habitat connectivity, and increased light pollution being of particular concern. Most mitigation activities lack a robust evidence base, meaning that resource may be wasted on ineffective actions.

This information is vital to planning sustainable development in Wales, particularly in the context of the current pressure for new housing and infrastructure. Without it, survey and mitigation methods are unlikely to be either suitable or proportionate and public authorities are unlikely to meet responsibilities under the Environment (Wales) Act 2016 for sustainable management of natural resources.

Methods to improve the capture, sharing and standardised interpretation of ecological data are urgently required. The large-scale changes to the agricultural landscape anticipated over the next 20 years are subject to much less legislative control than the changes to the built environment.

Given the correspondingly fewer opportunities to take advantage of data collected by industry, there is a need for strategic research, which should include assessment of the effectiveness of new agri-environmental schemes.



Ers 1995, mae maint poblogaethau wedi gostwng mewn 7 rhywogaeth; cynyddu mewn 12 rhywogaeth; a bod yn sefydlog mewn 2 rywogaeth. Mae statws 28 o rywogaethau yn anhysbys.

*Since 1995, population sizes have declined in 7 species; increased in 12 species; and been stable in 2 species. The status of 28 species is unknown.*



# Heriau a chyfleoedd ar gyfer cadwraeth mamaliaid yng Nghymru

## 1. Adfer rhywogaethau –

Belaod

### Y broblem

Roedd belaod yn eang ac yn gymharol gyffredin ym Mhrydain ar un adeg. Dirywiodd y boblogaeth belaod yn sylweddol yn ystod y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif, o ganlyniad i golled gyfunol cynefin coetir a chynnydd i reolaeth ysglyfaethwyr yn gysylltiedig â'r twf i ystadu saethu anifeiliaid hela yn oes Fictoria. Dechreuodd y boblogaeth adfer ac ehangu yn yr Alban yn ystod yr 20fed ganrif. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd yr adferiad hwn yng Nghymru a Lloegr. Er i felaod gael eu cofnodi yng Nghymru a Lloegr yn achlysurol, roedd yn debygol fod y boblogaeth wedi dod mor fach ei bod yn ddiflanedig yn weithredol, gan ei gwneud yn annhebygol y byddai poblogaethau yn hyfyw yn yr hirdymor heb ymyrraeth. Hefyd, roedd data genetig yn awgrymu bod y poblogaethau a oedd yn parhau yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys yn rhannol o leiaf anifeiliaid a oedd wedi dianc o gaethiwed a/neu a oedd wedi eu trawsleoli'n gudd o rywle arall, a bod y poblogaethau gweddilliol cynhenid wedi diflannu o bosibl ar ryw adeg yn ystod yr 20fed ganrif.

### Y cyfle ar gyfer camau rheoli

Lle mae poblogaethau wedi diflannu yn weithredol ac yn annhebygol o adfer heb ymyrraeth, gall trawsleoliadau fod yn ddull cadwraeth effeithiol ar gyfer gwella statws poblogaeth. Symud a rhyddhau creadur byw yn fwriadol lle budd cadwraeth yw'r prif amcan yw trawsleoliad cadwraeth. Gall hyn fod yn atgyfnerthiad (symud a rhyddhau creadur yn fwriadol ymhlið poblogaeth bresennol o greaduriaid o'r un rhywogaeth) neu'n ailgyflwyniad (symud a rhyddhau creadur yn fwriadol o fewn ei wasgariad cynhenid y mae wedi diflannu ohono). Dylid cyflawni trawsleoliadau dim ond os bodlonir sawl maen prawf, fel y nodir gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur yn ei ddogfen *Guidelines for Reintroductions and Other Conservation Translocations*. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod achosion o ddirywiad yn y gorffennol wedi cael eu nodi ac wedi cael sylw, ac ystyried camau gweithredu eraill yn hytrach na thrawsleoli.

I felaod, dylai camau rheoli cydredol neu ychwanegol gwmpasu lliniaru rhag ffactorau cyfyngol posibl i adferiad poblogaeth. Gallai hyn gynnwys gosod blychau gwâl artiffisial, i fynd i'r afael â'r diffyg safleoedd gwâl naturiol, a hybu cynnydd i gysylltedd coetir. Hefyd, mae sicrhau bod y peryglon o farwolaeth ychwanegol (e.e. o ddamweiniau traffig ffordd) cyn lleied â phosibl yn bwysig i boblogaethau bach ac sy'n ailsefydlu.

Astudiaeth achos

### Prosiect Adfer Belaod Ymddiriedolaeth Natur Vincent

Nod Prosiect Adfer Belaod Ymddiriedolaeth Natur Vincent yw dychwelyd poblogaethau hyfyw o felaod i Gymru a Lloegr, lle mae amodau cynefin ac eraill yn addas. Yn cychwyn yn 2014, cynhaliwyd asesiad dichonoldeb i nodi sawl ardal yng Nghymru ag addaswydd cynefin uchel ar gyfer belaod. Yn dilyn arolygon maes helaeth, ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol, a sicrhau'r trwyddedau perthnasol, cyflawnwyd atgyfnerthiad poblogaeth. Rhwng 2015 a 2017, trawsleolwyd 51 o felaod o'r Alban i safleoedd rhyddhau yng nghanolbarth Cymru. Gosodwyd microsglodyn ym mhob un o'r belaod a rhoddyd coleri radio arnynt fel y gellid monitro eu symudiadau a'u goroesiad ar ôl eu rhyddhau. Cafodd y belaod eu holrhain drwy radio am hyd at flwyddyn ar ôl cael eu rhyddhau, a chawsant eu monitro wedi hynny trwy ddulliau anymwthiol, gan gynnwys maglau camera ac arolygon tail. Cofnodwyd patrymau bridio bob gwanwyn ers i'r trawsleoliadau ddechrau, a chafodd y cenawon cyntaf a genhedlwyd yng Nghymru eu geni yn 2017. Mae cyfraddau marwolaeth hysbys wedi bod yn isel, ac mae'r belaod wedi cynefino yn yr ardal ryddhau, yn ogystal â gwasgaru ymhellach i ffwrdd. Mae'r prosiect wedi ymgysylltu'n helaeth â'r gymuned a rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydlu cynllun benthyg maglau camera, sy'n galluogi'r cyhoedd i fenthyg camera llwybr i fonitro belaod a bywyd gwylt arall; agor canolfan ddeongliadol (o'r enw 'the Den') ar y cyd â Rheilffordd Cwm Rheidal; adeiladu cuddfan gwyltio belaod engrifftiol – y gyntaf yng Nghymru – mewn partneriaeth â Sw Caer; ac arddangosfeydd deongliadol amrywiol yn yr ardal ryddhau.



Llun • Photo: Alastair Marsh

# Challenges and opportunities for mammal conservation in Wales

## 1. Species restoration –

### Pine martens

#### The issue

Pine martens were once widespread and relatively common in Britain. During the 18th and 19th centuries, the pine marten population declined severely, as a combined result of the loss of woodland habitat and an increase in predator control associated with the growth in Victorian game shooting estates. During the 20th century, the population began to recover and expand in Scotland. However, this recovery did not occur in Wales and England. Whilst martens were occasionally recorded in Wales and England, it was probable that the population had become so small as to be functionally extinct, making it unlikely that populations would be viable in the long term without intervention. Additionally, genetic data suggested that populations persisting in Wales and England consisted at least partially of animals that had escaped from captivity and/or were covertly translocated from elsewhere, and that the indigenous relict populations possibly became extinct at some point during the 20th century.

#### The opportunity for management action

Where populations are functionally extinct and unlikely to recover without intervention, translocations can be an effective conservation tool for improving their status. Conservation translocation is the intentional movement and release of a living organism where the primary objective is a conservation benefit. This can either be a reinforcement (the intentional movement and release of an organism into an existing population of conspecifics) or reintroduction (the intentional movement and release of an organism inside its indigenous range from which it has disappeared). Translocations should only be carried out if several criteria are met, as set out by the International Union for the Conservation of Nature (IUCN) in their *Guidelines for Reintroductions and Other Conservation Translocations*. These include ensuring that the past causes of decline have been identified and addressed, and considering alternative courses of action to translocation.

For pine martens, concurrent or additional management action should mitigate against potential limiting factors for population recovery. This could include installing artificial den boxes, to address a lack of natural den sites, and promoting an increase in woodland connectivity. Furthermore, minimising the risks of additional mortality (e.g. from road traffic accidents) is important for small and re-establishing populations.

#### Case study

### Vincent Wildlife Trust's Pine Marten Recovery Project

Vincent Wildlife Trust's Pine Marten Recovery Project aims to restore viable populations of pine martens to Wales and England, where habitat and other conditions are suitable. Starting in 2014, a feasibility assessment was carried out to identify several areas in Wales with high habitat suitability for pine martens. Following extensive field surveys, engagement with local communities and stakeholders, and securing the relevant licences, a population reinforcement was carried out. During 2015–2017, 51 pine martens were translocated from Scotland to release sites in mid-Wales. All of the martens were microchipped and fitted with radio-collars so that their post-release movements and survival could be monitored. The martens were radio-tracked for up to twelve months after being released, and were subsequently monitored through non-invasive methods, including camera traps and scat surveys. Breeding has been recorded every spring since the translocations began, with the first kits conceived in Wales being born in 2017. Known mortality rates have been low, and the martens have settled in the release area, as well as spreading further afield. The project has undertaken extensive community and stakeholder engagement, including establishing a camera trap loan scheme, which allows the public to borrow a trail camera to monitor martens and other wildlife; the opening of an interpretative centre (known as 'the Den') in collaboration with the Rheidol Railway; the building of an exemplar pine marten viewing hide – the first in Wales – in partnership with Chester Zoo; and various interpretive displays within the release area.



Llun • Photo: James Hughes



## 2. Rheoli rhywogaethau estron –

### Llygod pengrwn y dŵr a mincod ar Ynys Môn

#### Y broblem

Roedd llygod pengrwn y dŵr yn eang ac yn gymharol gyffredin ym Mhrydain ar un adeg. Fodd bynnag, canfu arolwg cenedlaethol ym 1989–90 fod llygod pengrwn y dŵr yn bresennol yn 33% yn unig o safleoedd lle bu'r rhywogaeth hon yn bresennol yn y gorffennol.<sup>8</sup> Roedd y dirywiad sylweddol, y mae'n debygol iddo ddigwydd yn ystod yr 20fed ganrif, yn bennaf o ganlyniad i golli cynefin gwlyptir a glannau afon a oedd wedi ei gysylltu'n dda, a chynnydd i ysglyfaethu gan rywogaeth carlymoliad estron, y minc Americanaidd. Ffermiwyd mincod yn eang ar gyfer eu ffwr a sefydlodd achosion o ddianc neu ryddhau boblogaeth fridio yn iseldir Lloegr mor gynnar â'r 1930au. Roedd gwasgariad mincod yn cyd-fynd â diflaniad llygod pengrwn y dŵr cynhenid. Cofnodwyd colledion ar draws lawer o'r DU, wrth i lygoden bengron y dŵr ddioddef un o'r dirywiadau cyflymaf a gofnodwyd erioed o ran rhywogaeth yn y DU.<sup>9</sup> Parhaodd poblogaethau llygod pengrwn y dŵr mewn ardaloedd anghysbell o Gymru – yn ucheldiroedd Eryri ac ar Ynys Môn, lle nad oedd mincod wedi cael eu cofnodi. Yn 2001, daliwyd un minc yng ngogledd-ddwyrain Ynys Môn mewn magl gwiwerod llwyd.

#### Y cyfle ar gyfer camau rheoli

Dangoswyd bod datblygu rafftiau sy'n arnofio fel modd o ganfod mincod, a defnyddio mesurau rheoli strategol yn sgil hynny, yn ffordd effeithiol o reoli mincod.<sup>10,11</sup> Fodd bynnag, mae'n nodedig fod dileu hirdymor wedi bod yn nod na lwyddwyd i'w fodloni ar draws y rhan fwyaf o Brydain, gyda lefel uchel o fonitro a chynnal gwyliadwriaeth yn elfennau hollbwysig mewn cynlluniau effeithiol.<sup>12</sup>

#### Astudiaeth achos

### Rheoli mincod ar Ynys Môn

Mae Ynys Môn o bosibl yn safle gwych ar gyfer dileu mincod oherwydd ei maint cymharol fach a llai o gyfleoedd i ailgystrefu o'i chymharu â lleoliadau ar y tir mawr. Ers 2002, mae Asiantaeth yr Amgylchedd, a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hynny, wedi cynorthwyo gydag ariannu rhaglen rheoli mincod ar draws Ynys Môn gyfan wedi ei rheoli gan Menter Môn (cwmni menter gymdeithasol lleol). Mae hyn wedi cynnwys gosod rafftiau mincod yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt mewn nentydd, afonydd, llynnoedd a gwlyptiroedd ar draws yr ynys i ganfod mincod ac yna cael gwared arnynt yn drugarog. Mae staff sy'n cymryd rhan wedi cael eu hyfforddi ac yn gymwysedig ym maes rheolaeth. Cofnodwyd yr ymdrech faglu a lleoliadau a rhannwyd cofnodion o fincod, ynghyd â rhai llygod pengrwn y dŵr, dyfrgwn, ffwl bartiaid a rhywogaethau eraill, gyda Cofnod, y ganolfan cofnodion biolegol. Hyd yn hyn, mae'r prosiect yn cael gwared ar chwech neu saith o fincod bob blwyddyn, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi bod yn wrywod (canfuwyd y dystiolaeth gyntaf o fenywod yn bridio yn 2015). Dros amser, mae'r prosiect wedi newid ei bwyslais o gynnwys yr ynys gyfan i ganolbwytio ar dde'r ynys a'r tir mawr sy'n wynebu Ynys Môn (y gadwyn iechydol). Gosodwyd rafftiau mincod ar yr afonydd yn nhir mawr Gwynedd agosaf at Ynys Môn (10 km isaf afonydd Ogwen, Cegin, Seiont, Gwyrfa i Llyfni) i leihau symudiad mincod i Ynys Môn.<sup>13</sup>

Mae parhad cyllid ar gyfer y prosiect hwn wedi peri problemau er gwaethaf y ffaith fod y gwaith yn gam cadwraeth allweddol i lygod pengrwn y dŵr. Mae Ynys Môn yn cynnal poblogaethau sylweddol o'r rhywogaeth hon yn ei chynefinoedd iseldir ac mae Menter Môn wedi sicrhau rhagor o gyllid byrdymor. Mae Menter Môn yn bwriadu cychwyn cynllun 'mabwysiadu rafft', gan ddefnyddio gwirfoddolwyr i wneud rhywfaint o'r gwaith i wneud y prosiect yn fwy costeffeithiol. Ceir engrairefftiau niferus ledled Prydain o brosiectau cadwraeth llygod pengrwn y dŵr sydd wedi bod yn aflwyddiannus, wrth i fincod ailgystrefu ar ôl i gyllid prosiect byrdymor ddod i ben. Dim ond trwy weithredu hirdymor cydgysylltiedig y mae atal gwasgariad rhywogaethau estron goresgynnol yn bosibl.

.....

- 8 Strachan C, Strachan R, Jeffries DJ. (2000). *Preliminary Report on the Changes in Water Vole Populations of Britain as shown by the National Surveys of 1989–1990 and 1996–1998*. Ymddiriedolaeth Natur Vincent, Ledbury.
- 9 Strachan R. (1998). *The Water Vole Conservation Handbook*. George Street Press Ltd.
- 10 Reynolds JC, Short MJ, Leigh RJ. (2004). *Development of population control strategies for mink Mustela vison, using floating rafts as monitors and trap sites*. Biol Conserv 120:533–543.
- 11 Reynolds JC ac eraill (2013). *Effective control of non-native American mink by strategic trapping in a river catchment in mainland Britain*. J Wildlife Manage 77:545–54.
- 12 Bryce R ac eraill (2011). *Turning back the tide of American mink invasion at an unprecedented scale through community participation and adaptive management*. Biol Conserv 144:575–83.
- 13 Pritchard G. (2019). Cyfathrebiad personol.

## 2. Non-native species control – Water vole and mink on Anglesey

### The issue

Water voles were once widespread and relatively common in Britain. However, a national survey in 1989–90 found water voles occupying only 33% of sites that had held this species previously.<sup>8</sup> The severe decline, which is likely to have occurred throughout the 20th century, was largely a result of the loss of well-connected wetland and riparian habitat, and an increase in predation by a non-native mustelid species, the American mink. Mink were widely farmed for their fur, and escapes or releases established a breeding population in lowland England as early as the 1930s. Spread of mink correlated with the extinction of native water voles. Losses were recorded across much of the UK, water vole suffering one of the most rapid declines ever recorded in a UK species.<sup>9</sup> Water vole populations did remain in remote areas of Wales, in the uplands of Snowdonia and on the Isle of Anglesey, where mink had not been recorded. In 2001 a single mink was caught in north-east Anglesey in a grey squirrel trap.

### The opportunity for management action

The development of floating rafts as a means of detecting mink, and subsequent deployment of strategic control measures, have been shown to be an effective means of controlling mink.<sup>10,11</sup> However, it is notable that long-term eradication has proved an elusive goal across most of Britain, with a high degree of monitoring and continued vigilance being critical components of effective schemes.<sup>12</sup>

.....

- 8 Strachan C, Strachan R, Jeffries D.J. (2000). *Preliminary Report on the Changes in Water Vole Populations of Britain as shown by the National Surveys of 1989-1990 and 1996-1998*. Vincent Wildlife Trust, Ledbury.
- 9 Strachan R. (1998). *The Water Vole Conservation Handbook*. George Street Press Ltd.
- 10 Reynolds JC, Short MJ, Leigh RJ. (2004). *Development of population control strategies for mink Mustela vison, using floating rafts as monitors and trap sites*. Biol Conserv 120:533-543.
- 11 Reynolds JC et al. (2013). *Effective control of non-native American mink by strategic trapping in a river catchment in mainland Britain*. J Wildlife Manage 77:545-54.
- 12 Bryce R et al. (2011). *Turning back the tide of American mink invasion at an unprecedented scale through community participation and adaptive management*. Biol Conserv 144:575-83.
- 13 Pritchard G. (2019). Personal communication.

### Case study

### Mink control on Anglesey

Anglesey is potentially an excellent site for mink eradication owing to its relatively small size and lowered opportunities for recolonisation compared with mainland locations. Since 2002 the Environment Agency, and subsequently Natural Resources Wales, have assisted with funding an Anglesey-wide mink control programme managed by Menter Môn (a local social enterprise company). This has involved placing Game and Wildlife Conservation Trust mink rafts in streams, rivers, lakes and wetlands across the island, in order to detect, then humanely remove, mink. Staff involved have been trained and qualified in control. Trapping effort and location have been recorded, and records of mink, together with those of water voles, otters, polecats and other species, have been shared with Cofnod, the biological records centre. The project to date removes six or seven mink each year, most of which have been male (the first female breeding evidence was found in 2015). Over time, the project has changed its focus from covering the whole island to concentrating on the south of the island and the mainland facing Anglesey (the cordon sanitaire). Mink rafts were set on the rivers in mainland Gwynedd closest to Anglesey (the lower 10 km of the Ogwen, Cegin, Seiont, Gwyrfai and Llyfni) to reduce mink movement onto Anglesey.<sup>13</sup>

Continuity of funding for this project has been problematic, despite the works being a key conservation action for water voles. Anglesey supports significant populations of this species within its lowland habitats, and Menter Môn have secured further short term funding. Menter Môn are planning to start an 'adopt a raft' scheme, using volunteers to carry out some of the work to make the project more cost-effective.

There are numerous examples across Britain of water vole conservation projects that have floundered, with mink recolonising once short-term project funding runs out. Halting the spread of invasive non-native species is only possible through co-ordinated long-term action.



Llun • Photo: Roy Rimmer

### 3. Llygredd dŵr hanesyddol

#### Y problem

Mae cloddio am fetel, cynhyrchu cemegion a ffermio wedi arwain at ryddhau amrywiaeth eang o gemegion cyson a gwenwynig, y mae llawer ohonynt yn cyraedd ein hafonydd. Mae llygryddion organig parhaus (POPs) fel dieldrin, DDT a PCBs wedi rhoi iechyd pobl a bywyd gwylt mewn perygl. POPs oedd prif achos y dirywiad sydyn i boblogaethau dyfrgwn yn y 1960au a 1970au: gan eu bod ar frig y gadwyn fwyd dŵr croyw, roedd dyfrgwn yn arbennig o agored i niwed gan fod POPs yn biogronni ac yn biochwyddo. Er i rai rhannau o Gymru wneud yn well na Lloegr, dim ond 20% o safleoedd yng Nghymru a aseswyd yn arolwg cenedlaethol 1977–78 oedd ag arwyddion o ddyfrgwn.<sup>14</sup> Rheolir y defnydd o POPs erbyn hyn, ac mae adferiad eglur dyfrgwn yng Nghymru yn amlwg, gyda 90% o safleoedd arolwg cenedlaethol yn dangos presenoldeb dyfrgwn yn 2009–10.<sup>15</sup> Fodd bynnag, mae parhad a biochwyddo yn golygu bod POPs yn bygwth iechyd ymhell y tu hwnt i ddefnydd gweithredol, gyda'r potensial o drwytholchi o wastraff tirlenwi ac o ailgylchredeg llygryddion pan fydd afonydd yn gorlifo neu'n cael eu carthu. Mae effeithiau defnydd cyfredol o gemegion fel plaladdwyr a chynhyrchion fferyllol, a llygryddion eraill fel microblastigau, ar famaliaid yn dal i fod yn anhysbys i raddau helaeth. Mae'r rhain, a phroblemau ansawdd dŵr ehangach fel gollyngiadau slyri, hefyd yn cael effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sylweddol ar gymunedau dyfrol, er enghraift trwy'r ysglyfaeth sydd ar gael.

#### Cyfleoedd ar gyfer camau rheoli

Mae POPs etifeddol eisoes o dan reolaeth ddeddfwriaethol lem, a cheir lle cyfyngedig i reoli'r grŵp llygryddion hwn ymhellach. Fodd bynnag, mae angen gwaith monitro ac ymchwil i werthuso'r effeithiau posibl ar famaliaid yng Nghymru o gemegion defnydd cyfredol ac o ailgylchredeg POPs sydd wedi eu storio mewn gwaddodion a safleoedd tirlenwi. Monitro crynodiadau mewn ysglyfaethwyr brig yw'r dull mwyaf dibynadwy ar gyfer gwerthuso bygythiadau cemegol i fywyd gwylt. Mae cydweithrediad parhaus rhwng academyddion ac asiantaethau llywodraeth yn hanfodol i nodi, ymchwilio a monitro bygythiadau i fiota sy'n dod i'r amlwg o gemegion a ddefnyddir ar hyn o bryd, cyn y gellir cynghori ar gamau rheoli fel lleihau defnydd a thriniaeth well o ddŵr gwastraff. Mae sut y mae llygryddion yn symud drwy'r dirwedd a thrwy gadwyni bwyd, beth yw'r trothwyon ar gyfer niwed, ac asesu a yw bygythiadau llygryddion yn ychwanegol neu'n synergyddol, i gyd yn gwestiynau allweddol. I nodi canlyniadau lefel poblogaeth llygredd i famaliaid ac i asesu a yw lliniaru yn effeithiol, mae angen monitro llygryddion mewn ysglyfaethwyr brig yn gyson ac yn hirdymor, yn ogystal â monitro mwy traddodiadol o ddosbarthiadau a dynameg poblogaethau.

#### Astudiaeth achos

#### Prosiect Dyfrgwn Prifysgol Caerdydd

Ers 1994, mae Prifysgol Caerdydd wedi cynnal awtopsiâu ar ddyfrgwn a ganfuwyd yn farw yng Nghymru a Lloegr. Yr ysgogiad oedd monitro lefelau plaladdwyr etifeddol, PCBs a metelau ym meinweoedd dyfrgwn, oherwydd eu heffeithiau niweidiol ar fywyd gwylt. Wrth i ddatblygiadau dyfrgwn gynyddu, felly hefyd y mae cyflwyniadau carcasau, gan gyrraedd cyfartaledd o 43 y flwyddyn o Gymru rhwng 2008 a 2017. Mae'r data monitro POP diweddaraf sydd ar gael o ddyfrgwn yn dangos gostyngiadau i'r rhan fwyaf ond nid yr holl halogyddion etifeddol rhwng 1994 a 2009, ac yn datgelu crynodiadau uwchlaw trothwyon gwenwyn ar gyfer rhai unigolion.<sup>16</sup> Mae gwaith ymchwil ar sylweddau a fflworideiddiwyd ymlaen llaw, microblastigau a metelau yn dangos amlygiad eang. Bydd sgrinio di-darged o nifer fach o samplau dyfrgwn yn rhan o Brosiect LIFE APEX yr UE (<https://lifeapex.eu/>) yn hwyluso detholiad y sylweddau mwyaf perthnasol ar gyfer asesiad peryglon pellach. Mae arsylwadau post-mortem ar iechyd ac atgenhedlu yn hanfodol fel arwyddion rhybudd cynnar o effeithiau llygredd pan efallai na fydd canlyniadau lefel poblogaeth yn ganfyddadwy tan yn llawer diweddarach. Mae cymhariaeth â data halogyddion ac iechyd o ranbarthau Lloegr yn cynnig cyd-destun gwerthfawr ar gyfer dehongli ffynonellau a rheolaeth llygredd, ac yn helpu i ddatblygu set ddata o faint digonal ar gyfer dadansoddiadau cadarn. Mae gwybodaeth o boblogaethau dyfrgwn yn ddull gwerthfawr o ddehongli peryglon llygredd i famaliaid eraill. Fodd bynnag, mae cymorth ar gyfer casglu a dadansoddi carcasau yn peri problemau cynyddol, gan adlewyrchu pryder cadwraeth sy'n gostwng tuag at y rhywogaeth.

.....

14 Crawford A ac eraill (1979). Otter Survey of Wales 1977-78. Society for the Promotion of Nature Conservation, Nettleham.

15 Strachan R. (2015). Arolwg Dyfrgwn Cymru 2009–10. Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru, Caerdydd.

16 Ar gyfer cyhoeddiadau Prosiect Dyfrgwn Prifysgol Caerdydd, cysylltwch â ChadwickEA@caerdydd.ac.uk

### 3. Historical water pollution

#### The issue

Metal mining, chemical production, and farming, have resulted in the release of a wide range of persistent and toxic chemicals, many of which end up in our rivers. Persistent organic pollutants (POPs) such as dieldrin, DDT and PCBs have put both human and wildlife health at risk. POPs were the primary cause of the crash in otter populations in the 1960s–70s: being at the top of the freshwater food chain, otters were particularly vulnerable because POPs bioaccumulate and biomagnify. While some areas of Wales fared better than England, only 20% of Welsh sites assessed in the national survey of 1977–78 had signs of otters.<sup>14</sup> Usage of POPs is now controlled, and a clear recovery of otters in Wales is apparent, with 90% of national survey sites being positive for otters in 2009–10.<sup>15</sup> Persistence and biomagnification, however, mean that POPs threaten health long beyond active usage, with potential for leaching from landfill waste and for recirculation of pollutants when rivers flood or are dredged. Impacts on mammals of current use chemicals, such as pesticides and pharmaceuticals, and other pollutants such as microplastics, remain largely unknown. These, and wider water quality issues such as slurry spills, also have significant direct and indirect impacts on aquatic communities, for example, by affecting the availability of prey.

#### Opportunities for management action

Legacy POPs are already under strict legislative control, and there is limited scope for further management of this group of pollutants. However, monitoring and research is needed to evaluate the potential impacts on mammals in Wales of both current use chemicals and recirculation of POPs stored in sediments and landfill. Monitoring concentrations in top predators is the most reliable method for evaluating chemical threats to wildlife. Ongoing collaboration between academics and government agencies is vital, to identify, research, and monitor emerging threats to biota from current use chemicals, before being able to advise upon management actions, including usage reduction and improved wastewater treatment. How pollutants move through the landscape and food chains, what the thresholds are for harm, and assessing whether pollutant threats are additive or synergistic, are all key questions. To identify the population level consequences of pollution for mammals, and to assess whether mitigation is effective, consistent, long-term monitoring of pollutants in top predators is required, as well as more traditional monitoring of population distributions and dynamics.

#### Case study

#### Cardiff University Otter Project (CUOP)

Since 1994, Cardiff University has conducted necropsies of otters found dead in Wales and England. The impetus was to monitor levels of legacy pesticides, PCBs and metals in otter tissues, because of their harmful effects on wildlife. As otter distributions have increased, so have carcass submissions, reaching an average of 43 per year from Wales between 2008 and 17. The most recently available POP monitoring data from otters shows declines in most, but not all, legacy contaminants between 1994 and 2009, and reveals concentrations above toxic thresholds for some individuals.<sup>16</sup> Research on perfluorinated substances, microplastics and metals, demonstrates widespread exposure. Non-target screening of a small number of otter samples as part of the EU LIFE APEX Project (<https://lifeapex.eu/>) will facilitate selection of the most relevant substances for further hazard assessment. Post-mortem observations on health and reproduction are vital as early warning signs of pollution impacts, where population level consequences may not be detectable until much later. Comparison with contaminant and health data from English regions provides valuable context for interpretation of pollution sources and management, and helps build a dataset of sufficient size for robust analyses. Insights from otter populations are a valuable tool in interpreting pollution risks to other mammals. However, support for carcass collection and analysis is becoming increasingly problematic, reflecting a lessening of conservation concern for the species.



.....

14 Crawford A et al. (1979). Otter Survey of Wales 1977-78. Society for the Promotion of Nature Conservation, Nettleham.

15 Strachan R. (2015). Otter Survey of Wales 2009-10. Natural Resources Wales Report, Cardiff.

16 For Cardiff University Otter Project publications, contact ChadwickEA@cardiff.ac.uk

## 4. Ffermio –

### Cynlluniau amaeth-amgylcheddol a mamaliaid tir

#### Y broblem

Mae tua 75% o arwynebedd tir Cymru yn amaethyddol,<sup>17</sup> ac mae mwy na thri chwarter ohono yn dir pori parhaol. Prin yw'r amheuaeth fod ffermio yn cael effaith drech ar ein tirwedd a'n mamaliaid tir.

Mae holl rywogaethau mamaliaid tir Cymru yn byw ar dir ffermio ac yn ei ddefnyddio i rwyw raddau. Mae rhai, fel llygoden bengron y dŵr, yn aml yn gymharol ddisylw, er eu bod yn amlwg yn cael eu heffeithio'n gryf gan ddewisidiadau rheoli tir. Mae rhywogaethau eraill fel moch daear yn llawer haws eu hadnabod yn y dirwedd ac â chysylltiad cryf â thir ffermio. Mae agweddu cymdeithasol at famaliaid ar dir ffermio yn gyfatebol o amrywiol. Mae rhai rhywogaethau fel yr ysgyfarnog yn cael croeso cadarnhaol yng Nghymru yn gyffredinol, ond mae rhan moch daear yn y cylch o TB buchol mewn gwartheg wedi arwain, mewn rhai achosion, at agwedd elyniaethus tuag at y rhywogaeth.

Mae bron i bob mamal y tir yn cael ei effeithio'n sylweddol felly gan bolisi ffermio, gan gynnwys y ddarpariaeth o gynlluniau amaeth-amgylcheddol. I rai rhywogaethau, fel yr ysgyfarnog, mae cysylltiad y rhywogaeth â thir ffermio gymaint fel bod cynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi cael eu hamlygu fel un o'r dulliau mwyaf arwyddocaol o gael effaith ar eu cadwraeth yn y dyfodol.

#### Y cyfle ar gyfer camau rheoli

Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ffynhonnell fawr o gyllid i fusnesau ffermio yng Nghymru. Fe'u hariennir o dan Echel 2 Colofn Datblygu Gwledig y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), gyda Llywodraeth Cymru yn darparu arian cyfatebol o ychydig llai na hanner cyfanswm y costau. Bu nifer o gynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru dros y degawdau, ac mae eu dulliau a'u nodau wedi esblygu dros amser. Yn eu hanterth, roedd y cynlluniau yn cynnwys 7,600 o gyfranogwyr, gan gynrychioli 52% o dir amaethyddol.<sup>18</sup>

Yng Nghymru, Glastir, a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012, yw'r cynllun amaeth-amgylcheddol cyfredol. Erbyn 31 Rhagfyr 2013, roedd wedi cyflwyno taliadau grant gwerth ychydig yn llai na £22 miliwn.<sup>19</sup> Mae Glastir 'yn cefnogi ac yn cymhell camau gweithredu i wella'r amgylchedd' ac yn targeddu blaenorciaethau amgylcheddol penodol, gan gynnwys bioamrywiaeth. Roedd Tir Gofal, ei ragflaenydd, yn weithredol o 1999 i 2011 ac yn cynnwys amcan datganedig o 'ddiogelu a gwella cynefinoedd o bwys i fywyd gwylt'.<sup>20</sup>

Gyda'r lefel hon o gymorth ariannol i gyflawni amcanion o'r fath, a'r dylanwad y mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ei gael ar ddewisidiadau rheoli tir, mae cynlluniau o'r fath yn amlwg yn cynrychioli mecanwaith a allai fod yn arwyddocaol ar gyfer gwarchod mamaliaid yn gadarnhaol.

Fodd bynnag, beirniadwyd cynlluniau o'r fath yn y gorffennol am beidio â monitro eu heffeithiau i raddau sy'n gymesur â gwariant y cynllun, ac am beidio â sicrhau manteision bioamrywiaeth i'r lefel a ragwelwyd.

.....

17 Blackstock T ac eraill (2010). *Habitats of Wales: A Comprehensive Field Survey 1979–1997*. Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd.

18 <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-07/brexit-a-tir-ymgyngoriad-dogfen-ymgyngori.pdf>

19 [https://www.audit.wales/system/files/publications/Glastir\\_Welsh\\_2014.pdf](https://www.audit.wales/system/files/publications/Glastir_Welsh_2014.pdf)

20 [https://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7215%20-%20AUDIT%20COMMITTEE%20REPORT%20\(3\)%2008-08%20-%20Tir%20Gofal-17092008-97288/cr-ld7215-e-Cymraeg.pdf](https://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7215%20-%20AUDIT%20COMMITTEE%20REPORT%20(3)%2008-08%20-%20Tir%20Gofal-17092008-97288/cr-ld7215-e-Cymraeg.pdf)

## 4. Farming – Agri-environment schemes (AES) and terrestrial mammals

### The issue

Approximately 75% of Wales's land area is agricultural,<sup>17</sup> more than three quarters of which is permanent pasture. There is little doubt that farming has a dominant effect on our landscape and upon our terrestrial mammals.

All of Wales's terrestrial mammal species inhabit and use farmland to a greater or lesser degree. Some, such as water vole, often go relatively unnoticed, though they are clearly strongly affected by land management choices. Other species, such as badgers, are much more easily identified in the landscape, and are strongly associated with farmed land. Societal attitudes towards mammals in farmland are correspondingly diverse. Some species, such as brown hares, are generally positively received in Wales, but the role of badgers in the cycle of bovine TB in cattle has, in some cases, led to a hostile attitude towards the species.

Almost all terrestrial mammals are therefore significantly affected by farming policy, including the delivery of agri-environment schemes (AES). The association of some species with farmed land (e.g. the brown hare) is such that AES have been signposted as one of the most significant mechanisms to affect their future conservation.

### The opportunity for management action

AES are a major source of funding to farm businesses in Wales. They are funded under Axis 2 of the Common Agriculture Policy (CAP) Rural Development Pillar, with Welsh Government matching just under half of the total costs. Over the decades there have been a number of different AES in Wales, and their mechanisms and aims have evolved over time. At their peak, the schemes involved 7,600 participants, representing 52% of agricultural land.<sup>18</sup>

In Wales, the current AES is Glastir, launched by the Welsh Government in 2012. By 31 December 2013, it had issued grant payments of just under £22 million.<sup>19</sup> Glastir 'supports and incentivises action to improve the environment' and targets specific environmental priorities including biodiversity. Tir Gofal, its predecessor scheme, ran from 1999 to 2011, and included a stated objective to 'protect and enhance habitats of importance to wildlife'.<sup>20</sup>

With this level of financial support behind such objectives, and the influence that AES have on land management choices, such schemes clearly represent a potentially significant mechanism for the positive conservation of mammals.

However such schemes have been criticised in the past for not monitoring their impacts to an extent commensurate with scheme expenditure, and for not delivering biodiversity benefits to the anticipated level.

.....

17 Blackstock T et al. (2010). *Habitats of Wales: A Comprehensive Field Survey 1979–1997*. University of Wales Press, Cardiff.

18 [https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-07/brexit-and-our-land-consultation-document\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-07/brexit-and-our-land-consultation-document_0.pdf)

19 [https://www.audit.wales/system/files/publications/Glastir\\_English\\_2014.pdf](https://www.audit.wales/system/files/publications/Glastir_English_2014.pdf)

20 [http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7215%20-%20AUDIT%20COMMITTEE%20REPORT%20\(3\)%2008-08%20-%20Tir%20Gofal-17092008-97288/cr-ld7215-e-English.pdf](http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7215%20-%20AUDIT%20COMMITTEE%20REPORT%20(3)%2008-08%20-%20Tir%20Gofal-17092008-97288/cr-ld7215-e-English.pdf)

## 4. Ffermio –

Cynlluniau amaeth-amgylcheddol  
a mammaliaid tir  
parhad

Astudiaeth achos

### Monitro effeithiau Tir Gofal ar lygoden bengron y dŵr a'r ysgyfarnog

Rhwng 2009 (deng mlynedd ar ôl lansio'r cynllun yng Nghymru) a 2012, comisiynwyd rhaglen fonitro gynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru o effaith Tir Gofal. Roedd rhan o'r rhaglen hon yn cynnwys asesiad wedi'i dargedu o effaith y cynllun ar rywogaethau blaenoriaeth, gan gynnwys mammaliaid tir.<sup>21</sup>

Roedd absenoldeb data llinell sylfaen yn golygu y defnyddiwyd system asesu paru ffermydd, gan gymharu ffermydd yn y cynllun â ffermydd a barwyd y tu allan i'w ddylanwad. I'r rhan fwyaf o dacsonau, ni welwyd unrhyw fudd sylweddol o gynllun Tir Gofal ar lefel fferm. Fodd bynnag, roedd yr ysgyfarnog yn un eithriad cadarnhaol lle cofnodwyd gwahaniaethau sylweddol, gan awgrymu effallai fod cynnydd ar lefel y boblogaeth i niferoedd ysgyfarnogod yn cael ei ysgogi gan y cynllun. Roedd yr ysgyfarnog, a buddiolwyr eraill y cynllun (bras melyn, planhigion â'r) i gyd yn gysylltiedig â chynefinoedd â'r, sy'n awgrymu mai cymorth y cynllun i'r defnydd tir amaethyddol cymharol anghyffredin hwn yng Nghymru oedd yn gwneud gwahaniaeth.

I lygoden bengron y dŵr, ar y llaw arall, ni chofnodwyd unrhyw fudd sylweddol, er bod y cynllun yn cynnwys rhagnodiadau a allai fod o fudd i'r rhywogaeth. Mae rhesymau a awgrymwyd am hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth wael o bresenoldeb y rhywogaeth, diffyg niferoedd yn manteisio ar y rhagnodiadau mwyaf priodol, diffyg targedu daearyddol priodol, a'r ffaith fod amrywioldeb cynefin cychwynnol fwy na thebyg yn fwy nag unrhyw newid y gellid ei gyflawni o fewn cyfnod amser aelodaeth o'r cynllun.

Ar y cyfan, mae gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol botensial i gynorthwyo cadwraeth gadarnhaol mammaliaid tir. Fodd bynnag, os y targed yw cynyddu poblogaeth rhywogaeth benodol, yn enwedig rhywogaethau mwy lleol neu arbenigol, yna mae angen gwybodaeth leol dda am y rhywogaeth honno, ac mae angen camau rheoli ychwanegol yn gysylltiedig â rhagnodiadau'r cynllun sydd wedi'u cydgysylltu'n ofalus.

Llun • Photo: Jenny Hibbert



••••

21 MacDonald MA ac eraill (2019). *Have Welsh agri-environment schemes delivered for focal species? Results from a comprehensive monitoring programme*. J Appl Ecol. 2019; 00:1–12. <https://doi.org/10.1111/1365-2664.13329>

#### 4. Farming –

Agri-environment schemes (AES)  
and terrestrial mammals  
continued

Case study



#### Monitoring the impacts of Tir Gofal on the water vole and brown hare

Between 2009 (ten years after the scheme was launched in Wales) and 2012, the Welsh Government commissioned a comprehensive monitoring programme of the impact of Tir Gofal. Part of this programme included targeted assessment of the scheme's impact on priority species, including terrestrial mammals.<sup>21</sup>

The absence of baseline data meant that a 'matched farm' system of assessment was used, comparing farms within the scheme with paired farms outside its influence. For most taxa, there was no significant benefit of the Tir Gofal scheme observed at a farm level. However, the brown hare was a positive exception, with significant differences being recorded, suggesting that a population level increase in hare numbers might be being driven by the scheme. The brown hare, and the other beneficiaries of the scheme (yellowhammer, arable plants) were all associated with arable habitats, suggesting that it is the scheme's support for this relatively uncommon agricultural land use in Wales that was making a difference.

For the water vole, by contrast, no significant benefit was recorded, despite the scheme including prescriptions that could benefit the species. Reasons suggested for this include poor awareness of species presence, a lack of uptake for the most appropriate prescriptions, a lack of appropriate geographical targeting, and the fact that initial habitat variability probably exceeded any change achievable within the timeframe of the scheme.

Overall, AES have the potential to support positively the conservation of terrestrial mammals. However, if the target is to increase the population of a particular species, particularly of a more localised or specialist species, then good local information on that species is required, and additional management actions associated with carefully co-ordinated scheme prescriptions are required.



.....

21 MacDonald MA et al. (2019). Have Welsh agri-environment schemes delivered for focal species? Results from a comprehensive monitoring programme. J Appl Ecol. 2019; 00:1–12. <https://doi.org/10.1111/1365-2664.13329>

## 5. Rheoli cynefin glannau afonydd

### Y broblem

Ceir llawer o bwysau ar gynefinoedd glannau afonydd yng Nghymru sy'n lleihau eu hansawdd ac, yn sgil hynny, yn cael effaith andwyol ar y mamaliaid sy'n dibynnau ar ein hafonydd, ein nentydd a gwlyptiroedd cysylltiedig. Mae'r pwysau hyn yn cynnwys colled a diraddiad cynefin o ganlyniad i waith peirianneg; colled a difrod i goridorau glan yr afon a gwlyptiroedd glannau'r afon o ganlyniad i erydiad, pystylad gan anifeiliaid fferm, amaethyddiaeth ddwys a threfoli; colled bioamrywiaeth gynhenid o ganlyniad i rywogaethau estron goresgynol; a diraddiad ansawdd dŵr o ganlyniad i lygredd o amaethyddiaeth a datblygiad. Mae rhywogaethau dŵr croyw yn cael eu hamlygu i amrywiaeth eang o ysgogwyr newid. Gall y rhain ddod o brosesau naturiol neu o ganlyniad i ddyylanwadau dynol. Rhagwelir y bydd y newid yn yr hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar rywogaethau dŵr croyw, er enghraifft trwy leihau maint ardaloedd glannau afonydd a gwlyptiroedd. Felly, mae diogelu ac adfer ein cynefinoedd glannau afonydd yn hanfodol i sicrhau cydnerthedd yr ecosistemau hyn yn y dyfodol.

### Y cyfle ar gyfer camau rheoli

Ceir llawer o fecanweithiau a ddefnyddir i gyflawni gwelliannau i gynefinoedd glannau afonydd yng Nghymru, ar raddfa dalgylch cyfan a graddfa leol. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau pysgodfeydd a bioamrywiaeth a ddarperir gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Afonydd Cymru, yr Ymddiriedolaethau Natur, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr ymddiriedolaethau afonydd lleol, clybiau genweirio, prosiect 'Resilience for Natives' Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, Afonydd Menai a Cyfoeth Naturiol Cymru. Ariannwyd prosiectau adfer afonydd mawr gan raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd fel y prosiect Perlau mewn Perygl ar afon Eden yng ngogledd Cymru a phrosiect Ardal Gadwraeth Arbennig Irfon ar afon Irfon yn y canolbarth.

Mae prosiectau o'r fath yn mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o faterion, o ansawdd dŵr a gwarchod llystyfiant glannau afon rhag pystylad a phori i reoli rhywogaethau estron goresgynol. Hefyd, ceir diddordeb cynyddol yn y defnydd o adfer glannau afonydd a gwlyptir fel dull o leihau llifogydd a chynyddu prosesau dal a storio carbon.

Mae prosiectau adfer afonydd yn aml yn cyd-fynd yn dda â phartneriaethau aml-randdeiliad ac ymgysylltu cymunedol. Felly mae llawer o brosiectau o'r fath yn cynnig cyfleoedd gwych i gyflawni amcanion statudol Cymru o ran llesiant a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Am y rheswm hwn, maent yn aml yn bodloni meinu prawf sy'n ofynnol ar gyfer ceisiadau am gyllid. Mae'r prosiectau hyn hefyd yn ddulliau gwerthfawr o ran darparu mesurau gwella'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Dull newydd pwysig o ddarparu gwelliannau glannau afonydd yw Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru.<sup>22</sup> Mae Datganiadau Ardal yn nodi sut y bydd Cymru yn rheoli ei hadnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy weithio seiliedig ar le. Mae meysydd blaenoriaeth i afonydd yn y dull hwn yn cynnwys gwaith yn ein Dalgylchoedd Cyfle a darparu atebion seiliedig ar natur fel cynnal, gwella ac adfer gorlifdiredd.



.....

22 <https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=cy>

## 5. Riparian habitat management

### The issue

Riparian habitats in Wales are subject to many pressures that reduce their quality and, in turn, adversely affect the mammals reliant on our rivers, streams, and associated wetlands. These pressures include habitat loss and degradation as a result of channel engineering works; loss of bankside corridors and riparian wetlands as a result of erosion, poaching by farm animals, intensive agriculture, and urbanisation; loss of native biodiversity as a result of invasive non-native species; and degradation of water quality as a result of pollution from agriculture and development. Freshwater species are exposed to a wide range of drivers of change. This can be from natural processes or as a result of human influence. Climate change is predicted to have a significant impact on freshwater species, for example, by reducing the size of riparian areas and wetlands. Therefore, protecting and restoring our riparian habitats is vital, to ensure future resilience of these ecosystems.

### The opportunity for management action

There are many mechanisms by which riparian habitat improvements are being delivered in Wales, both on a catchment-wide and local scale. These include fisheries and biodiversity projects delivered by a range of organisations including Afonydd Cymru, the Wildlife Trusts, the National Trust, the local Rivers Trusts, angling clubs, British Association for Shooting and Conservation (BASC) Resilience for Natives project, Afonydd Menai, and Natural Resources Wales (NRW). Large river restoration projects have been funded by the European Union's LIFE programme, such as the Pearls in Peril project on the Afon Eden in north Wales, and the Irfon Special Area of Conservation project on the Afon Irfon in mid Wales.

Such projects address a wide range of issues, from water quality and the protection of bankside vegetation from poaching and grazing, to invasive non-native species management. In addition, there is increasing interest in the use of riparian and wetland restoration as a tool to reduce flooding, and to increase carbon sequestration.

River restoration projects often lend themselves to multi-stakeholder partnerships and community engagement. Therefore, many such projects provide excellent opportunities to deliver Wales's statutory Wellbeing and Sustainable Management of Natural Resources objectives. For this reason, they often meet criteria required for funding applications. These projects are also invaluable tools in delivering Water Framework Directive (WFD) and Habitats Directive improvement measures.

A major new mechanism for the delivery of riparian improvements is NRW's Area Statements.<sup>22</sup> Area Statements set out how Wales will achieve the sustainable management of its natural resources through place-based working. Priority areas for rivers within this approach include work in Opportunity Catchments, and the delivery of nature-based solutions, such as maintaining, enhancing, and restoring floodplains.

.....

<sup>22</sup> <https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=en>

## 5. Rheoli cynefin glannau afonydd

parhad

Astudiaeth achos

### Prosiect Tirwedd Fyw Alun a Chwiler

Ymgymmerwyd â Phrosiect Tirwedd Fyw Alun a Chwiler yng ngogledd-ddwyrain Cymru i wella a chynyddu cysylltedd cynefinoedd ar hyd corridorau dwy afon (afon Alun ac afon Chwiler). Gwnaed gwaith cynefin yn seiliedig ar astudiaeth gwmpasu a oedd yn cynnwys rhoi ffensys o amgylch clustogfeydd/corridorau glannau afonydd, waliau cynnal glannau afon naturiol, creu pyllau dŵr, a chael gwared ar rywogaethau estron goresgynnon (Cjac y neidiwr a mincod Americanaidd). Bwriadwyd i'r gweithgareddau hyn gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd lleol i amrywiaeth o rywogaethau: mae'n hysbys fod dyfrgwn yn bresennol ar hyd y ddwy afon a cheir cofnodion hanesyddol (2008) o lygod pengrwn y dŵr. Mae ffensio i gau allan ddefaid o lannau ffosydd mewn un lleoliad penodol wedi galluogi i llystyfiant aildyfu, ac mae wedi creu detholiad mwy amrywiol o borthiant a gorchudd ar gyfer unrhyw lygod pengrwn y dŵr yn yr ardal. Mewn lleoliad arall, sefydlwyd waliau cynnal glannau afon naturiol i atal erydiad pellach glan, gan osgoi'r angen am gaergewyll wedi'u llenwi â cherrig yr oedd perchenog y tir yn bwriadu eu defnyddio fel arall. Bydd y waliau cynnal naturiol yn casglu gwaddodion, gan atal gwelyau graean rhag cael eu rhwystro. Ymhen amser, bydd llystyfiant yn troi'r rhan hon o lan yr afon yn fan llawn amrywiaeth, gan gynnig lloches i fywyd gwylt, yn ogystal â sefydlogi'r glannau.

Astudiaeth achos

### Prosiect Ffermydd Llaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn rhan o fenter bresennol Cyfoeth Naturiol Cymru i leihau nifer y digwyddiadau llygredd amaethyddol yn ein hafonydd, mae'n ymgymryd â rhaglen i ymweld â phob un o'r 1,700 o ffermydd llaeth yng Nghymru.

Nod yr ymweliad yw helpu ffermwyr i leihau'r perygl o lygredd posibl wedi ei achosi gan ffermio llaeth, i rannu arfer gorau, ac i dynnu sylw at feysydd o ddiffyg cydymffurfiad â'r rheoliadau cyfredol. Ymwelwyd â channoedd o ffermydd hyd yma, ac mae'r rhaglen wedi cael croeso da.

Astudiaeth achos

### Prosiect Taclo'r Tywi

Mae dalgylch afon Tywi yn codi ym Mynyddoedd Cambria ac mae'n un o'r dalgylchoedd afon mwyaf amrywiol a phwysig yng Nghymru. Mae'r afon yn Ardal Gadwraeth Arbennig ac mae dyfrgwn wedi'u rhestru fel y prif reswm am ei dethol. Mae Dyffryn Tywi yn Sir Gaerfyrddin yn llawn amaethyddiaeth, yn enwedig ffermydd llaeth, a chaiff y dalgylch ei effeithio gan lygredd amaethyddol. Yn 2018, sefydlwyd prosiect Taclo'r Tywi gan Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio gyda'r gymuned amaethyddol a mynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n effeithio'r dalgylch.

Mae'r prosiect wedi cael ymateb da a bu ystod eang o bartneriaid yn ymwneud ag ef, gan gynnwys ffermwyr, busnesau lleol, Ilywodraeth leol, Dŵr Cymru, Coleg Sir Gâr (Gelli Aur), Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, Cyswllt Ffermio ac undebau'r amaethwyr (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru). Prif nod y prosiect yw gwella ansawdd dŵr yr afon, ond mae hefyd yn ceisio amddiffyn a gwella bioamrywiaeth, rheoli rywogaethau goresgynnon, lleihau erydiad pridd, cynyddu nifer y pysgod, a gwella'r dull o reoli maetholion.

## 5. Riparian habitat management

continued

### Case study

#### Alun and Chwiler Living Landscape Project

The Alun and Chwiler Living Landscape Project in north-east Wales was undertaken to improve and increase habitat connectivity along two river corridors (the Alun and the Chwiler). Following a scoping study, habitat works included fencing out riparian buffer zones/corridors, natural riverbank revetments, pond creation, and the removal of invasive non-native species (Himalayan balsam and American mink). These activities were designed to have a positive impact on the local environment for a range of species: otters are known to be present along both rivers, and there are historical (2008) records of water voles. Fencing to exclude sheep from the banks of ditches in one particular location has successfully enabled the regrowth of vegetation, and has created a more diverse selection of forage and cover for any water voles in the area. At another location, natural riverbank revetments were implemented in order to prevent further erosion of a bank, obviating the need for stone-filled gabions which the landowner was otherwise intending to use. The natural revetments will capture sediments, preventing gravel beds from becoming clogged up. In time, vegetation will make this a diverse section of riverbank, providing shelter for wildlife and stabilising the banks.



Llun • Photo: Roy Rimmer

### Case study

#### Natural Resources Wales Dairy Farm Project

As part of their current initiative to reduce the number of agricultural pollution incidents on our rivers, Natural Resources Wales is undertaking a program to visit all of the 1,700 dairy farms in Wales. The aim of this visit is to help farmers reduce the risk of potential pollution caused by dairy farming, to share best practice, and to highlight areas of non-compliance with current regulations. To date, hundreds of farms have been visited, and the programme has been well received.

### Case study

#### Taclo'r Tywi Project

Rising in the Cambrian mountains, the Afon Tywi catchment is one of the most diverse and important river catchments in Wales. The river is a Special Area of Conservation, with otter listed as a primary reason for that designation. The Tywi valley in Carmarthenshire is dominated by agriculture – mainly dairy farms – and the catchment is affected by agricultural pollution. In 2018 NRW set up the Taclo'r Tywi initiative to work with the community and address some of the pressures affecting the catchment.

The project has been well-received, with engagement from a wide range of partners including farmers, local businesses, local government, Dŵr Cymru, Coleg Sir Gâr (Gelli Aur), Carmarthenshire Fishermen's Federation, Farming Connect and the farmer's unions (NFU and FUW). The main aim of the project is to improve the water quality of the river, but it also seeks to protect and enhance biodiversity, manage invasive species, reduce soil erosion, increase fish numbers, and improve nutrient management.

## 6. Pathewod a rheoli coetir

### Y broblem

Bu cynnydd yn ystod y degawdau diwethaf i'r dosbarthiad o bathewod a gofnodwyd ledled Cymru. Er yr ystyri'r bod hwn yn gyfraniad cadarnhaol at statws y rhywogaeth hon, adroddir gostyngiad i ddwysedd cymharol pathewod ar draws Cymru a Lloegr.<sup>23</sup> Efallai fod yr ehangiad ymddangosol i ddosbarthiad pathewod o ganlyniad i ymdrech arolygu a chynlluniau cofnodi cynyddol, yn ogystal ag ymwybyddiaeth nad yw pathewod wedi'u cyfyngu i goetir llydanddail nodweddiadol fel coedlannau cyll, ond hefyd yn defnyddio amrywiaeth ehangach o gynefinoedd, gan gynnwys gwrychoedd, prysgwydd a choetiroedd conwydd. Yn ystod y degawdau diwethaf, mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi darparu cymorth i ehangu cynefin pathewod, fel Tir Gofal trwy adfer gwrychoedd a Coetiroedd Gwell i Gymru trwy wella cynefinoedd coetir hynafol a chysylltedd. O gofio bod poblogaethau yn parhau i ddirywio, mae'n ymddangos mai prin y mae'r gwaith rheoli a wnaed o dan y cynlluniau hyn wedi ei wneud i wella statws y rhywogaeth goetir eiconig hon.

### Y cyfle ar gyfer camau rheoli

Wrth reoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am ddarparu Strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru. Yn yr ystad goetir, nodwyd 19,500 hectar fel coetiroedd hynafol. Coetiroedd hynafol a blannwyd yw'r mwyaf sylweddol o'r categorïau hyn ac maent yn 40% o gyfanswm yr arwynebedd yng Nghymru. Yn Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, mae'n hysbys fod pathewod yn bresennol mewn tua 64 o goetiroedd, ac ystyri'r bod tebygolrwydd uchel eu bod yn bresennol mewn 65 arall oherwydd eu hagosrwydd at goetiroedd addas eraill neu goetiroedd eraill â phoblogaethau pathewod a gadarnhawyd. Hefyd, ceir poblogaethau a gadarnhawyd mewn sawl ardal goedio fawr fel Clocaenog, Crychan, Dyfi a Dyfnant. Mae gan yr holl goetiroedd a chymhlygau coedwig mawr hyn – i ryw raddau – elfen o goetir hynafol.

Trwy gymhwysyo polisi adfer a rheolaeth coetiroedd sensitif, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfle i gynyddu'r boblogaeth pathewod ar draws Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, ac i wneud cyfraniad sylweddol at gadwraeth pathewod.

.....

<sup>23</sup> Goodwin CE ac eraill (2017). 'Voluntary recording scheme reveals ongoing decline in the United Kingdom hazel dormouse *Muscardinus avellanarius* population.' *Mammal Rev* 47:183-97.

## 6. Dormice and woodland management

### The issue

In the last few decades there has been an increase in the recorded distribution of dormice across Wales. Although this is seen as a positive contribution to the status of this species, a reduction in the relative density of dormice is reported across England and Wales.<sup>23</sup> The apparent expansion in dormouse distribution may be a result of increased survey effort and recording schemes, but also because of awareness that dormice are not restricted to typical broad-leaved woodland, such as hazel coppice, but also use a wider range of habitats, including hedgerows, scrub and conifer woodlands. In recent decades, agri-environmental schemes have provided support to enhance dormice habitat, such as hedgerow restoration through Tir Gofal, and Better Woodland for Wales's (BWW) enhancement of ancient woodland habitats and connectivity. Given that populations continue to decline, the management carried out under these schemes appears to have done little to improve the status of this iconic woodland species.

### The opportunity for management action

In managing the Welsh Government Woodland Estate (WGWE), Natural Resources Wales is responsible for delivering the Welsh Government's Woodland for Wales Strategy. Within the woodland estate, 19,500 ha has been identified as Ancient Woodlands. The most significant of these categories is Planted Ancient Woodlands (PAWs), which make up 40% of the total area in Wales. Within the WGWE, approximately 64 woodlands are known to be inhabited by dormice. It is considered highly probable that a further 65 might also be inhabited, owing to their proximity to other suitable or confirmed woodlands with dormice populations. In addition, several large forested areas, such as Clocaenog, Crychan, Dyfi and Dyfnant, have confirmed populations. All these woodlands and large forest complexes – to a greater or lesser extent – have a component of Ancient Woodland.

In applying restoration policy and sensitive woodland management, NRW has an opportunity to enhance the dormouse population across the WGWE, and to make a considerable contribution to dormouse conservation.

.....

23 Goodwin CE et al. (2017). 'Voluntary recording scheme reveals ongoing decline in the United Kingdom hazel dormouse *Muscardinus avellanarius* population.' *Mammal Rev* 47:183-97.



## 6. Pathewod a rheoli coetir

parhad

Astudiaeth achos

### Coed Fron Wyllt (Bontuchel)

O'r coetiroedd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mae Coed Fron Wyllt yng ngogledd-ddwyrain Cymru, a adnabyddir yn lleol fel Bontuchel, yn safle blaenllaw ar gyfer cadwraeth pathewod. Cafodd Coed Fron Wyllt a choetir cyfagos Coed Fron Wyllt Uchaf, sy'n gorchuddio arwynebedd o tua 80 hectar gyda'i gilydd, eu caffael yn y 1950au, ar adeg pan oedd ysgogwyr polisi yn canolbwytio ar adnewyddu'r ffynhonnell bren genedlaethol, ac fe'u plannwyd gyda phinwydd, llarwydd ac, yng ngwaelod y dyffryn isaf, sbriws Norwy. Ddiweddu y 1980au, roedd y rhan fwyaf o'r coetiroedd hynafol a blannwyd hyn wedi cyrraedd aeddfedrwydd, ac fe'u rheolwyd trwy gyfres o lwyrgwymiadau yn ôl amserlen. Roedd yn amlwg, yn enwedig lle'r oedd y lleiniau llarwydd yn bresennol, fod yr isdyfiant gweddilliol o goed cyl, derw a bedw dal yn bresennol. Cyfrannodd y rhaglen Iwyrgwympo at dwf toreithiog y rhywogaethau llydanddail hyn, ac, ym 1993, ymgymherwyd â rhaglen i ddewis derw digoes ac ailfylchu coed cyl i ffafrio coed derw ifanc. Drwy'r 1990au, roedd y rhan fwyaf o Goed Fron Wyllt yn ymdebygu i fath coetir llydanddail cymysg, iseldir yn bennaf, o oedran cyson, a oedd yn datblygu'n fridgwf coedwig uchel. Yn ystod y cyfnod hwn y darganfuwyd y pathewod cyntaf wrth fonitro blychau adar. Arweiniodd hyn at sefydlu rhaglen fonitro i asesu maint y boblogaeth pathewod.

I sicrhau bod amrywiaeth strwythurol y cynefin cymaint â phosibl o fudd i bathewod, datblygwyd rhaglen brysgoedio a rheoli coed tal 20 mlynedd yn rhan ganol y coetir. Mae'r cynefin hwn yn darparu strwythur mosäig cylchdro, gan fod yr ymyrraeth prysgoedio yn darparu mieri/gwyddfid sy'n datblygu'n brysgrwydd, ac yna'n orchudd coetir mwy trwchus o dan coed tal aeddfed yn ddiweddarach.



### Cyfleoedd a gwersi a ddysgwyd

Wrth i Goed Fron Wyllt ddod i ddiweddu ei gylchdro prysgoedio cyntaf, ceir cyfle i fyfyrion ar y gwaith o reoli a monitro'r coetir ac, yn wir, gwersi i'w hystyried i Cyfoeth Naturiol Cymru o ran rheoli coetiroedd ar draws Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i fod o fudd i'r rhywogaeth hon sy'n dirywio. Mae'r gwaith o fonitro'r boblogaeth pathewod yn parhau, gan ddefnyddio protocol y Rhaglen Monitro Pathewod Genedlaethol, ac yn dangos mai'r boblogaeth pathewod yw un o'r mwyaf sy'n hysbys yn y DU.

Mae helaethrwydd pathewod wedi'i gysylltu'n gadarnhaol â rheoli coetir gweithredol, cyfansoddiad rhywogaethau coetir uwch a chysylltedd cynefinoedd.<sup>24</sup> Mae'n ymddangos yn debygol felly fod statws cadarnhaol y boblogaeth pathewod yng Nghoed Fron Wyllt yn gysylltiedig â'r gwaith rheoli cynefin rhagweithiol sy'n cael ei wneud.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymrwymo adnoddau sylweddol i reoli coetir, gan gwympo i wastraff yn aml (caiff coed eu cwympo at ddibenion cadwraeth yn unig ac ni chaiff y pren ei echdynnu). Mae angen datblygu dull rheoli coetir mwy cynaliadwy er mwyn i fwy o bobl fanteisio ar y math hwn o reoli dwys. Dylid archwilio cyfleoedd i nodi cyfleoedd marchnata i raglenni prysgoedio i leihau costau, ac i ddarparu fframwaith rheoli gwaith prysgoedio y gellir ei ailadrodd mewn coetiroedd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac sy'n eiddo preifat, gan fod o fudd i gadwraeth pathewod ledled Cymru.

.....

24 Goodwin CE ac eraill (2017). 'Voluntary recording scheme reveals ongoing decline in the United Kingdom hazel dormouse *Muscardinus avellanarius* population.' *Mammal Rev* 47:183-97.

## 6. Dormice and woodland management

continued

### Case study

#### Coed Fron Wyllt (Bontuchel)

Of the NRW managed woodlands, Coed Fron Wyllt in north-east Wales, known locally as Bontuchel, is a flagship site for dormouse conservation. Acquired in the 1950s, at a time when policy drivers were focused on replenishing the national timber resource, Coed Fron Wyllt and the adjoining woodland, Coed Fron Wyllt Uchaf – which together cover an area of approximately 80 ha – were planted with pine, larch, and, in the lower valley bottom, Norway spruce. In the late 1980s, most of this PAWs woodland had reached maturity, and was managed through a series of programmed clearfalls. It was evident, especially where the larch stands occurred, that the remnant understory of hazel, oak and birch was still present. The clearfelling programme contributed to the prolific growth of these broadleaved species and, in 1993, a programme was carried out to select maiden stem oaks and to respace hazel to favour oak saplings. Through the 1990s, most of Coed Fron Wyllt resembled a mixed, predominantly lowland, broadleaved woodland type of even age that was developing into high forest canopy. It was during this time that the first dormice were discovered during bird box monitoring. This prompted the establishment of a monitoring programme to assess the extent of the dormouse population.



To maximise the habitat's structural diversity to benefit dormice, a 20-year coppicing with standards management programme was developed within the middle section of the woodland. This habitat provides a rotation mosaic structure, as the coppicing intervention provides bramble and honeysuckle, that develop into scrub, and then later into denser woodland cover under mature standards.

#### Opportunities and lessons learnt

As Coed Fron Wyllt comes to the end of its first coppice rotation, there is an opportunity to reflect on the management and monitoring of the woodland, and indeed to consider what lessons might be learned in managing woodlands across the WGWE to benefit this declining species. Monitoring of the dormouse population continues, using the National Dormouse Monitoring Programme protocol, and shows that the dormouse population is one of the largest known in the UK.

There is a positive link between the abundance of dormice and the proactive management of woodland, higher woodland species composition, and habitat connectivity.<sup>24</sup> It therefore seems likely that the positive status of the dormouse population at Coed Fron Wyllt is linked to the proactive habitat management being undertaken.

NRW commits significant resource to the management of the woodland, often felling to waste (felling is undertaken purely for conservation purposes, and the timber is not extracted). For wider uptake of this type of intensive management, a more sustainable woodland management approach needs to be developed. Opportunities should be explored to identify marketing opportunities for coppicing programmes to reduce costs, and to provide a coppicing management framework that can be replicated within both NRW-managed and privately-owned woodlands, benefiting dormouse conservation across Wales.

.....

<sup>24</sup> Goodwin CE et al. (2017). 'Voluntary recording scheme reveals ongoing decline in the United Kingdom hazel dormouse *Muscardinus avellanarius* population.' *Mammal Rev* 47:183-97.

## 7. Ehangu'r amgylchedd adeiledig – addasu a darnio cynefinoedd a chynllunio strategol ar eu cyfer

### Y broblem

Er bod y rhan fwyaf o Gymru'n parhau i fod yn gefn gwlad, mae maint yr amgylchedd adeiledig yn cynyddu. Ers 2000, mae poblogaeth Cymru wedi tyfu mwy nag 8%, a rhagwelir y bydd yn tyfu 2.7% pellach dros y 10 mlynedd nesaf. Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn, mae nifer y tai yng Nghymru wedi cynyddu 6% dros y 10 mlynedd diwethaf. Disgwylir i'r duedd hon barhau: amcangyfrifir mai'r galw presennol yw 8,300 o dai ychwanegol y flwyddyn (ystod 7,200–9,700).<sup>25</sup> Mae'r broblem hon yn arbennig o ddifrifol yn ne-ddwyrain Cymru, lle mae dros hanner y boblogaeth yn byw, a ble mae cyfraddau twf y boblogaeth a'r galw am dai ar eu huchaf yn nhermau canrannau rhagamcanol, er bod y rhanbarth ond yn ffurfio 14% o arwynebedd tir y wlad.

Ochr yn ochr â'r galw am dai, mae angen ffyrdd, rheilffyrdd a chyflenwadau ynni hefyd. Mae seilwaith llinol yn un o achosion pwysig darnio cynefinoedd, a bydd llawer o ystlumod – gan gynnwys yr ystlum pedol lleiaf, sydd â chadarnle arbennig yng Nghymru – yn osgoi yn weithredol ardaloedd sydd wedi'u goleuo. Mae gwrrthdrawiadau traffig ffyrdd hefyd yn peri bygythiadau uniongyrchol i rai rhywogaethau, a pherir risgau pellach o wrthdrawiadau i adar ac ystlumod gan ffermydd gwynt. Mae canlyniadau twf yn y boblogaeth felly'n ymestyn ymhell y tu hwnt i ehangu ardaloedd trefol. Gan ystyried bod y rhan fwyaf o rywogaethau sensitif yn tueddu i fyw i ffwrdd o ardaloedd trefol, gall newidiadau cymharol fach mewn ardaloedd gwledig, fel gosod goleuadau stryd newydd, gael goblygiadau pwysig. Mae'n her sylweddol nodi llwybrau ar gyfer rhwydweithiau trafnidiaeth newydd sy'n osgoi tai ac ardaloedd sy'n allweddol ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae llawer o ardaloedd yn ddarostyngedig i ddatblygiadau lluosog a gall fod amryw ffurf ar y rhain, o dai, i adeiladu ffyrdd, i gynhyrchu ynni gwynt. Mae'r gwaith o asesu effeithiau cronus datblygiadau lluosog yn eithriadol o anodd – er ei fod yn un o ofynion ffurfiol Asesiadau Effaith Amgylcheddol. Mae angen mynd ati ar unwaith i greu mwy o brosesau effeithiol ar gyfer asesu effeithiau ar ardaloedd sydd y tu hwnt i ôl troed uniongyrchol datblygiadau unigol.

Daw newidiadau sylweddol i gynefinoedd yn sgil y gwaith o ddatblygu'r amgylchedd adeiledig a'r seilwaith cysylltiedig, ac maent yn ddiwrthdro yn gyffredinol.

.....

25 Ystadegau ar gyfer Cymru (2019). Datganiad Ystadegol Cyntaf: <https://llyw-cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/ystadegau-cryno-ar-gyfer-rhanbarthau-economaidd-cymru.pdf> (cyrchwyd 30 Mai 2019).

26 Lintott P, Mathews F. (2018). *Reviewing the evidence on mitigation strategies for bats in buildings informing best-practice for policy makers and practitioners*. Chartered Institute of Ecology and Environmental Management, Llundain.

Nid yw colli bioamrywiaeth yn anochel – er enghraift, lle ceir newid o dir pori a gaiff ei ffermio'n ddwys i dai o ddwysedd isel sydd â gerddi a mannau gwyrdd sydd wedi'u cynllunio'n dda – a lle bo'r polisi cynllunio'n gwarchod y cysyniad o sicrhau dim colled net o ran bioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygiad. Fodd bynnag, ceir heriau sylweddol wrth sicrhau y caiff gwaith lliniaru a gynllunnir ei gyflawni a'i gynnal i'r hirdymor. Yn gyntaf, yn aml ceir ansicrwydd ynglŷn ag effeithlonrwydd technegau lliniaru. Er enghraift, mae adolygiad o waith lliniaru ar gyfer ystlumod sy'n clwydo mewn adeiladau wedi amlygu sawl achos o fethiant, hyd yn oed lle caiff y dulliau eu gweithredu fel y'u cynlluniwyd.<sup>26</sup>

Yn ail, mae problemau diffyg cydymffurfio yn codi o fewn datblygiadau cymeradwy, sy'n amrywio o brosiectau bach (e.e. perchenog tŷ) sy'n effeithio ar un neu ddau o anifeiliaid unigol, i gynlluniau mwy o faint (e.e. adeiladu tai) sy'n cael effaith ar boblogaethau ehangach. Gall problemau godi yn ystod camau cychwynnol gwaith adeiladu ac yn ystod oes y datblygiad. Mae'r gwaith o orfodi a sicrhau bod pob cynllun yn cael ei weithredu'n ddigonol yn gofyn am adnoddau sylweddol gan awdurdodau cynllunio lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Y cyfile ar gyfer camau rheoli

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn darparu mechanwaith unigryw yn y DU i wella llesiant amgylcheddol a diwylliannol gwlad. Ynghyd â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n darparu fframwaith deddfwriaethol pwysig i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella trwy bolisi fel Polisi Cynllunio Cymru 10, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a strategaethau a chynlluniau lleol/rhanbarthol (er enghraift, cynlluniau llesiant a Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru).

Mae gan gyrrf cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau cynllunio, ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd ecosystemau wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu na ddylai datblygiad achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol, ac mae'n rhaid iddo ddarparu budd net i fioamrywiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro'r ddyletswydd hon trwy anfon llythyr 'Annwyl Prif Swyddog Cynllunio' at bob awdurdod cynllunio yn nodi: 'ble na fydd gwella bioamrywiaeth yn cael ei gynnig fel rhan o gais, byddwn yn rhoi pwyslais sylweddol ar y ffaith nad yw'n bresennol, ac os nad oes ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall, bydd angen gwrthod y caniatâd'.





## **7. Expansion of the built environment – habitat modification, fragmentation and strategic planning**

### **The issue**

Although most of Wales remains rural, the amount of built environment is increasing. Since the year 2000, the population of Wales has grown by more than 8%, and is projected to grow a further 2.7% over the next 10 years. Corresponding to these changes, the number of houses in Wales has increased by 6% over the last 10 years. This trend is expected to continue: current demand is estimated at 8,300 additional houses per year (range 7,200–9,700).<sup>25</sup> The issue is particularly acute in south-east Wales, where almost half of the population lives, and where projected percentage population growth rates and housing demand rates are highest, despite the region representing only 14% of the country's land area.

Alongside the requirement for housing, roads, railways and energy supplies are also needed. Linear infrastructure is an important cause of habitat fragmentation, and many bats – including the lesser horseshoe bat, which has a particular stronghold in Wales – will actively avoid areas that are lit. Road traffic collisions also pose direct threats to some species, and further collision risks are posed to birds and bats from wind farms. The consequences of population growth therefore extend well beyond the expansion of urban areas. Given that the most sensitive species tend to occur away from urban areas, relatively small changes in rural areas, such as the installation of new road lighting, can have important implications. It is a major challenge to identify routes for new transport networks that avoid both housing and key areas for wildlife.

Many areas are subject to multiple developments and these can take a variety of forms ranging from housing to road construction to wind energy generation. The assessment of cumulative impacts from multiple developments is extremely difficult — despite this being a formal requirement of Environmental Impact Assessments. Work is urgently needed to create more effective processes of assessing impacts outside the immediate footprint of individual developments.

The development of built environment and associated infrastructure brings profound habitat changes that are generally irreversible.

.....

25 Ystadegau ar gyfer Cymru / Statistics for Wales (2019). *Statistical First Release*: [https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/summary-statistics-for-welsh-economic-regions-wales-338\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/summary-statistics-for-welsh-economic-regions-wales-338_0.pdf) (accessed 30th May, 2019).

26 Lintott P, Mathews F. (2018). *Reviewing the evidence on mitigation strategies for bats in buildings informing best-practice for policy makers and practitioners*. Chartered Institute of Ecology and Environmental Management, London.

Biodiversity loss is not inevitable – for example, where there is change from intensively managed pasture to low density housing with gardens and well-designed green space – and planning policy enshrines the concept of no net loss of biodiversity from development. However, there are significant challenges in ensuring the long-term delivery and maintenance of planned mitigation. First, there is often uncertainty about the efficacy of mitigation techniques. For example, a review of mitigation for bats roosting in buildings has highlighted the high frequency of failure even where schemes are implemented as planned.<sup>26</sup>

Secondly, non-compliance issues occur within approved developments ranging from small (e.g. householder) projects impacting one or two individual animals to major (e.g. housing) schemes impacting wider populations. Issues can occur both during the initial construction phases and during the lifetime of the development; to enforce and ensure that all schemes are adequately implemented requires considerable resources from Local Planning Authorities and Natural Resources Wales.

### **The opportunity for management action**

The Well-being of Future Generations Act 2015 provides a unique mechanism in the UK to improve the environmental and cultural well-being of a country. Along with the 2016 Environment (Wales) Act, it provides an important legislative framework to ensure that biodiversity is maintained and enhanced through policy such as Planning Policy Wales 10 (PPW 10), the National Development Framework (NDF) and local/regional strategies and plans (for example, Well-being Plans and NRW Area Statements).

Public bodies, including planning authorities, have a duty to maintain and enhance biodiversity, and to promote ecosystem resilience in the exercise of their functions. This means that development should not cause any significant loss of habitats or populations of species, locally or nationally, and must provide a net benefit for biodiversity. The Welsh Government has clarified this duty by sending a 'Dear CPO' letter to each planning authority, stating, '*where biodiversity enhancement is not proposed as part of an application, significant weight will be given to its absence, and unless other significant material considerations indicate otherwise it will be necessary to refuse permission*'. PPW 10 outlines a requirement for the development of Green Infrastructure (GI) assessments by planning authorities, using existing datasets, and the best available information, to develop an integrated map-based evidence resource.

## 7. Ehangu'r amgylchedd adeiledig – parhad

### Y cyfle ar gyfer camau rheoli parhad

Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn amlinellu gofyniad i awdurdodau cynllunio ddatblygu asesiadau seilwaith gwyrdd gan ddefnyddio setiau data sy'n bodoli eisoes, a'r wybodaeth orau sydd ar gael, i ddatblygu adnodd tystiolaeth integredig seiliedig ar fap. Bydd hyn yn hwyluso dull rhagweithiol ac yn galluogi cyfraniadau tuag at nodau llesiant a chydnerthedd ecosystemau i fod mor fawr â phosibl, a dylai sicrhau bod lle ar gyfer natur trwy ddatblygu. Dylai'r asesiadau hyn hefyd fynd ati'n ymarferol i chwilio am gyfleoedd ehangach ar gyfer gwella, gan ganiatáu i gynllunio seilwaith gwyrdd ddigwydd ar lefel strategol, a sicrhau mwy o fuddion amgylchedd na phe baent yn cael eu hystyried ar sail achosion unigol.

Astudiaeth achos

### Dull seilwaith gwyrdd o ddatblygu: Canllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd Sir Fynwy

Seilwaith gwyrdd yw'r rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynoedd sy'n britho ac yn cysylltu pentrefi, trefi a dinasoedd. Pan fydd yn cael ei gynllunio, ei ddylunio a'i reoli'n briodol, mae gan seilwaith gwyrdd y potensial i ddarparu amrywiaeth eang o fanteision i bobl a bywyd gwylt.

Yn Sir Fynwy, mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd a fabwysiadwyd yn ategu polisiau rheoli strategol, a datblygu, y Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau dull o ddatblygu a arweinir gan seilwaith gwyrdd. Mae'r canllawiau cynllunio yn:

- diffinio seilwaith gwyrdd ac yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer Sir Fynwy;
- llywio'r cyngor ac ymgeiswyr drwy'r broses cyn-ymgeisio ac ymgeisio hyd at faterion a gedwir yn ôl ac amodau cynllunio yn ymwneud â seilwaith gwyrdd;
- defnyddio dull tri cham syml i ymsefydlu seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau trwy ddatblygu asedau seilwaith gwyrdd, cyfleoedd seilwaith gwyrdd ac uwchgyllun seilwaith gwyrdd;
- darparu rhestrau gwirio dylunio a chynllunio ymarferol ac astudiaethau achos arfer da a chyfeiriadau at ragor o wybodaeth; ac yn
- nodi gofynion seilwaith gwyrdd ar gyfer lleoliadau twf allweddol gyda phrosiectau posibl, yn cynnwys y rhai sydd o fudd i fioamrywiaeth.

Mae sawl datblygiad, yn cynnwys cynlluniau tai a thir cyflogaeth, wedi bod drwy'r broses gyfan erbyn hyn – o gynllunio i gwblhau gwaith adeiladu – gan ddefnyddio'r dull hwn.

Mae'n nodedig fod y Prif Weinidog Mark Drakeford wedi cyhoeddi, ym mis Mehefin 2019, canslo Prosiect Ffordd Liniaru'r M4, gan nodi, 'Yn benodol, rwy'n neilltuo pwys sylwedol iawn i'r ffaith y byddai'r prosiect yn cael effaith niweidiol sylwedol ar SoDdGAau Gwastadeddau Gwent a'u rhwydwaith gwyrdd a'u bywyd gwylt, ac ar rywogaethau eraill, ac effaith niweidiol barhaol ar dirwedd hanesyddol Gwastadeddau Gwent.'



Un budd sylwedol yw'r rheolaeth hirdymor a sicrheir trwy Gynlluniau Rheoli Seilwaith Gwyrdd, sy'n sicrhau camau rheoli tirwedd ac ecoleg addas sy'n darparu buddion lluosog. Mae gwerth y Cynlluniau Rheoli Seilwaith Gwyrdd yn arbennig o hanfodol ar adeg pan fo llai o dir yn cael ei gynnig i awdurdodau lleol ei fabwysiadu ac yn hytrach yn cael ei gadw gan gwmniau rheoli.

Mae sawl cynllun wedi cael ei gymeradwyo yn ddiweddar sydd wedi mabwysiadu dull seilwaith gwyrdd o ddylunio a datblygu, gan gynnwys ymgorffori a gwella asedau seilwaith gwyrdd fel gwrychoedd, coed a systemau draenio – a'r cysylltedd rhngddynt – i elwa bioamrywiaeth, gan gynnwys draenogod, dyfrgwn ac ystlumod. Ystyri'r bydd y mannau gwyrdd o ansawdd uwch sy'n cael eu sicrhau drwy'r dull seilwaith gwyrdd yn cynyddu effeithiolwydd camau lliniaru fel tai ystlumod, er bod angen gwneud gwaith ymchwil i ddilysu'r dybiaeth hon. Pan nad yw'n bosibl cadw a gwella bioamrywiaeth ar y safle, gellir sicrhau bond seilwaith gwyrdd (trwy Adran 106) i wneud gwaith oddi ar y safle sydd o fudd i seilwaith gwyrdd.

### Asesiadau / strategaethau seilwaith gwyrdd

Ategir y Canllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd gan Strategaeth Seilwaith Gwyrdd sy'n ffurfio Asesiad Seilwaith Gwyrdd Cyngor Sir Fynwy. Mewn mannau eraill yng Nghymru, datblygwyd strategaethau seilwaith gwyrdd mewn ymateb i ofyniad Polisi Cynllunio Cymru 10. Bydd y rhain yn llywio ac yn ategu Datganiadau Ardal ac yn hollbwysig ar gyfer darparu lle i natur mewn ardaloedd trefol ac ar safleoedd maes glas ar raddfa dirwedd.

## **7. Expansion of the built environment –**

continued

### **The opportunity for management action** continued

This will facilitate a proactive approach, enabling contributions towards the well-being goals and the resilience of ecosystems to be maximised, and should ensure that there is space for nature through development. These assessments should also actively look for wider opportunities for improvement, enabling GI planning to take place at a strategic level, and achieve greater environmental benefits than if they were looked at on a case-by-case basis.

It is of note that, in June 2019, First Minister Mark Drakeford announced the cancellation of the M4 Relief Road Project, stating, *'In particular, I attach very significant weight to the fact that the project would have a substantial adverse impact on the Gwent Levels SSSIs and their green network and wildlife, and on other species, and a permanent adverse impact on the historic landscape of the Gwent Levels.'*

#### Case study

### **Green Infrastructure Approach to development: Monmouthshire Green Infrastructure Supplementary Planning Guidance**

Green infrastructure (GI) is the network of natural and semi-natural features, green spaces, rivers and lakes, that intersperse and connect villages, towns and cities. When appropriately planned, designed and managed, green infrastructure has the potential to deliver a wide range of benefits for people and wildlife.

In Monmouthshire, the adopted Green Infrastructure Supplementary Planning Guidance (SPG) complements strategic and development management policies of the Local Development Plan to ensure a GI-led approach to development. The planning guidance:

- defines Green Infrastructure, and sets out a vision for Monmouthshire;
- guides the council and applicants through the pre-application and application process, through to reserved matters and planning conditions in relation to green Infrastructure;
- uses a simple 3 step approach to embed Green Infrastructure in development, through development of GI Assets, GI Opportunities and a GI Masterplan;
- provides practical design and planning checklists, with good practice case studies and signposting to further information; and
- identifies GI requirements for key growth locations, with potential projects including those that benefit biodiversity.

A number of developments, involving both housing schemes and employment land, have now been through the whole process, from planning to completion, using this approach.

A significant benefit is the secured long-term management achieved through Green Infrastructure Management Plans, which ensures suitable landscape and ecology management to deliver multiple benefits. The value of the GI Management Plans is particularly critical at a time when less land is being offered up to Local Authorities for adoption, and is instead retained by management companies.

Several schemes have recently been approved that have taken a GI approach to design and development, incorporating and enhancing green infrastructure assets such as hedgerows, trees and drainage systems, and the connectivity between them, to benefit biodiversity including hedgehogs, otters and bats. It is considered that the higher quality green spaces being secured through the GI approach will increase the effectiveness of mitigation such as bat houses, although research is required to verify this assumption. Where retention and enhancement of biodiversity is not possible on site, a Green Infrastructure Bond can be secured (via Section 106) to undertake works offsite which benefit green infrastructure.

#### **Green Infrastructure Assessments / Strategies**

The GI SPG is complemented by a Green Infrastructure Strategy which forms Monmouthshire County Council's Green Infrastructure Assessment. Elsewhere in Wales, Green Infrastructure Strategies have been developed in response to the requirements of PPW10. These will inform and complement Area Statements, and will be critical for delivery of space for nature both in urban areas and at greenfield sites on a landscape scale.

## Beth sydd angen ei wneud dros famaliaid yng Nghymru?

Er bod ymwybyddiaeth gynyddol bod argyfwng ecolegol, mae'r diffyg eglurder ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i wella statws cadwraeth mamaliaid yng Nghymru yn rhwystro pwysig rhag newid. Mae'n amlwg nad oes modd i un weithred unigol fod o fudd i bob rhywogaeth y tir, ond amlygir ychydig o gamau allweddol isod:

### 1.

#### Canolbwytio ar gynnal ac adfer ecosystemau gweithredol

Mae'n rhaid rhoi sylw i rywogaethau bio-helaeth, yn ogystal â rhywogaethau prin, mewn cynlluniau gweithredu cadwraeth. Er y cefnogir y dull hwn gan bolisiau cynllunio sy'n berthnasol i 'dim colled net o ran bioamrywiad', mae'r rhan fwyaf o weithrediadau cadwraeth yn tueddu i ganolbwytio ar rywogaethau prin a charismatig yn hytrach na rhai sy'n fwy helaeth, fel llygod pengrwn y gwair, sy'n hanfodol bwysig wrth sicrhau bod ecosystem yn weithiol.

### 2.

#### Symud tuag at system sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer gwaith lliniaru a chymorthdaliadau amaeth-amgylcheddol

Awgrymodd gwerthusiad o'r cynllun Tir Gofal nad oedd y rhan fwyaf o'r grwpiau tacsonomaidd wedi buddio o ganlyniad i gymorthdaliadau; ac mae rhaglenni lliniaru ar gyfer datblygiadau yn aml yn methu â darparu'r buddion a ragwelwyd. Mae angen canolbwytio ar fonitro canlyniadau – gan fabwysiadu dull addasol o reoli lle bo angen – a sicrhau bod adnoddau ac arbenigedd digonol ar gael er mwyn darparu trosolwg digonol o gydymffuriaeth.

### 3.

#### Creu rhwydweithiau adfer ecolegol

Un o'r heriau mwyaf i gadwraeth bywyd gwylt yng Nghymru yw darnio cynefinoedd addas. Er mwyn galluogi poblogaethau bywyd gwylt i adfer, a chaniatáu symudiadau mewn gwasgariad sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd, mae angen creu rhwydweithiau ar gyfer bywyd gwylt. Nid yw'r rhwydweithiau hyn yn dibynnu'n unig ar ardaloedd gwarchodedig ffurfiol, ond hefyd ar gynefinoedd ymylol fel prysgwydd a gwrychoedd, a all ddarparu llochesi hanfodol ar gyfer bywyd gwylt mewn ardaloedd trefol ac amaethyddol.

### 4.

#### Atgyfnerthu poblogaethau sy'n dirywio ac ailgyflwyno rhywogaethau a fu'n bresennol yn flaenorol

Lle bo hynny'n briodol ar gyfer adfer ecosystemau, a lle mae achosion dirywadau yn y gorffennol wedi derbyn sylw (gan ddilyn canllawiau'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur),<sup>27</sup> dylid ymgymryd â rhaglenni ailgyflwyno neu atgyfnerthu. Cafwyd llwyddiant yn barod drwy atgyfnerthu poblogaeth belaod, ac mae prosiectau annibynnol wrthi'n ystyried rhywogaethau eraill sy'n bwysig yn ecolegol, gan gynnwys y gath goed a'r afanc.

### 5.

#### Mynd i'r afael â'r prinder data gwaelodlin sy'n angenrheidiol er mwyn tanategu penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Dim ond ar gyfer is-set fach o rywogaethau mamaliaid yng Nghymru y ceir rhaglenni monitro da. Mae angen brys i ddeall statws a thueddiadau poblogaethau ar gyfer rhywogaethau helaeth sydd â phwysigrwydd ecolegol yn ogystal â'r rheiny sy'n destun pryder o safbwyt cadwraeth.

.....

27 International Union for Conservation of Nature (2013). *Guidelines for Reintroductions and Other Conservation Translocations*. IUCN, Gland, Y Swistir.

## What needs to be done for mammals in Wales?

Despite growing awareness of an ecological crisis, the lack of clarity over what needs to be done to improve the conservation status of mammals in Wales is an important barrier to change. Clearly, there cannot be a single action that benefits all terrestrial species, but some key steps are highlighted below:

### 1.

#### Focus on the maintenance and restoration of functional ecosystems

Attention must be paid to bio-abundant, as well as rare species in conservation action plans. While this approach is supported by planning policies relating to ‘no net-loss of biodiversity’, most conservation action tends to focus on rare and charismatic species rather than more abundant ones, such as field voles, which are critical to the functioning of the ecosystem.

### 2.

#### Move to an outcomes-based system for both mitigation and agri-environmental subsidies

